1550/88

AMRYW

HYMNAU

Dymunol a Phrofiadol,

O Waith HARRI SION,
Gerllaw Pont-y-Pŵl, *yn Sir* Fynwy.

At ba un y chwanegwyd,

Pigion o HYMNAU,

O WAITH

Yr AWDWYR hynottaf yn yr Oes bresennol.

PSALM LXVI. 8.

——— *A pherwch glywed llais ei fawl ef.*

CAERFYRDDIN,
Argraffwyd dros y Cyhoeddwr gan I. Ross.
M,DCC,LXXIII.

Rymie Owaith Morris Gruffydd
Nawr mae'r eglwyl Walkfaen yn ddu Mabon
yn eglwl tyr mawn tros a ystlad Mabonia
Ar mawr a cagl en cody yn ffyn Mabonia
Ar nud yn dywyd mae da yr Duw Mabon
Clod y tham Jachydwriaeth yn Mabon
Yr hwn an pygnadd ni ai wasd Mabon
Gwaith gwirion dwsch ymlaen Mabon
Dwsch cynnal chwi trwy r dwr ar tan
Mae'r eglwl ell fy nyn
Gwaith gwledlon gref
Yr eglwlon eglwl gest
Duw dduarth i heiz ar n
Nyn tuls ar dydd mawr
Eglwys eglwl hardde
A gwe yn fwyn ne wall

HYMNAU, &c.

HYMN I. *Yn annog i foliannu* Duw.

1 O Canwn fawl i'r Arglwydd Dduw,
Mor felus yw ei foliant ef;
Cyd dynnwn ganiad yn gytun,
A'n llef yn un â llu y nef.

2 Ein gwynfyd yw, tra fo'm ni byw,
Moliannu Duw yn hyn o fyd;
A rhagorfraint y firiol faint,
Yw gwel'd eu braint o bryd i bryd.

3 Gwynfyd y fawl fy' â hyn o hawl,
Canant ei fawl a'i foliant clyd;
Canwn i'r Oen ryw dirion dôn,
Gwerth ei waed gwirion y'm ni gyd.

4 Brenhin y faint, ein Brawd, a'n braint,
A roddodd faint a feddai 'n rhad;
I'r briod-ferch trwy firiol ferch
Gan fynych annerch gwerth ei wa'd.

ARALL.

O Canwn fawl i'r Bugail mwyn,
Sy'n dwyn ei ŵyn i'w fynwes;
Gan yngoleddu 'r rhai 'n o'u bron,
Yngwres ei galon gynnes.

2 Gwyn fyd ei braidd, o'r rhai'n ni baidd
Na llew, na blaidd, na llwynog;
Byth dynnu un er maint eu brad,
O ddwylo'r Tad gallnog.

3 Gogoniant, moliant mawr, Amen,
Dros fyth i'n Pen bendigaid;
Y Bugail da, yr hwn a roes
Ei einioes dros y defaid.

HYMN III.

Yn cynnwys hiraeth y Criſtion am ſwynhâd o DDUW.

1 BRaint, Braint
O wir orfoledd fawr ei faint,
Yw canu Pſalmau 'mhlith y ſaint;
Ni pherthyn gymmaint i ni o'r gân,
Heb ganu â'r dyall dirion dôn,
I Dduw a'r Oen trwy'r Yſbryd Glân.

2 Awn, awn
O 'wyllys calon oll pe cawn,
Ar fynydd Nebo, O na bawn!
I farw'n llawn o ddawn fy Nuw;
I wel'd gogoniant Canaan nef,
A chyd ag ef dros fyth i fyw.

3 Mi wn
Mai byw fy Mhrynwr anwyl hwn,
Er dwyn y pwys, a'r poen, a'r pwn,
Oedd drwm a dwfwn iawn ei faint;
Cawn gyd deyrnaſu ar y dda'ar,
Mewn cyflawn *ſhare* o'i freiniol fraint.

4 Cawn, cawn
Trwy gariad Duw gyrhaeddyd dawn,
Cyflawnder lôn i ni yn iawn,
I'n llenwi'n llawn llawenydd llon;
Lle ni ddaw'r gelyn glas a'i gledd
I ddwyn nawa hedd y ddinas hon.

5 Daw

5 Daw, daw
Ein priod adref o'r wlad draw,
Mae'r dyddiau llawen hyn gerllaw,
Na bydd na braw, na'r pwn na'r poen;
Lle cawn ni yn drag'wyddol fyw,
Yn gweled Duw, a'r ſanctaidd Oen.

HYMN IV.

Am addewidion Duw; annog i lynu wrtho; dymuniad i gael mwynhad o hono; a'i gymmorth yn amſer cyfyngder.

1 RHad, rhad
Yw addewidion Duw'n ddiwâd,
Trwy rhinwedd nerth a gwerth y gwa'd,
O fynwes cariad, pryniad prid!
Ei fywyd gwirion aeth Duw gŵyr,
I'n tynnu'n llwyr o dan y llîd.

2 Nad, nad
I fab na merch, i fam na thâd,
Na thai na thiroedd yr holl wlad,
O's gorfydd gad nhwy gyd i fyn'd;
A'th einioes hefyd o's rhaid fydd,
Cyn gado'th ffydd, na gwadu'th ffrynd.

3 Mae cwyn
Dy braidd o'u bron a'th weinion dwyn,
Am gael trwy ffydd bob dydd ei dwyn,
I ben y twyn, o'th fwynder fyn'd,
I wel'd gogoniant Canaan wlad,
Lle mae eu Tâd a'u ffyddlon Ffrynd.

4 Pa cyd
Y caf fi fyw mewn cyfyng fyd?
Sy'n llynn o'r gofid llawn i gyd,
Heb wel'd yr hyfryd hawddfyd hardd;
O'r mawr adferiad braf o'i fron,
Ar adail hon fel Eden ardd.

5 Nid oes
I'r dyn â gras fydd dan y gro's,
Ond gweddi yn lan, a godde'r lo's,
Wrth fynedd dros yr afon gref;
Bydd Crist trwy'r dyfroedd ar dy ran,
Fe'th ddwg i'r lan i *Ganaan* nef.

6 Duw, gwna
Dy fwyn addewid i ni 'n dda,
Bod d' enw'n dŵr o gadarn ga,
Yn graig o noddfa i ni a nawdd;
Na chaffo'r gelyn mewn un wedd,
Anturio 'r cledd a'm taro i'r clawdd.

8 Blîn, blîn
I'r rhai a brofodd Dduw'n ddi-brin,
Gas anwyl fwyn gusanau ei fin,
Sydd well na'r gwîn y goreu o'r grawn;
O dwg y rhai'n o'r drain i dre',
I'r man a'r lle y mae nhwy 'n llawn.

HYMN V.

Dymuniad i fod yn defnyddiol dros Dduw, ac i hyderu arno.

1 DA iawn,
Y fyddai gennyf fyw pe cawn,
O barch i'm Duw yn berchen dawn,
A'm lles yn llawn, a'm llwyth yn llai;
Mae corph marwolaeth wrtho i 'nglyn,
Yftruan ddyn dan faich o fai.

2 Duw, gad
Im' gennyt ti gael canniattâd,
I orchymyn f' enaid tlawd di-frâd,
I'th ddwylo Dad, am Ceidwad cu;
O derbyn ef pan êl o'm cnawd,
I gol fy Mrawd a'm Priod fry.

3 Fe gas
Dy anheilyngaf waelaf was,
Arwyddion grym gwirionedd gras,
Dy ſwyn gymdeithas gynnes gân;
A bwytta'r manna mwyn a'r mêl,
A ſicr ſêl yr Yſpryd Glân.

4 O Dad,
O'th gariad a'th drugaredd gad,
In' fwytta'r wledd o fyd da'r wlad,
Ac yfed gwa'd, gwinwydden Duw;
O's bydd i ti ein llonni 'n llyn,
A'r ymborth hyn ni fyddwn byw.

5 Rhyw awr
Mi fyddaf ar y muriau mawr,
Mewn ſicrwydd barn fel cadarn gawr,
Ar fyrr i lawr, a'm prawf ymhell;
Anwadal yw fy mhrofiad prudd,
Fe ŵyr fy ffydd i bethau gwell.

6 Pa'm? Pa'm
Y gwnaf â'm mawr fraint gymmaint gam?
Mae'r gwanna' o'i blant un Dad un fam,
Mae ei ofal am ei wannaf ŵyn;
Fe ddwg ymlaen y rhai ſy'n ol,
O fewn ei gol a'i ſynwes fwyn.

HYMN VI.

Am yr Adferiad.

1 DA iawn,
Y gwnaeth ein Duw bob peth mewn dawn,
O'i fawr fendithion llon yn llawn,
Ei weled cawn fel *Eden* Ardd;
Y ſeithfed fil o'i oedran cyd,
Bydd ſabbath byd gwir hyfryd hardd.

2 Barn,

2 Barn, barn
Gwir eiriau Duw yw rhai'n bob darn,
A dynion ſicr ar y ſarn,
Gwirionedd cadarn y'nt i gyd;
Bydd heddweh hoff ymhyrth pob gradd,
Heb wae na gwa'dd, na lladd na llid.

3 Rhy faith,
Yw rhyfedd fwm y rhif o faith,
Mae 'r gair yn llawn o'r iawn-deg iaith,
Chwe' mil mewn gwaith o chwys a pho'n;
A'r feithfed fil yn meddu 'r ma's,
Gogoniant gras yn nheyrnas Ion.

4 Rhaid, rhaid
I Grift deyrnaſu yn ddibaid
Nes troi 'i elynion llym i'r llaid,
A'r anffyddloniaid dan ei draed;
A gwedi 'n rhydd â llawen lef,
Ei deyrnas ef i Dduw a'r Tad.

5 Od oes,
Y fath ogoniant moliant moes
Yn bod i Grift lle bu dan groes,
Yn rhoi ei einioes wiw a'i waed?
Mawr fydd ei fraint pan el ef fry
Ynghyd â'i lu i dŷ ei Dad.

HYMN VII.

Tegwch CRIST, *a'i undeb â'r Eglwys.*

1 FEL Rhoſyn Saron coron gardd,
Fel lili hoff ddyffrynol hardd
Y gwynn a'r coch ſy'n lan o liw,
I ddenu 'n rhwym ſerch dynol-ryw.

2 Mae'n gwch o ran ei ddyndod mwyn,
Yn ei ddioddefaint dros ei wŷn;

Mae'n

Mae 'n wynn o'i Duwdod mawr o nerth,
Yn gwneud ei waith o berffaith werth.

3 Fel pren afalau ym myſg y ceed,
Mae 'i Berſon glan yn haeddu clod;
Natur y pren a'i nefol nof,
A dry ganghennau gwyllt yn ddof.

4 O'i ben i'w draed mae'n hawddgar oll,
Heb un perffeithrwydd yntho ar goll;
O dyma fy Anwylyd i,
Fy Mrawd, a'm Ffrynd, a'm Cyfaill cu.

5 Mae 'r Cyfaill hwn yn well na brawd,
Fe gymmerth fy naturiaeth dlawd;
Fe aeth yn feichiau yn fy lle,
I dalu 'm dyled trwm i dre'.

6 I gadarnhâu 'r berthynas hon,
O frawd i ni i'n bri o'n bron;
Fe roes ei hun yn briod im',
I nerthu 'm ffydd yn gryf mewn grym.

HYMN VIII.

Yn annog y Saint *i weled cariad* Duw *yn rhoddi ei Fab i ddioddef droſtynt.*

1 O Wraig yr Oen, gwel gariad Duw,
Yn rhoddi ei Fab dros ddynol-ryw!
Mawr goſb ein bai aeth arno fe,
A'r llid a'i lladdodd yn ein lle.

2 O gwelwn driniaeth Criſt ar groes,
O'n hachos ni dan lawer loes;
Na 's gall un tafod angel pur,
Amgyffred cariad Criſt a'i gur.

3 Fel Oen i'r lladdfa arweiniwyd ef,
Creawdwr mawr y ddaear a'r nef;

Diſtewi

Diſtewi wnai fel addfwyn oen,
Er ffyrnig bwys uffernol boen.

4 Nyni yn pechu o'r galon oll,
Nes i ni yn gwbl fynd ar goll;
Ein Pen i roddi in' ryddhad,
Coilodd o'i galon wirion wa'd.

5 Mae'n Priod uwchlaw clod ymhell,
Y gallu gwycha' a'r 'wyllys gwell;
Rhyſeddu byth ei gariad ef,
I'w gwaith aneirif nifer nef.

HYMN IX.

Ar Eſai LV. 1.

1 O Dewch ymla'n i'r dyfroedd glan,
'Rhwn nid oes arian gantho;
Dewch, prynwch wîn a llaeth diſlin,
Bwyttewch bob mîn a'i mynno.

2 Mae'r gwa'odd ar g'oedd, a'r rhai 'n yn rhodd,
I bawb o'u bodd a'i ceiſio;
I bobol byd o's dont mewn pryd,
Cânt ddw'r y bywyd gantho.

3 Mae'r dyfroedd hyn er dechreu'n wan,
Ar gynnydd anrhaethadwy;
Yn afon Duw hwy ddont mewn pryd,
I bawb o'r byd credadwy.

4 A yſo'n hyf o'r afon hon,
A phêr ddanteithion hyfryd;
Caiſt ſwyta o'r wledd medd, Amen,
Hoff ffrwythau Pren y bywyd.

5 O enaid ffyddlon! 'rhwn wyt dlawd,
Mae'th hunaf frawd dy hunan,
I'th dirion wa'wdd o'i nawdd trwy nerth,
I'r wledd heb werth nac arian.

6 Na fydd yn driſt ſe ddwg dy draul,
Tarian a haul ei bobol;
O wreiddyn y Winwydden hon,
Mae nof planhigion nefol.

7 Gan hynny feibion, dwys wrandewch,
I'r dyfroedd dewch, ſy'n lleſiol;
A rhinwedd ynthynt i'ch iachau,
O'ch mawrion friwiau marwol.

HYMN X.

Am Ordinhadau Duw.

1 MAE ordinhadau Criſt yn llawn
O bob rhyw ddawn i ddyn;
O's hyr-dra ynthynt hwy a gawn,
Mae hyn o'r dyn ei hun.

2 O nefol Arglwydd, un a thri,
Corona di ein cwrdd;
Trwy dd'od i'n plith a g'lawio gwlith
Dy fendith wrth dy fwrdd.

3 Gad i ni wybod gwaelod gwerth,
Ein braint a'n nerth i gyd;
Gwir Fab y Tad â'i wirion wa'd,
A brynodd rhai'n yn brid.

4 Eneinia'n cof trwy deimlad dof,
Anfon in' nof o'r nef;
I wel'd y fraint ac ſydd i'r ſaint,
O'i drwm ddioddefaint ef.

5 Rho hawl o'n hedd trwy wiwlan wledd,
Gad i ni feddu'r fraint;
Ein Duw da dod dy nefol nôd,
A'th ſêl, ein bod o'th ſaint.

6 Anfon d' addewid fwyn ar frys,
I'r enaid clwyfus claf;
I'n tywys ni o'r tonnau i'r tir,
Tro'r gaiaf hir yn haf.

7 Ac

7 Ac oni's cawn gan Dduw'r fath ddawn,
A chyflawn ddeheu wynt;
Nertha ni fyw trwy ffydd Mab Duw,
Ar brawf o'r cyfryw gynt.

8 Cyfammod Duw ynghrift yw'r fail,
A'r fêl yn ail y fydd;
Mae'r weithred gyflawn hon dan gêl,
Nes del y fêl trwy ffydd.

9 Bydd gyda rhai a droed i drai,
A'u lloer yn llai nâ llawn;
Sy'n ffaelu d'od o wendid oed,
I roi ufudd-dod iawn.

10 Bydd iddynt well na'r modd ymhell,
Gan lenwi cell yn llawn;
Trwy dyner dân yr Yfpryd glân,
Serchoglan ddiddan ddawn.

HYMN XI.

Mor rhinweddol yw cariad CRIST *i'r enaid profiadol.*

1 PAN fyddo'r Priod-Fab trwy ferch,
I'r Briod-Ferch yn rhoddi
Gyfonaidd fwyn gufanau'i fin,
Mae'n well nâ'r gwin i'n llonni.

2 O gwelwch! profwch gariad rhâd,
A roes y Tad i ddynion
Anheilwng gwael, di-fraint, di-fri,
I'n gwneuthur ni yn feibion.

3 Mae cariad Crift yn well nâ gwin,
I'r grafol fin mae'n fywyd;
Mae'i flâs yn well nâ'r manna'r môl,
Trwy ddi-dwyll fêl yr Yfpryd.

4 Ni

4 Ni gawn weled nad yw'r clod,
A roed erio'd i'r Iesu
Mewn geiriau dynion goreu 'u dawn,
Ddim hanner iawn i hynny.

5 Gwyn fyd y bobol uchlaw neb,
Sy 'n gwel'd ei wyneb hawddgar;
Gwyn fyd ei weision, mawr eu braint,
O fwynhau cymmaint ffafar.

6 O na b'ai gwedd ei wyneb gwiw,
(Ei lais a'i liw dymunol)
Yn gwedd-newidio pawb o'i blant,
I'r un gogoniant nefol!

7 Rhinweddau 'r cariad hwn y fydd,
Trwy dduwiol ffydd ddiffuant
Yn rhoddi i'r plant eu hawl eu hun,
A rhan o'r un gogoniant.

8 O carwn Dduw uwchlaw 'r holl fyd,
Mewn pur-ffydd fywyd perffaith,
Gan ddiſgwyl am ei Fab o'r nef,
I'w weled ef yr ailwaith!

HYMN XII.

Gwerthfawrogrwydd Cariad CRIST *a'i Barhâd.*

1 MAE cariad Criſt yn hyfryd iawn,
Yn ymborth llawn llawenydd;
Tân nefol yw i'r byw 'n ddiball,
Nid dw'r y fall a'i diffydd.

2 Y ffordd i 'nabod cariad Criſt,
Golygu ei driſt ddioddefaint;
Ni chofpwyd drwg mor drwm i dre',
Na'r cam â phoenau cymmaint.

3 Pechodau ei bobl ym mhob oes,
Rho'w'd ar y groes ar Ieſu;
Gwaed gwîrion gwerthfawr pur ein Pen,
Aeth ar y pren i'n prynu.

4 Nid aur ac arian er eu gwerth,
Nac aberth anifeiliaid;
Ond aberth gwerthfawr waed Criſt clyw,
Sy 'n uno Duw â'r enaid.

5 Er iddo farw, ſicr yw
Ei fod e'n byw'n dragywyddol
Ger bron y Tad mewn undeb clos,
Yn eiriol dros ei bobol.

6 O enaid truan, gwybydd fod
Dy raſol Briod Ieſu
I'th garu â'r un cariad cu,
A phan y bu'n dy brynu.

7 Mae 'n pardwn gwedi ſelio 'n rhad,
A gwerthfawr wa'd y Ieſu;
Mae'n dinas-fraint o'r deyrnas fry,
A'n dyled gwedi dalu.

HYMN XIII.

Y JUBILI yn agoſhâu

1 MEWN meſur darfu 'r gauaf du,
A'r tymmor hy ſy 'n tynnu 'n hâf;
A'r blodau ar y mynydd ſy',
A'r adar fry yn canu 'n frâf.

2 Clybuwyd mwyn-lais llednais llon,
Y durtur dirion, wirion wedd;
Heddwch ym mhyrth holl ddaear gron,
Llinynau hon yn llawn o hedd.

3 Mae'r

3 Mae'r ddelw fawr ym mron yn awr
Yn llwyr i'r llawr ar ſyrthio'n ſyth;
Ni chair o hon na braich na bron,
I ſlino Seion ſanctaidd fyth.

4 Mae'r garreg hon o'r bryn ger bron,
Yn treiglo'n llon ar dirion dôn;
Mae'n llanw'n llawn bob dyn â'i dawn,
Trwy'r byd, â'th iawn wybodaeth Ion.

5 Mae'r pethau lleiaf at rai mwy
Yn arwain, trwy ganlyniad gref;
Gan benderfynu, â ſicr ſail
Yng Nhriſt, a'i ail ddyfodiad ef.

6 Ac yno daw i maes o law,
Yr hwn ſy'n addaw d'od ar frys;
Tyred Amen, i'th deyrnas wen,
Bydd byth yn ben i'th lu a'th lys.

7 Fe ſydd teyrnaſoedd byd yn rhwydd,
Yn eiddo'n Harglwydd ni a'i ſaint;
Teyrnaſa byth yn gadarn Ior,
O fôr i fôr yn fawr ei fraint.

HYMN XIV.

Llwyddiant Gras.

1 MAE ffynnon gras yn dechreu'n wan,
Er hynny yn anorchfygol;
Yn cynhyddu 'n llynnoedd llon,
Nes myn'd yn afon nefol.

2 Nid dwfr *Bethesda*, nac un dw'r,
All wella gwr gwahanol;
Mae 'th iechydwriaeth, enaid gwel
Trwy waith yr angel nefol.

3 Boed Yſpryd Duw i'n llenwi 'n llawn,
O bob rhyw ddawn dymunol;
I garu ein gilydd yn ddiſrad,
A'n bryd ar gariad brawdol.

HYMN XV.

Dymuniad am gael Preſennoldeb DUW mewn Addoliad cyhoeddus.

1 O FRENHIN Seion dere i'n plith,
A dyro 'th fendith dirion;
I ireiddio yn ol ein chwant,
Eneidiau 'th blant ſydd ſychion.

2 Par i ni weled draw o'n blaen,
Yr hyfryd *Ganaan* nefol;
Gad i ni gael peth prawf o wir
Ber ffrwythau'r tir dymunol.

3 O ein hanwylyd hyfryd hardd,
Tyred i'th ardd a'th winllan;
A bwyta'r ffrwythau gyd â ni,
A blennaiſt di dy bunun.

4 Mor hoff a hyfryd yw dy nawdd,
Mae'th waith yn hawdd i'r yſpryd;
Mae'th ffrwyth i'n genau fel y gwin,
Neu'r mêl i'r min bob munud.

HYMN XVI.

Bod SUWPER yr ARGLWYDD er cofio Cariad DUW.

1 MAE'r drefn hon o'r ordinhâd,
Er cof o'r cariad mwyaf;
Dyfnder doethineb yw golud Duw,
I ddynol-ryw truanaf.

2 Brenhin y ſaint ger bron y ſydd
I olwg ffydd y duwiol;
Yn cael ei offrwm ar y gro's
Yn Aberth dros ei bobol.

3 Yr Aberth hwn ſy'n gwneuthur iawn
I Dduw, a llawn foddlonrwydd;
Dros bawb a ddeuant at y Tad,
Trwy ffydd yngwa'd eu Harglwydd.

4 Y ſawl a brynwyd â'r fath werth,
Rho'ent eu holl nerth a'u bywyd;
I ogoneddu Duw 'n ddibaid,
A'u cyrph a'u henaid hefyd.

HYMN XVII.

Nad yw Ordinhadau oddi allan yn lleſhâu heb wirtonedd Gras oddi mewn.

1 PA wedd gall dynion gyrraedd dawn,
I fwyta'n llawn ddigonol
O gnawd a gwaed yr Arglwydd Dduw,
Fel y b'ont byw 'n dragywyddol.

2 Nid bod dan ordinhadau da
Mewn enw, wna'n ddigonol;
Nac ymddangoſiad têg tu fa's,
Heb fwynhau gras tu fewnol.

3 Nid bara gwin mewn gwedd i'n gŵydd,
Wrth fwrdd yr Arglwydd nefol;
Ond bara'r bywyd Criſt a'i wa'd,
Sy 'n rhoi boddhâd i'r duwiol.

4 Mae 'n rhaid i ddyn mewn rhyw fodd rhad,
Gael cyfnewidiad graſol;
A'i eni o Dduw i fyw yn dda,
Cyn bwyta'r bara bywiol.

5 Yr undeb nefol rheidiol yw,
Trwy gariad Duw tragywyddol;
A ſel yr Yſpryd ſy'n rhoi i ni,
Gymmundeb diwahanol.

6 Nid er difreintio, na gwanhad
Un ordinhad ſanctaiddiol;
Ond ceiſio arwain trwyddynt hwy,
At bethau mwy ſylweddol.

HYMN XVIII.

Bod y rhai ſydd yng NGHRISTYN derbyn Rhinwedd oddi wrth ef.

1 MAE'r holl ganghennau blannodd Duw
Yng Nghriſt, i fyw'n dragywyddol;
Yn derbyn nof oddi wrth y Pren,
Y wir Winwydden nefol.

2 Er bod yn wyllt, hwy ddont yn ddof,
Trwy rinwedd nof yſprydol;
O'r un nattur bawb ynghyd,
A Phren y Bywyd bywiol.

3 Mae'r

3 Mae'r bwyd naturiol yn rhy wan
I borthi'r rhan anfarol;
Y dyfroedd bywiol ſy'n rhoi maeth
O win a llaeth yſprydol.

4 Mae'r nattur newydd hyn yn awr,
Mewn hiraeth mawr gwaſtadol
Am gyrchu beunydd at y nod,
Lle cas ei bod dechreuol.

HYMN XIX.

Bod hiraeth yn y Duwiol am Gyflawniad o Addewidion DUW.

1 MAE Yſpryd Duw o fewn ei blant,
Yn gweithio chwant ac awydd,
Am gael cyflawniad gan Dduw Ion,
O'i addewidion beunydd.

2 Mae'r holl brophwydi'n rhoddi lawr
Eu bod, yn fawr eu hiraeth,
Am yr addewid hyfryd hon,
O dirion iechydwriaeth.

3 Yr y'm ni'n cael anrhydedd mwy,
A gweled trwy drugaredd,
Yr Oen diniwaid wedi ei ladd,
Mewn iſel radd yn gorwedd.

4 Er iddo roddi dros ei wyn,
Ei enaid mwyn i'r lladdfa;
Duw'r Tad a'i traderchafodd ef,
Mae yn y nef yn benna'.

5 Ni gawn ar fyrr ei weled ef,
Yn Frenhin nef a daear;
Ac yn teyrnaſu ym mhlith ei blant,
Mewn mawr ogoniant hawddgar.

6 Yn dyfod gyd â myrdd o ſaint,
Mewn uchel fraint a mawredd,
A'r holl angylion gyd ag ef,
Mewn llawen lef gorfoledd.

7 Nid rhyfedd fod ei anwyl blant,
Mor fawr eu chwant am wybod,
Pa bryd y cant fath nefol wyl,
I gwrdd â'u hanwyl Briod.

HYMN XX.

Cymmwys i'w chanu ar ol y Cymmun ſanctaidd.

1 GWELWN ein braint mor hyfryd yw,
I'r rhai trwy Dduw a alwyd,
I ſwpper fawr y Bugail mwyn,
'Rhwn dros ei wyn a laddwyd.

2 Dyma ein gwir Oen paſg di-ddig,
A'n Llo paſgedig gwirion,
A laddwyd gan Dduw wrth ei chwant,
I wledda plant afradlon.

3 Hwn yw'n Perl nefol o fawr werth,
A'n Hoffrwm prydferth tirion;
Ein Hallor aur, a'n Haberth yw,
Cymmodwr Duw a dynion.

4 Er iddo roddi trwy drom lo's,
Ei einioes dros ei bobol;
Y mae'r gwir *Joſeph* etto 'n fyw,
A digon yw i'r duwiol.

ARALL.

1 O Deuwn at yr ordinhad,
Trwy ffydd yng ngwa'd yr Ieſu,
Sydd wir Iachawdwr pur difai,
I bawb o'r rhai ſy'n credu.

2 Mae'n porthi rhai'n â gwin a llaeth,
Rhydd iddynt faeth yſprydol;
Gwledd a appwyntiodd Duw ei hun,
Blaen-ffrwyth o'r un dragywyddol.

3 O! am wir ffydd a chariad maith,
I weled gwaith yr Ieſu,
Ar y pren, a'i freichiau ar led,
A'r dyled gwedi ei dalu.

4 Am gariad Duw yng Nghriſt mor rhad,
Rho'wn glod difrad o'r galon;
I'r hwn a ro'es ei fwerthfawr wa'd,
Fe wnaeth y Tad yn foddlon.

HYMN XXI.

Am Alwedigaeth yr IUDDEWON.

1 MAE addewidion Duw yn ei air,
Fel cadwyn aur yn tyſtio;
Y daw holl *Iſrael* cyn b'o hir,
I'w gwlad a'u tir i dario.

2 *Iſrael* a *Juda* ddont yn rhwydd,
I geiſio'r Arglwydd tirion;
Dan wylo a gofyn i bob *ffrynd*,
Y ffordd i fyn'd tu a Scion.

3 Tu ag yno bydd eu hwyneb hwynt,
Center a phwynt eu hymdaith;

Palmenta,

Palmenta O Dduw, eu ffyrdd yn frau,
Tynn ammal rwyſtrau ymaith.

4 O na b'ai deuant wedi d'od,
Er hyfryd glod i'r gwledydd;
A theyrnas Criſt ym mhlith y Saint,
Mewn uchel fraint tragywydd.

5 Diddanwch enaid yw e'n awr,
Yr Arglwydd mawr ragddarbod;
Goleuo dynion gwael, a'u dwyn
O fewn ei fwyn gyfammod.

6 Cyfammod Duw yng Nghriſt ſ'r byw'
Heb derfyn yw na darfod;
Glynwn wrth hwn tra ynnom chwyth,
Ni newid byth o'r ammod.

HYMN XXII.

Perthynas CRIST a'i Eglwys.

1 AGOS berthynas ſydd yn bod
Rhwng Criſt a'i briod hygar;
Fel gwr a gwraig, fel tad a phlant,
O'r un gogoniant hawddgar.

2 O Gariad! uwchlaw Carind neb,
Ffynnon doethineb nefol,
Yn cael ei hagoryd yn ein dydd,
A'i ffrydiau ſydd rinweddol.

3 Duw'n rhoi ei Fab yn rhad i'n rhan,
Er maint ein hanedlyngdod;
Yn Frawd oedd fawr, yn Dad ſy' fwy,
A Phriod trwy gyfammod.

4 Adnabod Duw yn Ieſu Griſt,
Wna enaid triſt yn firiol;

A'n

A'n hundeb nefol di-wahân,
Trwy'r Yſpryd Glân ſancteiddiol.

5 Adnabod Criſt mewn undeb clos,
A hwnnw 'n gro'ſhoeliedig;
Yn Frawd, yn Briod, ac yn Ben,
A'n Ceidwad bendigedig.

6 Agos berthynas addas yw
Ein bod i Dduw yn feibion;
Yn frodyr Criſt yn hyn o fyd,
A themlau 'r Yſpryd graſlon.

7 Rho'wn i rad-ras y clod i gyd,
Trwy 'n bywyd diwyd dnwiol;
I'r Tad, a'r Mab, mewn nefol gân,
A'r Yſpryd Glân ſancteiddiol.

HYMN XXIII.

Ar PSALM LXXXIV. *a'r* ADNOD 1.

1 GWYNFYD preſwylwyr tŷ ein Duw,
Mor ddedwydd yw'r trigolion,
Sy 'n dal athrawiaeth Criſt ar g'oedd,
Yng nghymmanfaoedd Seion.

2 Mae yma noddfa i'w ei chael,
I'r enaid gwael trwm galon;
Gwir ddyfroedd byw ſy'n dyfwrhâu,
Trwy yfed ffrydiau 'r afon.

3 Mae'n gyſgod o *Gaerſalem* fry,
Mae ynthi lu o Angylion;
Dinas Duw a'i phlant yn rhydd,
Mor hoff yw mynydd Seion.

O Am

4 O am gaffael bod o rif!
Yr enwog brif drigolion;
Mewn lle mor llawn, mor dda i ddyn,
Ni chollir un o'i mheibion.

HYMN XXIV.

Annogaeth i ganu Mawl.

1 O Canwn fawl i'n Harglwydd Iôn,
I Dduw, a'r Oen, cyd-ganwn;
I Brynwr dyn a'n Brenhin da,
Mewn mwyn Hosanna seiniwn.

2 Boed i'n calonnau ganu clod,
O'n genau do'd gogoniant,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân,
Wiw felus gân o foliant.

3 I'r hwn a'n carodd ni yn rhad,
Ae yn ei wa'd a'n golchodd,
Oddi wrth ein beiau oll i bant,
Boed mawl a moliant miloedd.

4 Pan byddo 'r Brenhin wrth y bwrdd,
Yn dweud er cynnwrdd calon,
Bwytewch gyfeillion yn ddibrin,
Ac yfwch win hyd ddigon.

5 Fel yr y'm yma yn ymdrin,
A'r bara gwin naturiol;
Rho'ed Yspryd Crist i'n henaid gwan,
Win newydd *Canaan* nefol.

HYMN

HYMN XXV.

Ar FEDYDD.

1 YR Ieſu anwyl Mab y Tad,
I'r ordinhâd a weddodd;
Gan addo'i gymmorth ar bob pryd,
Hyd ddiwedd byd i'w luo'dd.

2 A'r Yſpryd Glân a ddaeth o'r nen,
Yn rhith colommen arno
I ſicrhau, mai hwn oedd wir
Oen Duw, a'r cywir Silo.

3 A llef o'r nef yn dweud ar g'oedd,
Wrth bawb ac oedd o'i bobol
Hwn yw fy Mab, gwrandewch e'n rhwydd,
Mi ges foddlonrwydd hollol.

4 Pa ordinhad fel hyn a gâd,
Mewn harddwch urddiad nefol?
Y Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd Glân,
Mewn bod o fla'n y bobol.

HYMN XXVI.

Ar Swpper yr ARGLWYDD.

1 MAE'r ordinhâd o hir barhâd,
Er coſio'r cariad mwyaf;
O enau'n Priod difyr dôf,
Gwnewch hyn er côf am danaf.

2 Mae bara gwin yn bur i'n gwydd,
Wrth fwrdd ein Harglwydd nefol,
Yn iawn gyſgodau didwyll da,
O'r gwin a'r bara bywiol.

3 O's cawn ni ſylwedd ein mwynhâd,
Mewn ordinhâd o'r cyfryw;

Dywedwn mewn teimlad er ei glod,
Gwerth gwaed ein Priod ydyw.

4 Ein hawl yn addewidion Duw,
A'n cyſſur gwiw ſydd ynddynt;
A'n breintiau 'nawr, ac fyth i fod,
Gwerth gwaed ein Priod ydynt.

5 'Roedd rhaid i'n Priod yr un ffaig,
(Fel gwr rhyw wraig ddyledog)
Atteb a thalu 'r dyled triſt,
Dros hon f'ath Criſt yn euog.

6 Bu fyw yn gyfiawn ym mhob rhan,
Iawn am ein han-ufudd-dod;
Rhaid iddo farw, marw a wnaeth,
Dug goſpedigaeth pechod.

7 O Brynwr dynion! ger bron Duw
Ein Priod yw, a'n Brenhin;
Gwelir ei blant yn wiw lân blaid,
O ddeiliaid yn ei ddilyn.

HYMN XXVII.

CRIST yn rhagori ar bob Peth.

1 PWY gyfeillion a'n boddhâ?
Pwy 'r y'm ni fwya'n garu?
Ni bu, nid oes, byth ni all fod
Dim fath ein Priod Ieſu.

2 Mae'n Gyfaill hael, hawdd iawn ei gael,
I'r enaid gwael a'i ceiſio;
Yn glynu wrthym o'r un cnawd,
Yn well na brawd, gwnaed allo.

3 Mae'r glynu yma'n dala i ma's,
Yr undeb gras ſydd rhyngddynt;
Rhai a gyſſylltodd Duw'n ei bryd,
Un Cnawd, un Yſpryd ydynt.

4 Pwy

4 Pwy ddeuai i blith afradlon blant,
O'i fawr ogoniant nefol?
Tywyſog iechydwriaeth dyn,
Yn waelaf un o'r bobol.

5 Gogoniant nef, hyfrydwch Duw,
Rhan holl blant Duw, a'u Ceidwad
Yn cael ei farnu i farw ar gam,
A'i guro am ei gariad.

6 Pwy bynnag ſydd yn caru'r Ion,
Uwchlaw cyfeillion eraill,
Boed eu hymddiddan yn nhŷ eu mham,
Er cofio am eu Cyfaill.

7 Fel mai gwir yw, ſod cariad Duw
At ddynol-ryw yn rhyfedd;
Ceiſied pob dyn ei hawl ei hun
(Trwy'r gair) yr un trugaredd.

8 Mor hyfryd ar fynyddoedd Duw,
Traed rhai f'o Daw'n eu danfon
Sy'n efangylu, ac eglurhau
Daionus bethau i ddynion.

9 Rho wlith dy fendith nefol Dad,
Rho rinwedd rhad yſprydol,
I ddiwygio y f'o ar fai,
A chyſſur i rai iachuſol.

HYMN XXVIII.

Annogaeth i foliannu DUW am ei fawr Ddaioni tu ag at Blant Dynion.

1 O CANWN fawl i'r Arglwydd nef,
Rho'wn iddo ef ogoniant;
Canwn trwy ras, a'r Yſpryd Glan,
Wiw felus gân o foliant.

2 Canwn i'r Oen, tra f'om ni byw,
Mawr enw Duw molianwn;
Rho'wn fawr-glod doeth i'n Harglwydd da,
Mewn mwyn Hoſanna ſein'wn.

3 O am allu bod mewn allwedd bêr!
Yn uno â'r nifer nefol;
A'n mawl ar gân, fel nefol gôr,
Am gariad mor rhagorol.

4 Nyni'n cael gwledda gyd â'r Oen,
Ar bur ddanteithion nefol;
A chael ein porthi â bara Duw,
Fel y b'om byw 'n drag'wyddol.

5 Nertha dy blant trwy'r ymborth hyn,
I deithio 'n dynn hyd *Horeb*;
I wledda gyd â'n Harglwydd da,
Dros fyth yn nhrag'wyddoldeb.

6 Boed i ni heddwch gyd â'r Tad,
Trwy rinwedd gwa'd yr Ieſu;
A'n pardwn gwedi ei ſelio fry,
A'n dyled gwedi ei dalu.

CAN I.

1 DEFFRO Seion yn ddi-ddig,
Ti ferch Pendefig uchod,
Nid gweddus ſod Priodas-ferch
Mor fach ei ſerch i'w Phriod;
Deffro bellach, gwiſg yn harddach,
Mewn rhyw gariad mwy rhagorach;
Mae'n bryd dattod gwiſgoedd gwedd-dod,
Gan fod yn erfyn hardd gyfarfod;
Mewn gwiſg o aur a gemmau glân,
I fyn'd o flaen dy Briod:
Dydd priodas yr Oen addas,
Fydd mewn harddwch mawr ac urddas,
Bydd yn waſtod yn bur barod,
Gwilia 'n ddyfal nes ei ddyfod,

O Seion

O Seion ſanctaidd, ſelia'th ffydd
Yng Nghriſt, a'i rydd Gyſammod!

2 Dydd mawr Duw, wrth gyfrif gawn,
Yn agos iawn ar ddyfod;
Diſgwyliwn am yr amſer hwn,
Bob boreu byddwn barod;
Dydd ofnadwy, anrhaethadwy,
Dydd digofaint, tân lloſgadwy,
Dydd o ſyndod a dychryndod,
I wallgofi gweiſion pechod;
Mae hyn o fyd, a'i fryd o'i fron,
Ar derfyn, bron a darfod:
Gwae gelynion, y Duw cyfion,
Gwae erlidwyr, treiſwyr, trawſion,
Cain a *Nimrod*, *Saul* a *Herod*,
A'u holl frodyr di-gydwybod;
Mae hyn o fyd, a'i fryd o'i fron,
Ar derfyn, bron a darfod.

3 Peth rhyfedd iawn fod neb o'r ſaint
Sy'n byw, dan gymmaint drallod,
Mor fach eu ſon, mor wan eu ffydd,
Am wel'd eu dydd gollyngdod;
Pan ddel Ieſu, i'w ryfeddu,
Yn ei ſaint, a'r rhai ſy'n credu;
A'i breſwylfod, gyd â'i Briod,
Yng nghadair *Dafydd*, gwedi dyfod,
Ein cyfiawnder, llawnder, llwydd,
A'n hunig Arglwydd eur-glod:
O'r hyfrydwch, a'r tawelwch,
Fydd gwel'd y Brenhin yn ei degwch!
Ni all tafod, na myfyrdod,
Byth amgyffred gweled gwaclod
Y dedwyddwch ſydd i'r ſaint,
A'u huchel fraint oddi uchod.

4 Mae'n gwiliedyddion llon ſy'n llawn
O ddyſg a dawn 'rwy'n dannod;
Heb byth fyneĝi beth o'r nos,
Na'r dydd yn agos dyfod;

Pawb heb fynnu'n iawn ddiddanu,
Naill y llall ni alla' i gelu,
Heb adnabod fod diwarnod
Gan yr Arglwydd, gwedi ofod,
I adferu yr holl fyd hyn,
I'w harddwch cyn d'od pechod:
Mae'r morwynion, fach a mawrion,
Wrth hir dramwy'n myn'd yn drymion; 7
Yn ddiddarbod am ei Priod,
Heb fawr erfyn ei gyfarfod;
Mae hyn o fyd, a'i fryd o'i fron,
Ar derfyn bron a darfod.

5 Ni welfom uwch ein pennau'n gwau,
Fawr ryfeddodau'r Drindod,
Fel gwaed a thân, a ch'lofnau mŵg,
'Roedd hyn yn olwg hynod;
'Roedd e'n arwydd, y gwna'r Arglwydd
Bethau rhyfedd iawn yn ebrwydd;
Ni gawn ganfod etto'n dyfod,
Bethau fyddo'n fwy rhyfeddod;
Mae hyn o fyd, a'i fryd o'i fron,
Ar derfyn, bron a darfod:
Mae *Gog* a *Magog*, yn llawn lludiog,
Yn erbyn lluoedd Duw galluog, 8
Gwedi ymofod yn bur barod,
Ar eu gyrfa, er eu gorfod;
Mae hyn o fyd, a'i fryd o'i fron,
Ar derfyn, bron a darfod.

6 Ewyllys a gorchymmyn Duw
I'w bobol, yw adnabod
Y rhagor-freintiau iddynt fydd,
Pan ddelo eu dydd gollyngdod;
Llawenychwch, gorfoleddwch,
Ac na ro'wch i Dduw lonyddwch
Hyd nes canfod, eich gwir Briod,
Yng *Ngbaerfalem* ei breſwylfod,
A ſelio hon yn gadarn gaer,
Yn foliant daear ifod;

O mor

O mor hawddgar, bydd y ddaear!
Fel gardd *Eden* i'r gwir adar,
Pan b'o pechod, ac anghydfod,
A phob terfysg gwedi darfod;
O Seion ſanctaidd! b'le mae'th ffydd?
Gwel fod y dydd ar ddyfod.

7 Y mae'r wybodaeth hyn yn awr,
I mi'n rhy fawr ryfeddod;
Rhy uchel yw i fychan ddawn,
Ni fedrai'n iawn ei gwybod;
Y mae fel ffynnon, i blant Seion,
Yn cynnyddu'n nefol afon;
I lân ddattod effaith pechod,
Oddi ar yr enaid, a'r gyd-wybod,
Ac yn rhoddi llawn ryddhâd,
Trwy rinwedd gwa'd y cymmod:
Sel yr Yſpryd ſanctaidd, hyfryd,
Sy'n ernes o'r tragywyddol fywyd
I blant ufudd-dod, i'w gyfammod,
Fo'n byw i'r Arglwydd, er ei fawr-glod,
Mae'n arwydd nefol, ſiriol ſwrth,
Fel perl oddi wrth eu Priod.

8 O beth a wna holl ddynol-ryw!
Sy'n caru byw mewn pechod?
Nid oes i'r rhei'ny yno ran,
Tra f'ont mewn anufudd-dod;
Hwy gant ſymmu, y pryd hynny,
A lliw egwan yn llewygu,
Gan fawr ſyndod, a dychryndod,
Tan euogrwydd toſt eu pechod;
Heb obaith am drugaredd mwy,
Am iddynt hwy ei wrthod:
O dychwelwch! adnabyddwch
Y peth a berthyn i'ch hir heddwch;
Mae'ch preſwylfod etto heb ddattod,
O dir gobaith ceiſiwch wybod;
Ni wyddoſt beth y foru fydd,
Fe all dy ddydd di ddarfod.

9 Mi

9 Mi geiſiaf roi rhyw hanes ferr,
Dros F' arglwydd, er ei fawr-glod;
I gyſſuro 'r enaid gwan,
Sy 'n gwel'd ei anheilyngdod;
Paid ac ofni, mae e'n rhâd roddi
O 'wyllys da ei deyrnas i chwi;
Nid teilyngdod neb wy 'n 'nabod
Ond Ieſu Griſt, ein Pen a'n Priod,
A ddyry i ni hawl i'r wlad,
Trwy rinwedd gwa'd y Cymmod:
Mae'r Tad a'i ofal, yn gwbwl abal,
Am gwnnu 'r gwanna, gan ei gynnal,
A'i freichiau 'n barod; i'w cyfarfod,
A'i lygaid yw cyfrwyddo 'n waſtod;
Fe roddwyd bywyd yn ein gwaed,
Fe geidw 'n traed rhag pechod.

10 O braidd bychain Ieſu Griſt!
Na fydd yn athriſt ormod;
Mae Bugail mawr y praidd mewn bri,
I'th achub di yn waſtod;
Mae'n trin hanes gwan yn gynnes,
Gan ddwyn ei ŵyn, yn ſwyn i'w ſynwes;
Ni all llewod, uſſern iſod,
Ar eu gyrfa byth ei gorfod;
O Seion ſanctaidd! b'le mae'th ffydd?
Gwel fod y dydd ar ddyfod:
Hwy gant fywyd, didrangc hyfryd,
Byth heb gofio beth yw gofid,
Gyd â'u Priod, mewn preſwylfod,
Lle ni ddaw ſatan byth, na phechod;
O Seion ſanctaidd! b'le mae'th ffydd?
Gwel fod y dydd ar ddyfod.

11 Rhybuddion nefol ſiriol ſy'
Yn gyſon gwedi ei goſod;
Yn ein cymmell ni yn fawr,
I fod bob awr yn barod:
Hwy gant fywyd, mewn llawen-fyd,
Bawb a wiliant am 'u Hanwylyd;

Ni

Ni all tafod, ddywedyd gormod,
Am eu braint, a'u bri, a'u mhawr-glod;
O Seion ſanctaidd! bydd bob cam,
Yn gwilio am dy Briod:
Fy ffryns anwyl, 'rwyf fi'n diſgwyl
Cael un arch yn hyn o orchwyl;
I ddynion hynod, etto ddattod,
Y dirgelwch hyn, i'r gwaelod,
I barattoi (o'r rhai ſy'n ol)
I'r Arglwydd bobol barod.

12 O's gofynnir gwedi'r gwaith,
Pwy wnae'r amherffaith [illegible] draithod;
Un ſy'n ſugno gwîn a llaeth,
O fronnau'r faeth ſyfyrdod;
Ac yn chwennych i bawb edrych
Holl air Duw, ſydd werthfawr wrthwych;
A rhoi uſudd-dod, iddo'n waſtod,
Yn ol goleuni glân gyd-wybod,
Heb binno'u ffydd wrth lewys neb
Wynebau heb ei 'nabod:
Bywyd duwiol, gyd â'i bobol,
Dan ordinhadau angenrheidiol;
Hyn ſydd hynod nod i 'nabod,
Praidd yr Oen oddiwrth lwynogod;
A deiſyf cael trugaredd rad,
Ar gyfrif gwa'd y Cymmod.

CAN II.

1 DOS union lân annerch, at fwyn Briodas-ferch,
ſydd â'i llinyn yn llannerch brynn Seion;
A dywed yn dawel, nad wyf gwedi gadael,
Na meddwl ymadael â'r moddion.

2 Daeth pryf cryf o grafangc, na 'dawai im' ddiangc,
'Doedd arnaf yn ieuangc 'm o'i ofon
I'm maeddu i fwy-fwy, a'i lid yn deimladwy;
Gwnaeth ddwy troed i dramwy'n rhy drymion.

Mae

3 Mae gennyf fi Fibyl, a'r fwynaidd Efengyl,
Gwaith cynnar, gwyr cynnil, a ffyddlon ;
'Rwy'n attal hyd etto, heb gennyf le i gwyno,
Im' gael fy nifyddio o foddion.

4 Er bloeddio o'r bleiddiaid, addewid Duw ddywaid
Na ddifan' o'i ddefaid fydd ddofion ;
Fe geidw bob oenyn, ac enw o honyn',
Ni ffaela fod iddyn' yn ffyddlon.

5 Mae'r gair yn mynegi, a'n prawf yn hyfpyfu,
Fod yr Arglwydd yn caru pyrth Seion ;
Yn fwy na holl breftwyl yn anedd rai anwyl,
I ddyfgu i ni ddifgwyl wrth foddion.

6 'Rwy'n cofio'r tawelwch, a'r urddas, a'r harddwch,
Trwy ddoniau diddanwch ei weifion ;
A'r dw'r ar ein dau rydd o wiw-lân lawenydd,
Trwy ddawn y diddanydd fanctteiddlon.

7 Dyma'r lle dedwydd, y ganed ar gynnydd,
Ddiniwed Ddyn newydd i'n calon ;
Lle cafas fwyn driniaeth, trwy'r gair a'i fagwriaeth,
Fel plentyn bach mammaeth gariad-lon.

8 Y llynn o ddwfr llonna', bath-ddyfg-deg *Bethefda*,
Llawn rhinwedd i wella'r holl gleifion ;
Pan ddelo'r gwir angel trwy'r Yfpryd goruchel,
Yn fuddiol i arddel ei foddion.

9 Mae gras Duw'n ei bobol, fel ffrydiau hoff hadol
Yn rhoi i'w blant nefol yn weinion ;
Pan gyd-gyfarfyddant, mewn melus gân moliant,
Ei ffrydiau a lifant fel afon.

10 Mae'm llais yn 'wyllyfgar, fel *Caerfalem* hawddgar
Yn foliant holl ddaear drigolion ;
archaf i'r ddinas, hedd, harddwch, ac urddas,
O lwyddiant heb luddias gelynion!

11 Mae Eglwys Duw'n gyfgod, o'r ddinas fy'n dyfod,
Y *Gaerfalem* uchod fanctteidd-lon ;
Ein mam oll o'r cynfaeth, a hon ein gwir fammaeth,
A'r cyfan yn arfaeth Duw cyfion.

Bai 'n

12 Bai'n heglwys yn eglur, yw bod fel y byd-wyr,
A'n iaith yn ddieithr i'r moddion;
Iaith dau-bâr o bobol, ſydd yn gyffredinol,
Yn heidio fel hudol yn Seion.

13 Ond gwell o hyn allan, trwy ddiddig ymddiddan,
Yng wir-iaith gwlad *Canaan* a'i mheibion;
Ail-adrodd pregethau, a geiriau 'r gwyr goreu,
Prif odiaeth profidau 'r duwiolion.

14 Mae'n llawen gwel'd lluoedd, o bób llwyth ac ieithoedd,
Yn d'od yn finteioedd, o ddynion;
A'u cymmell i ddyfod, i mewn fel c'lomennod,
Er llanw, mae 'n llawn oed pyrth Seion.

15 Gan hynny'm ffryns anwyl, gwnewch i chwi'n brif orchwyl,
O bryſiwch i breſwyl yn Seion!
Can's yno mae 'r fendith, a'r mân-wlaw, a'r mwyn-wlith,
Er gwynnu 'n can-gwenith yn ffrwythlon.

16 Mae'n Duw ni mor dyner, o'i fendith a'i fwynder,
Rhy rawn-ſwppiau i'n ſwpper hyd ddigon;
O hoff ffrwythau hyfryd pren bywiol y bywyd,
A hyfed dwfr hefyd o'r afon.

17 Pwy'n ddiwyd na ddeuai, a gadael y gybiau,
I gael y fath ſeigiau ddanteithion?
Dan faner mor fwynaidd, i blith ſeintiau ſanctaidd,
O wiw ddoeth lân weddaidd wyddoroin.

18 Na âd ni mewn nychdod, o bennau babanod,
I ammau'th gyfammod ſydd ffyddlon;
Ond dirnad y deyrnas, a roddaiſt o'th rydd-râs,
A byw yn wir addas i'n rhoddion.

19 Duw 'r Tad yn arfaethol, trwy 'r Ieſu dewiſol,
Mewn amſer priodol a chyſon;
Orphenodd yn helaeth, ein holl iechydwriaeth,
Trwy ddioddef marwolaeth dros ddynion.

20 Mae'n

20 Mae 'n anfon llythyrau, mwyn gariad, mewn geiriau
Gwirionedd, o'i enau ſanctteiddlon;
Fu hatteb mae etto ein Cyfaill yn coſio,
Nid yw e'n anghofio ei bromeiſion.

21 A'r trydydd lân Berſon ſy'n goſod yn gyſon,
Y meddyg a'r moddion ſanctteiddlon
O flaen pechaduriaid, er dyfod o'r defaid,
Dan Fugail bendigaid praidd Seion.

22 Fe ymlid yn amlwg, y cynddraig er cynddrwg,
I gilio o'n golwg i'r eigion;
A'r ſwn yn breſennol, fod Duw yn berſonol,
A'i babell 'myſg pobol o ddynion.

23 Boed arnom wir hiraeth, am wiw-lân farwolaeth,
A newydd gwmp'niaeth nefolion;
Trwy chwennych cael diangc, i'r wlad ddedwydd ddidrangc,
I fyw yn wych ieuangc, wrth ofon.

24 O's caer yn fy ngharol, dim anwyl dymunol,
Rho'r clod i Dduw nefol o'th galon;
O's hêb ran o rinwedd, mae bai garw'n gorwedd,
Ar un o ni 'n dau-wedd yn gyfion.

Gair o-Hanes yr Awdwr, o'i Oedran a'i Broſiad.

YN awr-'rwy'n gorphen hyn o waith,
Ac yn diweddi'r dydd a'r daith;
Ces fod yn byw mewn byd yn faith,
Dros ddeuddeg ſaith mlwydd gyſon,
A chwech yn 'chwaneg ar eu rhiſ,
Medd rhai o'm prif gyſoedion;
Trwy nerth fy Nuw, a'i wyrthiau i nydd,
Ces gadw'r ffydd yn ffyddlon.

DIWEDD.

HYMN I.

Rhyfeddod y Pechadur.

1 O'S gwelir ſi bechadur,
Ryw ddydd ar ben ſy nhaith,
Rhyfeddol fydd y canu,
A newydd fydd y iaith;
Yn ſeinio buddugoliaeth,
Am iechydwriaeth lawn,
Heb ofni 'colli'r frwydyr,
Na'r boreu na phrydnhawn.

2 O's caiff y fath bechadur,
Sydd ffiaidd, aflan, noeth,
O flaen dy orſedd ſefyll,
Pan byddo'r byd yn boeth;
Pryd hynny dof i 'nabod,
Beth yw'r cyfammod rhâd,
Pan welwy'r Ieſu 'n pledio
O'm plaid i, werth ei waed.

3 A'r dyled wedi dalu,
A'r orſedd-faingc yn rhydd,
A'r Ieſu arna' i 'n gwenu,
Gwyn fyd a welai'r dydd;
A'r holl elynion obry,
Yn berwi yn y llynn,
A'm henaid bach yn noſio,
Yn hedd *Calfaria* frynn.

HYMN II.

Addewid o Rydd-did i Garcharorion.

1 FE dderfydd pob gofidiau maith,
Fe dderfydd gwaith rhyfela;
Daw dydd i'r ſaint i gwrdd ynghyd,
I ganu eu gyd Hoſanna.

2 Daw dydd gorchfygir pechod cas,
Ceir gweled gras yn Frenhin;
Daw dydd i rwymo'r ddraig heb fraw,
Daw'r llew yn llaw y plentyn.

3 Mae gennym addewidion braf,
Ceir etto haf nefolaidd;
Daw gwraig yr Oen i gario'r ma's,
Ar bechod cas a llygraidd.

4 Daw haf i'r ſeintiau 'n ddi-gel,
Ddiſgleiria fel yr haul-wen;
Cant yfed gwin yng *Nghanaan* dir,
O ffrwyth y wir Winwydden.

5 Ar ol tymheſtloedd, gwynt a gwlaw,
Yn ſuan daw tawelwch;
Daw Seion wan ar fyrr o dro,
Yn gadarn o'r anialwch.

6 Ceir gweled hon a'i phwys i gyd,
Ar ei hanwylyd hawddgar;
Yn canu clod ag uchel lef,
I Frenhin nef a daear.

Clod ynnyd Duw im llenwi 'm llawn
Clod nhyw ddawn dymunol
I gyru ein cylydd yn ddiſpwd
Am bryd ar gariad brawdol

HYMN III.

Atteb y Patriarch Jacob i Pharao.

1 Y Chydig o ddrwg ydyw mlynyddoedd yn y byd,
Duw, dyro nerth i dreulio, er clod i'th enw i gyd,
Fel y gallwyf garu tyſtio, pan ddelo angau ddydd,
Ymdrechais hardd ymdrechiad, a chadwais lwybrau'r ffydd.

2 Ac hefyd yn lle gofid, caf goron ar fy mhen,
Pa niwaid wna'm mlinderau, 'nol myn'd i'r neſoedd wen?
Meluſach yw cael gweled fy Mhriod, a'i fwynhau,
Na phe buaſwn yma, a'm cyſtudd lawer llai.

3 Duw dyſg im' riſo nyddiau, a gwel'd mai gwag-edd y'nt,
Tro'm calon at ddoethineb y dynion ſanctaidd gynt;
Duw Abram bydd yn Gyfaill, yn Geidwad ar fy nhaith,
A chyfarwydda nghamrau, trwy'r holl anialwch maith.

HYMN IV.

O Waith Dr. STENNETT.

WELE'r fath fedd bu'n Prynwr mad,
Cyn iddo golli ei werthfawr wa'd;
Fel nodedd ef y ffordd i ni,
I fyned trwy'r dirgelaidd lu.

Haul y cyfiawnder fu o'r nef,
Er tecced ei oleuni ef;
Ei drochi'n y Iorddonen wna'd,
Gan blygu'r ſanctaidd ordinhad.

3 Iorddonen cafeſt fynych fri,
Pa anrhydedd fwy a fynni di;
Na'r Ieſu ddiſgyn lawr i'th lann,
A'i gladdu yn y dw'rllyd fann.

4 Dy ffrydiau bob tŷ cilient hwy
I'r ſanctaidd arch gael myned trwy;
Mantell y Prophwyd taro wnai
Dy ffrydiau, i'th ddyſgu i ufuddhau.

5 Gan Ioan trochwyd ynot ti,
A chladdwyd ein Iachawdwr ni;
A ſynnodd dim o'th ddyfroedd ? pan
Yr aeth i lawr, neu daeth i'r lan.

6 Bendigaid fedd lle'r Ieſu fu,
Ac a'i ſancteiddiodd ef i ni;
Ein beiau yno, cuddir hwy,
Na chodant yn dragywyddol mwy.

HYMN V.

(O Waith yr un AWDWR,)

Ar Adgyfodiad CRIST.

1 CORPH ſanctaidd pur ein Harglwydd ni,
Sy'n gwaedu ar y croeſ-bren;
Gorweddodd dridiau yn y bedd,
A chododd ef drachefen.

2 Calonnau ei ddiſgyblion trift,
Pan gododd Crift a lonwyd;
Clywſant ei lais, gwelſant ei brŷd,
A'u hofnau gyd waſgarwyd.

3 Wrth agor Yſgrythurau Duw,
Ein hyſpryd byw wreſogodd,
Ac arch i fyned trwy'r holl fyd,
Rho'dd fywyd i'n hyſprydo'dd.

4 Can

4 Canys fel hyn dywedodd ef,
Mewn daear a nef rho'w'd i mi
Awdurdod, pwy a'i gwad?
Oddi wrth fy Nhad, mae genny'.

5 Ewch at y bobloedd dyſgwch chwi,
A ddyſgais I i chwithau;
Yn enw'r Tri tragywyddol mwy,
Bedyddiwch hwy 'n ddiammau,

6 Dyſgwch beth bynnag arches i,
A chyd â chwi mi fydda;
I lwyddo'ch llafur ym mhob lle,
Tra daear a ne' yn para.

HYMN VI.

Gweddi am Nerth i ddilyn y Cwmmwl Tyſtion.

1 FEL Abram dyſg fi adel
Fy ngenedigaeth wlad,
Gan roi ffarwel dragywyddol
I dylwyth tŷ fy Nhad;
I ddilyn *Iſaac*, *Jacob*,
Cyd-etifeddion fry,
Fel oe'nt yn bererinion
Ar hyd y ddaear ddû.

2 Fel *Enoc* ac *Elias*,
Derchafwyd gynt i'r nef,
Yng Nghriſt y wiſg briodas,
'Doedd ganddynt neb ond ef;
Dyſg i ni droedio'u llwybrau,
Gan rodio gyd â Duw,
Nes dyfod i'r trigfannau,
Lle maent hwy 'nawr yn byw.

3 O's bydd perth'nasau 'n cefnu,
Fel rhyw eſtroniaid crin,
A'm gadael innau i nychu,
Dan ryw ddoluriau blin;

Gelynion a chyfeillion,
Pob un yn rhoi im' friw;
Gwna im' ddweud ymhob trallodion,
Mae Mhrynwr etto'n fyw.

HYMN VII.

Y Môr o Wydr.

1 AR fôr o wydyr teithio 'rwy',
Lle garw enbyd yw;
Lle ſoddodd myrdd, a llawer mwy,
A mi trwy ras yn fyw.

2 Llaw Duw a'm daliodd i i'r lan,
A mhen uwchlaw y dŵr;
Pan lawer gwaith, bu f' enaid gwan,
Ym mron a ſuddo'n ſ'ŵr.

3 Rho olwg ffydd im' wel'd trwy bwyll,
Ofnadwy dwyll y byd;
A chyfnewidiol ydyw'r dyn,
Ond Duw ſy'r un o hyd.

HYMN VIII.

Farwel weledig Bethau.

1 O Frodyr! ni gawn fyn'd yn rhydd,
Mae'r hyfryd ddydd gerllaw;
O 'hedwn mwy! fel adar mân,
I'r nefol drigfan draw.

2 Cawn yno wel'd ein hanwyl Frynd,
Sydd wedi myn'd ym mla'n;
Dilynwn ol ei draed yn ſiwr,
Er gwaetha' dw'r a thân.

3 Rho

3 Rho fanna o'r nef tr'om ar ein taith,
Ac hefyd ddw'r o'r graig;
Yr wyt yn perthyn in', O Dduw!
Tydi yw hâd y wraig.

HYMN IX.

Ar Heb. iv. 15.

Canys nid oes i ni Arch-offeiriad, heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni.

1 MYFYRIO'n llawen yr y'm am rad,
Ein Harch-offeiriad fry;
Ei galon o diriondeb gwnad,
Mae'n llawn o gariad cu.

2 Mae'n llawn o gyd-ymdeimlad llwyr,
Ein natur gŵyr heb feth;
Ein toſt demtiadau gŵyr ein Duw,
Can's profodd (clyw) 'r un peth.

3 Llefain a wylo wnaeth ein brawd,
Yn nyddiau ei gnawd di-lid;
'Nawr yn y nef gyd-deimla'i ran,
A'i ſeintiau gwan i gyd.

4 Y llin a'r mŵg ni ddiffydd e',
Ond gwna ſe fflammio fry;
Y gorſen wan ni wrthyd Nâf;
Na 'r enw ſalwaf ſy'.

5 Erfyniwn byth trwy ffydd, am borth
Ei ras, a'i gymmorth mawr;
Ein gwared wna eln hanwyl Ner,
Ym mhob cyfyngder mawr.

HYMN X.

Ymadawiad â phob Peth, er mwyn CRIST.

1 YN iach, i bawb o'r byd yn awr,
Mi âf ar ol fy Mhrynwr mawr;
Mae 'r Iesu 'n galw arnaf fi,
Rhaid i mi fyn'd a'ch gadael chwi.

2 Yn iach, fy holl gyfeillion glân,
Bum er eich mwyn bron myn'd i'r tan;
Ond clod i Dduw, fe'm galwodd i,
I ganlyn Crist, a'ch gadael chwi.

3 Yn iach, rai llawen y byd hwn,
Gelynion i'ch i Dduw mi wn:
Dewisodd ef fy enaid i,
Trwy gariad rhad, i'ch gadael chwi.

4 Yn iach, chwi holl blesera'r cnawd,
Mi af ar ol fy anwyl Frawd;
Yn iach, ddigrifwch y byd ffol,
Af gyd â Christ, cewch drigo'n ol.

5 Yn iach, chwi ieuengctid glân o bryd,
Sy'n gwrthod Crist er mwyn y byd;
Truenus iawn i'm golwg i
Wrth gyfraith Duw yw'ch cyflwr chwi.

6 Mi dybiais innau ar ryw bryd,
Mai gyd â chwi cawn hela 'myd;
Ond clod i Dduw, nid felly bu,
Daeth Crist i'm hol o'ch cwmp'ni chwi.

Yr Ail RAN.

1 YN iach, bob rhai sy'n plesio'r cnawd,
Annedwydd i'w 'ch heneidiau tlawd;
Duw 'goro eich llygaid chwi i gyd,
I weled eisiau Crist mewn pryd.

2 Yn iach, i bawb ſydd yma 'n byw
Yn chwantau'r cnawd, gwir elyn Duw;
Ni ſafaf mwyach yn eich plith,
Canlynaf Griſt tra ynnof chwyth.

3 Mawr foliant f'o i'r Drindod byth,
A'm galwodd i, i maes o'ch plith;
O'i gariad rhad ſe ddaeth i'm hol,
Toſturied Duw wrth bawb ſy 'n ol.

4 Duw roddo i mi ras a grym,
I fod yn ffyddlon iddo er dim;
Nes gado 'r Babell hon ar ol,
A myn'd yn gymmwys i'w go'l.

HYMN XI.

Llef Pechadur am Gymmorth.

1 TYRED Ieſu i'r anialwch,
At bechadur gwael ei lun;
Ganwaith dryſodd mewn rhyw rwydau,
Rhwydau weithiodd ef ei hun:
Lloſg fieri ſydd o'm cwmpas,
Rho fi ſefyll ar fy nhra'd;
Moes dy law, ac arwain troſodd
F' enaid gwan, i dir ei wlad.

2 Manna nefol ſy' arnaf eiſiau,
Dw'r rhedegog, gloyw byw;
Sydd yn tarddu o tan riniog
Teml ſanctaidd tŷ fy Nuw:
Golchi 'r aflan, canu 'r Ethiop,
Gwneud yr euog brwnt yn lân;
Ti gai 'r clod ryw fyrdd o oeſoedd,
Yn ol i'r ddaear fyn'd yn dân.

3 Fyth ni all'ſai 'm dyledſwyddau,
Fyth ni all'ſai ffrwyth y bru;
Mil o nentydd maith o olew,
Foddio dim o honot ti:

Deng

Deng mil hyfryd o feheryn,
Neu ynteu 'r peraroglau mân;
Nac un dim o dan y nefoedd,
Allai olchi 'r brwnt yn lân.

4 Ar dy allu 'rwy 'n ymddiried,
Mi anturia, doed a ddel;
Dreiddio trwy 'r afonydd dyfnion,
Mae dy eiriau oll dan fel;
Fyth ni fetha gredo ynot,
Ni fafodd un erioed yn ol;
Mi âf ym mlaen, doed y ddelo,
Graig a thylau ar dy ol. *W. W.*

HYMN XII. *Ar* JOEL ii. 28.

Diſgwyliad am Addewidion DUW yn dyfod i Ben.

1 FE welir ryw ddyddiau,
Fy Arglwydd a'i gŵyr,
Pan darddo goleuni
Yng nghyfgod yr hwyr;
Pan ddelo 'r Gorllewin,
Y Dwyrain a'r De',
I brofi cawodydd
Hyfrydaf y ne'.

2 Fe baſa 'r gwlawogydd,
A'r oerfel ynghyd,
Daw adar i ganu
Trwy gonglau 'r holl fyd;
Gwinllanoedd, a'r bryniau,
A'r ffrwythydd ryw ſtôr,
A blodau ar un waith,
O foroedd i fôr.

3 Fe gwymp yr addewid
Ar ddinas a gwlad,

Addewid

Addewid pereiddiaf,
  Addewid y Tad;
Tywellir yr Yſpryd
  Fel moroedd di-drai,
Ar lwythau hen *Jacob*
  Yn fwy ac yn llai.

4 Y meibion a'r merched,
  Blith, tra-phlith ynghyd,
Prophwydant, canmolant
  Iachawdwr y byd;
Henafgwyr freuddwydiant
  Freuddwydion o hedd,
Prin gallant eu credu,
  Er profi'r fath wledd.

5 Gwyr ieuainge a welant,
  A gweled a wnan',
Rai pethau mor rhyfedd
  Na welſant o'r bla'n;
Llawn felus, llawn hyfryd,
  Llawn werthfawr a dryd,
Fydd y weledigaeth,
  Am Brynwr y Byd.

6 O ddyddiau dedwyddaf!
  Wel bryſiwch ym mla'n,
Mae'r arfaeth yn galw,
  Mae pechod yn dân,
Mae pob peth yn aeddfed,
  Mae gweddi mewn grym,
O tyred ddeheu-wynt!
  Yn d' attal, 'does dim.

W. W.

H Y M N

HYMN XIII.

Y Nerth yn ol y Dydd.

PALMENTIR llwybr in',
Trwy ganol moroedd maith;
Ac er gelynion fawr a mân,
Cawn fyn'd ym mla'n i'n taith;
Ar droftan heddyw yn nes,
Mae 'r ſarph o bres yn glir,
O's clwyfir un pererin gwan,
Sy 'n myn'd i'r *Ganaan* dir.

2 Mawr iawn yw nerth y nef,
Mae ei arfaeth ef yn dân,
Yn lloſgi ym mhob bryn a bro,
Bob rhwyſtr f'o o'n blaen;
'Dyw *Moab* er eu llid,
Na ſeir ynghyd ond dim,
Mil mwy doethineb nefoedd fry,
A rhagor yw ei rym.

3 Y *Iorddonen* dry yn ol,
Roi lle i'r nefol had,
I etifeddu'r hyfryd ſan,
Addewyd gan y Tad;
Ni all pechod nac un chwant,
I attal plant y nef
I dreiddio trwy bob llif a thon,
Yn union atto ef.

4 'Dyw terfyſg mawr y byd,
A'i ddwndwr o un rhyw,
Na ſain ei udgyrn croch eu clych,
Na'i bleſer mwya' byw,
Sy 'n curo'r ſeintiau o hyd,
A'r aſſwy 'nghyd â'r dde',
Yn abl ddim i'w cadw'n hir,
O deyrnas bur y ne'.

HYMN XIV.

Y CONCWERWR Mawr.

1 I'R Ieſu boed y clod,
Tra fyddo bod na byd,
Efe oedd cyn y diluw mawr,
Efe ſy'n awr o hyd
Yn Gyfaill, ac yn Dduw;
Pob llwythau, rhyw, ac iaith,
Efe a'n harwain ni uwch nen,
Yn gryno i ben ein taith.

2 Fe gong'cra yn ddi-gel,
Bob gelyn ddel i'n cwrdd,
Fe wna i'r ddraig er maint ei ſcil,
Yn fuan gilio ffwrdd;
Y ddaear fawr o's rhaid,
A ſaif o'n plaid ryw ddydd,
Ac yno etifeddion nef,
A wared ef yn rhydd.

3 O foreu llawn o hedd,
Bydd hon yn wledd o fry!
Pan y cyhoeddir Jubil lawn,
Yn hyfryd iawn i ni;
A'r udgyrn arian glas,
Yn rhoddi ma's y ſain,
Fod iechydwriaeth gyflawn gun,
I'r gwaelaf un o rhai 'n.

W. W.

HYMN XV.

Cyſur y Pererin wrth ganu.

1 MI ganaf tra f'o ana'l,
O fewn i'r ffroenau hyn,
Am gariad yn dioddef
Ar ben *Calfaria* Fryn;
Am goron ddrain blethedig,
Am hoelion geirwa'u rhyw,
I gannu 'm henaid euog,
Fel eira gwynna'i liw.

2 Fe rwygwyd muriau cedyrn,
Fe dorrwyd dorau pres,
Oedd rhyngom ni a'r bywyd,
Mae'r bywyd heddyw 'n nes;
Palmentwyd yr holl lwybrau,
Mae'r pyrth o led y pen,
O ddyſnder dinas diſtryw,
I eitha'r nefoedd wen.

3 Mae'r gelynion oll mewn ofon,
Ac ofon iddynt ſy',
Cwymp arnynt ryw ddiwrnod,
Ddigofaint nefoedd fry;
Mae'n Ieſu mawr yn dyfod,
O *Edom* yn ei waed,
Fe ſyrth ein holl elynion,
Fel Dagon dan ein traed.

4 Wel dewch ym mlaen yn eon,
Mae 'r Brenhin gyd â ni,
Mawr yw ei nerth a'i allu,
Anciriſ yw ei lu;
Rhai ffyddlon etholedig,
Megis Seraphiaid nef,
A gollant waed eu calon,
O's achos troſto ef.

3 Fydd neb yn lleſg neu'n egwan
Ym mhlith ei ſint'oedd maith,
Ond cadarn megis *Dafydd*,
Gwna'r lleſgaf un, a'r llaith;
Ni ſaif o'n blaen ni elyn,
Er cymmaint fydd eu grym,
'Does araf fyth a lwydda,
Yn erbyn Seion ddim.

W. W.

HYMN XVI.

Golwg ar Seion orfoleddus a milwriaethus.

1 NI welwn ben ein ſiwrnau,
Aeth miloedd yn y bla'n,
Ar hyd prif ffordd y Brenhin,
Trwy ganol dw'r a thân;
Mae adſain yn ein cluſtiau,
O ryw aneirif lu,
Yn chwarae'u haur delynau,
O fewn i Seion fry.

2 Mae Salem heb ei llanw,
Mae'n rhaid cael llwythau 'nghyd,
Pob rhyw, ac iaith o bobol,
O bedwar gwynt y byd;
Daw tlodion ac efryddion,
A gwywedigion gwann,
Yn ſint'oedd heb eu rhifo,
I Seion yn y man.

3 O enau plant di-ſylwedd,
Sy' heb feddu rhwyſg na rhod,
Ar fyrder iawn o amſer,
Perffeithia Duw ei glod;
Ei enw gaiff ogoniant,
Mawr fydd ei deyrnas E',
O'r Gogledd i'r Gorllewin,
O'r Dwyrain hyd y De'.

4 Dedwydd yr awr y'n ganed,
Yr awr y cawſom ras;
Dedwydd yr awr y'n tynnwyd
O deyrnas diſtryw ma's;
Dedwydd yr awr etholwyd
Ni gan Dywyſog nen,
A'r ddedwydd awr y'n prynwyd
Gan Ieſu, ar y pren.

W. W.

HYMN XVII.

Ymddiried yn NUW.

1 LLAWENYDD ſydd i'm henaid prudd,
Waith dedwydd ddydd a ddaw;
Ni gawſom beth o ffrwythau 'r wlad,
Mae tŷ ein Tad gerllaw.

2 O ſatan paid! nid wyt ti nes,
Er temtio f'enaid gwan
I ammau mwy, tyſtiolaeth ces
Mai 'r Arglwydd yw ſy rhan.

3 Mi ymddiriedaf yn ſy Nuw,
Ac ar ei ol mi af;
Fe ddywedodd, Cei ſy enaid ſyw,
A chredu ei air a wnaf.

HYMN XVIII.

Gweddi SEION yn Amſer Trallod.

1 YMae Seion yn hiraethlon,
Dwyn trallodion er dy ſwyn,
Duw 'r trugaredd, gwel eu gwaeledd,
Gwrando 'n ebrwydd ar eu cwyn,

Tyr'd

Tyr'd yn ſuan o dy fangre,
A'th gleddyf hardd yng wiſg dy glun;
Mynn i'th feibion ſuddugoliaeth,
Dyro balmwydd i bob un.

2 Llefara 'r gair ſy'n nerth i'r galon,
Trwy 'th Yſpryd yn eu henaid hwy,
A d'wed y dont i'r wlad ar fyrder,
Lle na bydd rhaid rhyfela mwy;
A'r rhai 'th ddilynant trwy drallodau,
Gant deyrnaſu gyd â thi,
Mewn dedwyddwch anrhaethadwy,
Pan þ'o myrdd yn uffern ddu.

3 A flinwyd gan y rhai anniwair,
Fel cyfiawn *Lot* yn *Sodom* gas;
Rhai oll erlidwyd ar y ddaear,
O *Abel* gynt a gafodd ras;
Gant wiſgo fry ryw hardd goronau,
Anghofio 'u holl gyſtuddiau chwith,
A moli byth yr Oen fu farw,
Heb lais pechadur yn eu plith.

4 Duw par in' gredu (plant gwrthnyſig)
Er nad bychan yw ein bai,
Fod (er amled ein pechodau)
Gras yn rhagor amlhau;
Mai 'n ol ein dydd y cawn dy gymmorth,
Nes gorphen ar ein gyrfa lân,
A chael tu hwnt i'n holl drallodion,
Ganu 'r orfoleddus gân.

5 O's dygir ni ger bron brawdleoedd,
Neu ynteu 'r fflammau er dy fwyn,
Neu gael ein 'ſpeilio o'n meddiannau,
Pwy groeſau bynnag gawn eu dwyn;
Duw dyro ras i fod yn ffyddlon,
Nes myned trwy 'r Iorddonen draw;
A chwedi congc'ro 'n holl elynion,
Sefyll ar dy ddeheulaw.

HYMN XIX.

Am Lwyddiant yr Efengyl, a Chwymp Babilon.

1 O'S rhaid bod rhyfel cyn cael hedd,
Ac na chair congcweſt heb y cledd;
Duw, llwydda'r neb anfonaiſt ti,
Fel *Gideon* gynt, neu *Jephtha* hŷ.

2 Diſgwyliwn ninnau wrth Dduw ei hun,
Nac ymddiriedwn mewn un dyn;
Olwyn o fewn i olwyn try,
Nes gorphen hyn arfaethwyd fry.

3 Ni welwn trwy 'r Yſgrythur lân,
Mai'n raddol aeth dy waith ym mla'n;
Gwnai'ſt yn yr *Aipht* arwyddion rai,
Cyn cael o Iſrael eu rhyddhâu.

4 'Nol d'od o'r *Aipht*, 'doedd lwybr rhydd
Ond trwy rym cledd, a gallu ffydd;
Er hynny 'mlaen y dont heb goll,
Trwy ganol eu gelynion oll.

5 Goreſgynnaſant yr holl wlad,
Ro'es Duw i Abraham a'i holl hâd;
Gan faeddu ſaith cenhedlaeth mwy,
Amlach, a chryfach, na hwynt-hwy.

6 Amgylchu *Jerico* a wnaint,
A'r muriau balch, anferthol faint,
Wrth ſwnio cyrn (offerynnau gwan)
A ddad-ymchwelwyd yn y man.

7 Trwy ffydd amgylchent gaerau hon,
Heb wel'd ei chwymp dros wythnos gron;
A'r ſeithfed dydd, y ſeithfed tro,
Ai'r caerau'n chwil-friw, boed mewn co'.

8 Cwymp

8 Cwymp *Babilon*, y ddinas fawr,
A'u galar ddaw mewn yſpaid awr;
Brenhinoedd byd addefant mwy,
Mai 'r Ieſu yw eu Brenhin hwy.

9 'R efengyl rad trwy'r ddae'r a red,
Pob gwlad o'r bron yng Nghriſt a gred;
Ac anghrjſt ffrom gaiff farwol glwy',
Ffarwel marſiandaeth *Babel* mwy.

10 Diſgwyliwn dro, dros amſer mae
Y brophwydoliaeth, yn ddilai
Holl bwrpas Duw a ddaw i ben,
A d'weded meibion Duw, Amen.

HYMN XX.

Tyred a Groeſaw at IESU GRIST.

1 DEUWCH bechaduriaid tlodion,
Clwyfus, cleifion o bob rhyw,
Ieſu parod yw'ch gwaredu,
Llawn toſturi yw Mab Duw;
Nag amheuwch, nag amheuwch, *&c.*
Abl ac ewyllyſgar yw.

2 Rai anghennus dewch â'ch groeſo,
I gael rhoddion Duw yn rhad,
Cewch wir ffydd ac edifeirwch,
A phob gras yn ddi-naccâd;
Dewch heb arian, *&c.*
Prynwch gan y Ieſu 'n rhâd.

3 Am gymhwyſder na freuddwydiwch,
I beri i chwi oedi 'n hir,
Y cymhwyſder oll mai 'n geiſio,
Gwel'd eich eiſiau hono 'n wir;
Rhodd yw hynny, *&c.*
Rhan o oleuni 'r Yſpryd pur.

4 Dewch ſlinderus a thrym-lwythog,
Trwy y cwymp ga's marwol friw,
O's arhoſwch nes i'ch wella,
Byth ni ddeuwch yn eich byw;
Pechaduriaid, &c.
Nid rhai cyfiawn eilw Duw.

5 Gwel ef yn yr ardd yn gorwedd,
A'i lân wyneb tu a'r llawr,
Gwel ef ar y pren yn marw,
Ac yn talu 'th ddyled mawr;
D'weud gorphenwyd, &c.
O bechadur cred yn awr.

6 'Nawr eſgynnwch i'r gogoniant,
Lle mae'n pledio 'i werthfawr wa'd,
Bechaduriaid arno mentrwch,
A derbyniwch ef yn rhad;
Neb ond Ieſu, &c.
Ddichon wneud i chwi leſhâd.

7 Seintiau ac angylion cenwch,
Uchel glod i'r Oen o hyd,
Nes bo'i fawl a'i felus enw,
Yn dad-ſeinio'r nef i gyd;
Haleluia, Haleluia, &c.
Cenwn ninnau bawb o'r byd. *D. J.*

HYMN XXI.

Yr Happuſrwydd o fod yn Ffafr DUW, neu Orfoledd Ffydd.

1 O Pa mor wynfydedig yw
Rhai ddarfu Duw eu dewis;
A'u dwyn at Grift y Bugail da,
I gael gorphwyſfa felus.

2 Er tlotted ydynt, a di-blaid,
Hwy gant f'o raid y'nt wrtho;

Mae

Mae ganddynt nefol dryſor drud,
Na ŵyr y byd am dano.

3 At hwn trwy ffydd eu golwg tron',
Ym mhob trallodion newydd;
Ac oddi yno cyrchant hwy
Wrth raid, gynhorthwy beunydd.

4 Ffydd gwyd i fynu'u calon driſt,
A ffy eu hathriſt ofnau;
Bywyd a nerth, a chyſur cant,
A llawenhant mewn dagrau.

5 Fel dieithred yma maent yn byw,
Heb ofni un-rhyw ddrygfyd;
Pob croeſ-wynt gaiff fod er eu lles,
I'w dwyn yn nes i'r bywyd.

6 Ffryns fel gelynion lawer pryd,
All fod yn ofid iddynt;
Ond ni thyrr neb o'u heddwch cu,
Tra gweno'r Ieſu arnynt.

7 Tr'o tonnau, trallod, a phob tra',
Fel dyfroedd *Noa*'n llifo;
Hwy wyddant na wnant ond eu dwyn
I'r lle maent hwy'n dymuno. *D. J.*

HYMN XXII.

Y Garreg-Wen, a'r Enw-Newydd.

1 GWYN ei fyd y dyn ſy'n gwybod,
Faddeu ei bechod a'i holl fai;
Duw trwy'r gwaed, ac e'n heddychol,
Hwnnw ddichon lawenhâu:
Pwy all ddamnio? pwy all ddamnio? *&c.*
Y dyn ſ'o'r Arglwydd yn ryddhâu.

2 Beth

2 Beth yw golud, parch a mawredd,
I gydmaru â chariad Duw;
Ni all pethau 'r byd gyd-bwyso
A'r fath rodd, amhosib' yw:
Gwerthfawroccach, &c.
Ydyw hon nac aur *Peru*.

3 Hwn sydd berl o uchel brisiad,
Gwystyl cariad Duw a'i hedd;
Carreg wen, a'r enw arni,
Neb ni's darllain ond a'i medd:
Rhodd neillduol, &c.
Yw o eiddo Brenhin nef.

4 Y rhodd hon a synych roddir
Yma, i'w anwyl bobol ef;
Ond ni wyddys etto frodyr,
Beth a fyddwn yn y nef:
Hyn a wyddom, &c.
Byddwn debyg iddo ef. *D. J.*

HYMN XXIII.

Mat. v. 4.

Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, canys hwy a ddiddenir.

1 CRIST sy' Gyfaill pechaduriaid,
Cofiwch hyn tra fyddoch byw,
Enaid clwyfus nid un cyfan,
I gredadyn gweddus yw;
Gweled pechod a'i gyfaddef,
Nid gwaith anhawdd ydyw'r ddau;
Ond ei deimlo pwy all draethu,
Ddyfned yn archolli mae?

2 Na 'mddiriedwch mewn gwag-dybiau,
Llyfn ymddygiadau 'u lliw,
Pechaduriaid all yn unig
Ddweud am Grist, mor werthfawr yw:

Gwyn

Gwyn eich byd am hyn alarwyr,
Happus fyddwch cyn b'o hir,
Cewch ddiddanwch melus hyfryd,
Mae addewid Duw yn wir.

3 Calon ddrylliog gyſtuddiedig
Ni ddirmygir byth gan Dduw;
Ger ei fron mae 'n aberth beraidd,
Gwaith ei Yſpryd ſanctaidd yw;
Gwyn eich byd am hyn alarwyr,
Sy'n myn'd trwy flinderau 'nawr,
Teimlo pechod a'i halogrwydd,
Nod o'r iechydwriaeth fawr.

4 Addyſg ſych ni all ein ſafio,
Tywyll zel neu 'ddoliad gau,
Gweddi'r ffydd er gwanned fyddo,
Ar y rhai'n, rhagori mae;
Gwyn eich byd am hyn a alarwyr,
Chwi yn y diwedd bia 'r dydd,
Trwy waed Ieſu yr heddychwyd
Duw, â phechaduriaid prudd. *D. J.*

HYMN XXIV.

Salm lxxxvii. 7.

Fy holl Ffynhonnau ſydd ynnot ti.

1 FY enaid tlawd, bendithia'r Arglwydd,
Cyfod i fynu 'th lafar lef,
I foliannu dy Iachawdwr,
Perthyn yr ydwyt iddo ef;
Fe yw'm Duw a'm da gadernid,
Sy' yn ſy nghynnal ym mhob man,
Talodd ef a'i waed ſy mhrid-werth,
Criſt a'i aberth yw fy rhan.

2 Er cael mynych demtaſiynau,
A blinderau yn ddibaid,
Etto ei Yſpryd ſy'n llefaru,
Heddwch i mi wrth fy rhaid;

Giwan

Gwann o gorph a chlaf mewn enaid,
Ofnau 'n barod i'm gwanhau,
Gwedd ei wyneb sy 'n sy ngwella,
A'i wenau sy 'n sy llawenhau.

3 O sy Iesu, s' eiddo ydwyt,
A'th holl ras a'th allu i gyd,
D' eiddo 'n awr, a byth wyf sinnau,
Pan ddarfyddo dyddiau'r byd;
Ti 'm adfywiaist trwy farwolaeth,
Dy waed ddileodd s'euogrwydd i,
Holl ffynhonnau 'm iechydwriaeth,
Tarddu maent o honot ti.

D. J.

HYMN XXIV.

2 Cor. v. 3.

Ymorchestu am fod yn gymmeradwy gyd â DUW.

1 MAE'r dydd ar fyrder yn nesau,
Y rhaid i'm henaid ado'r clai;
Mewn cnawd ni chaiff ef drig' o hyd,
Rhaid myn'd i ryw ddieithrol fyd.

2 I ba gyffiniau pell y ffy,
Pan y dattoder ei hen dŷ?
I ba ryw drigfan 'bed hi draw?
A pha ryw waith fydd ganthi'n llaw?

3 Bryd hyn sy Mhrynwr clod i Dduw,
A ddarpar im' well lle i fyw;
Caf godi gyd â'r nefol lu,
I aros ger ei fron ef fry.

4 Pa bryd daw'r funud happus hon,
Caf fyn'd i'r drigfan lonydd lon;
Cyfnewid byd a nef i fyw,
A gado nghnawd i fyn'd at Dduw.

5 Hiraethu

5 Hiraethu am ymddioſg 'rwy',
Neu 'n hytrach f' arwiſgo mwy;
I fyn'd i go'l fy Mhrynwr cu,
A chael am danaf nefol dŷ.

6 Fy Mhrynwr, oedi 'n hir ni wna,
Ar fyrr fy enaid a ryddha;
Fe'm dwg i dref, ond tra f'wyf byw,
Ymdrechaf i ryngu bodd fy Nuw.

7 Fy ngweddi fyth am hyn gaiff fod,
I'm golwg cadwa 'r cyfryw nod;
Gan ddilyn wrth ei waith o hyd,
Er gwaethaf holl beryglon byd.

D. J.

HYMN XXV.

Cred yng NGHRIST, a chadwedig fyddi.

1 O Enaid athriſt, cwyn dy ben!
A gwel dy Brynwr ar y pren;
Dy ddyled talodd mewn un dydd,
Do, do, bob hatling 'rwyt ti 'n rhydd.

2 'Does gan y gyfraith ddim i ddweud,
'Does gan gyfiawnder ddim i wneud;
Fe roes foddlonrwydd têg i'r Tad,
Gorphennodd ef dy gyfiawnhâd.

3 Ac er dy fod di etto 'n driſt,
Yn ffaelu credu 'n gryf yng Nghriſt;
O waith ei fod ef hyd yn hyn,
Yn cuddio gwedd ei wyneb gwyn.

4 Ond diſgwyl di ef yn ffordd Duw,
Mae 'n wir y daw, er hwyred yw;
Enfyn ar fyrr ei Yſpryd Glân,
Ac a'th ſedyddia di â thân.

5 Caiff anghrediniaeth cyn b'o hir,
A'th holl elynion golli tir;
Pan godo Haul Cyfiawnder glân,
Fe ffy 'r tywyllwch oll o'i flaen.

D. J.

HYMN XXVI.

Y Wraig o Ganaan.

1 PAN oedd y Ieſu 'n byw yn y cnawd,
Gwaſgaru ei glod ar led a wnawd;
Daeth gwraig o *Ganaan* mam merch glaf,
I 'mofyn am y Meddyg braf.

2 Pan gafodd hon y Meddyg mwyn,
Dechreuodd adrodd wrtho 'i chwyn;
Gan ddweud, Fab *Dafydd* trugarha,
A chymmorth fi, fy Arglwydd da.

3 Fy merch yn ddrwg ei hwyl y ſydd,
Gan yſpryd aflan nos a dydd;
'Does neb a all ei gollwng hi
O feddiant diafol, ond tydi.

4 A'r Ieſu attebodd fel gwr traws,
Er na newidiai 'r Oen 'mo'i naws;
Ni ches i f'anfon at neb oll,
Ond defaid *Iſrael*, aeth ar goll.

5 Er hyn ni phallodd 'mo'i ffydd gref,
Ym mlaen hi ddaeth, addolodd ef;
A thaerach daerach oedd ei chri,
O Arglwydd cymmorth, cymmorth fi!

6 Gweddiwn ninnau Dduw trwy ffydd,
Am bob peth yn ddiffygiol ſydd;
Nac awn oddi wrtho 'n waglaw bant,
Ni all ef ballu dim i'w blant.

D. J.

HYM

HYMN XXVII.

Effeithiau Pregethiad yr Efengyl.

1 NEWYDDION da y'm yn glywed,
I'r Ieſu rho'wn y clod,
Mae 'r deillion 'nawr yn gweled,
Na welſant ddim erio'd;
Ac hefyd y buddariaid,
Agorwyd cluſtiau rhai 'n,
Hwy glywſant lais y durtur,
A'i ſiriol eglur ſain.

2 Mae 'r meirw megis *Laz'rus*,
Yn codi o farw i fyw,
A'r mudan yn lleſaru,
Rhyfeddol bethau Duw;
Mae 'r cloff nad allai gerdded,
Yn neidio 'nawr fel hydd;
Ac yn moliannu 'r Ieſu,
A roes ei draed yn rhydd.

3 O Arglwydd galw etto
Fyrddiynau ar dy ol!
A dryllia 'r holl gadwynau,
Sy 'n dal 'i heneidiau 'n ol;
O galw hwynt (o'r Dwyrain!
Gorllewin, Gogledd, De',)
I'th eglwys yn ddi-attal,
Mae digon etto o le.

4 Hiraethu 'r y'm ni beunydd,
Gael gwel'd y dedwydd bryd,
I 'fengyl Ieſu gyrraedd,
I gyrrau eitha 'r byd;
I'r rhai ſy' mewn tywyllwch,
Am Griſt heb glywed ſon,
Gael rhan o'r iechydwriaeth,
Bwrcaſodd gwaed yr Oen.

5 Toſturia wrth broffeſwyr,
Sy ag enw o fod yn fyw,
Ac etto meirwon ydynt,
A dieithr iawn i Dduw;
Mae ganddynt rith duwioldeb,
Ond etto'n gwadu ei grym,
Duw, argyhoedda rhei'ny,
A gair dy enau llym.

D. J.

HYMN XXVIII.

Dilyn ol y PRAIDD.

1 PERERIN wy'n y byd,
Ac alltud ar fy hynt,
Sy'n ceiſio dilyn ol y praidd,
Y tadau ſanctaidd gynt;
I 'mofyn gwlad ſy well,
Er mod i mhell yn ol,
Trwy gymmorth gras ym mlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

2 Hen *Abram* union gred,
Tad y ffyddloniaid gwiw,
Adawai ei wlad ei hun yn rhwydd,
Wrth arch ei Arglwydd Dduw;
Aeth tu a'r *Ganaan* wych,
Heb edrych yn ei ol,
Trwy gymmorth gras, ym mlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

3 A'r Patriarchiaid hen,
Had *Abraham* ei hun,
A'u canlynaſant ef trwy ffydd,
Yn ufudd cymmain un;
I 'mofyn dinas glyd,
Gan ado'r byd ar ol,
Trwy gymmorth gras, ym mlaen mi af,
Dilynaf finnau 'u hol.

4 A *Moſes*

4 A *Moſes* yr un modd,
Wrthododd bri a braint,
Dewiſai 'n hytrach ddirmyg Criſt,
A bywyd triſt y ſaint;
Can's gwel'd yr oedd trwy ddrych,
Y wobor wych ſy'n ol,
Trwy gymmorth gras, *&c.*

5 A'r hen Brophwydi o'r bron,
A'r Apoſtolion hŷ,
A holl ddiſgyblion Ieſu glân,
A aeth o'r bla'n yn llu;
Y rhai y darfu'r byd,
Eu cyfrif i gyd yn ffol;
Trwy gymmorth gras, *&c.*

6 O's rhaid ymdrechu dro,
Milwrio, a chario 'r groes,
A myn'd dan wawd a gwg y byd,
Dros ennyd ferr o f' oes;
Caf goron gyd â'r ſaint,
Tragywyddol fraint fy'n ol,
Trwy gymmorth gras, ym mlaen mi af,
Dilynaf ſinnau 'u hol.

D. J.

HYMN XXIX.

HAB. III. 17.

Credu yn erbyn Gobaith.

1 DOS ymaith ffwrdd ar ffo,
Fy anghrediniaeth ddu,
Er bod fy Mhrynwr ambell dro,
Yn cuddio 'i wyneb cu;
A lwyr wanhaf am hyn,
A choelio'r gelyn cas?
Na wnaf yn enw 'r Ieſu, a'i rym,
Ni ilda i ddim o'r ma's.

2 Pe pallai 'r gwynwydd ffrwyth,
A'r olew-wydden lâs,
A chrino 'r ffigyſbren yn llwyth,
A methu o gnwd y ma's;
Pe pallai 'r beu-dŷ dda,
A'r gorlan ddefaid mân,
Yn Nuw fy iechyd llawenha',
A hyfryd fydd fy nghân.

3 Er bod fy enaid 'nawr
Yn ſych, heb fawr o ras,
Na dim daioni ynwy' n bod,
Ond cryg o bechod cas;
Er colli nghyſur llonn,
A'm doniau ffrwythlon ffri,
Mi gredaf yn fy Mhrynwr byw,
Fu farw droſof fi.

4 Yn erbyn gobaith gwnaf,
Mi gredaf yn ddi-gryd,
Mi brofais f' Arglwydd gynt yn dda,
Gobeithiaf ynddo o hyd;
Daw etto cyn b'o hir,
Fe 'm cyfyd yn ei go'l,
A'm holl elynion cant yn wir,
Trwy g'wilydd gilio 'n ol.

D. J.

HYMN XXX.

Deiſyfiad am ſigo Pen y SARPH.

1 O IESU archaiſt in'
Weddio yn ddibaid,
Ynghyd â'th arch rho nerth a grym,
I geiſio 'r hyn ſydd raid;
Pwy all yn llonydd fod,
Tro pechod yn cael bri,
O ſiga ben y Sarph! a thynn
Ei hanferth golyn hi.

2 Llefai

2 Llefain yr y'm o hyd,
A llefain hefyd wnawn,
Yn erbyn pechod yn ein byw,
O's cymmorth Duw a gawn;
Ni thewn ni nos na dydd,
Ond dyma fydd ein cri,
O figa ben y Sarph! &c.

3 O Ieſu d'wed y gair!
A hwy ryddhair yn wir,
Y rhai fu'n rhwym gan gnawd a byd,
A ſatan ennyd hir;
Cyhoedda i'r caethion hyn,
Dd'od blwyddyn Jubili,
O figa ben y Sarph! &c.

4 Dinyſtria 'r gelyn cas,
A'i deyrnas ym mhob dyn,
A chymmer di 'r frenhinol fraint,
A'r orſedd-faingc dy hun;
Bwr' arfog wr i ma's,
A doed dy deyrnas di,
O figa ben y Sarph! &c.

5 Pa hyd y blina fe,
Dy etholedig had,
O dryllia f' holl gadwynau mwy!
Rho iddynt hwy ryddhad;
Dwg bawb o'th anwyl faint,
I wel'd eu braint a'u bri,
O figa ben y Sarph! &c.

6 Tyr'd Ieſu yn dy rym,
A'th gleddyf llym dau-fin,
A gwna rymmuſder hâd y wraig,
O lladd y ddraig a'i llin;
Cael pechod dan ein traed,
Yw 'n holl ddymuniad ni,
O figa ben y Sarph! a thynn
Ei hanferth golyn hi. *D. J.*

HYMN

HYMN XXXI.

I'w chanu pan fyddo Ffryns Criſt'nogion yn ymadael.

1 CLODFORWN di ein Duw,
Rhyfeddol yw dy ras,
Ti ddaethoſt lawer gwaith i'n cwrdd,
A gwneſt ein bwrdd ni'n fras;
Rhoiſt i ni gwppan llawn,
Oedd ſelus iawn o hedd,
O anwyl Ieſu dygaiſt ni
I'r gwin-dŷ, i gael gwledd!

2 Nid plant y byd ſy'n cael,
Fath ffafar hael a hon,
Rhyfeddu maent pa beth y ſy',
'N ein gwneuthur ni mor llonn;
Ni gawſom brofi'n rhad,
O gariad Duw a'i hedd,
Anwyl Ieſu dygaiſt ni, *&c.*

3 Dwg ni etto yn y blaen,
Tu a *Salem* lawen lon,
Nes delom yno o nerth i nerth,
Yn brydferth ger dy fron;
Pan fyddom yn lleſgau,
Ac yn gwanhau ein gwedd,
Anwyl Ieſu arwain ni, *&c.*

4 Does dim all ein boddhau,
Ond gwir fwynhau ein Duw,
A hyn yw'n dymuniadau 'n wir,
Tra b'om ar dir y byw;
Nes ein cymmwyſo i gyd,
I'r byd tu draw i'r bedd,
Anwyl Ieſu, arwain ni
I'r gwin-dŷ, i gael gwledd.

HYMN XXXII.

Gwyn eu byd y rhai ſydd yn meirw yn yr ARGLWYDD.

1 OH! melus yw'r llawenydd ſydd,
Yn ſynych yn fy enaid prudd,
Wrth feddwl am y brodyr cu,
A aeth i'r fro nefolaidd fry:

2 Gadawſant eu daearol dŷ,
Ac aethant trwy'r *Iorddonen* ddu,
At Ieſu fry, i *Seion* Fryn,
Lle 'r oedd eu calon hwy cyn hyn.

3 Maent wedi cyrchu at y nod,
Lle'r oedd eu hamcan hwy am fod,
Maent gwedi gorphen ar eu gwaith,
A myn'd yn dêg i ben y daith.

4 Mewn rhyfel buont yma'n hir,
Yn colli ac yn ennill tir;
Ond Criſt yn waſtad oedd o'u plaid,
A'i ras i'w cynnorthwyo wrth raid.

5 Ymdrechu wnaethant ymdrech dêg,
A chael y frwydyr yn ddi-frêg;
'Nawr, palmwydd yn eu dwylo ſydd
Arwyddion, iddynt gario'r dydd.

6 'Does dim ymbleidio yn eu plith,
Na barnau cillon, chwerwon, chwith;
Byw maent mewn cariad pur heb ball,
A rhydd-did llawn, naill at y llall.

7 Pa Griſtion na hiraethai mwy,
Ymddattod i fyned attynt hwy?
O ſwn y byd yn ddigon pell,
Bod gyd â Chriſt ſy' lawer gwell.

D. J.

HYMN

HYMN XXXIII.

Etholedigaeth, neu Hawl y Credadyn.

1 CHwy-chwi yr etholedig ryw,
Heb gymmell, deweh i ganmol Duw,
Am ei drag'wyddol gariad rhad,
Eich dewis iddo ei hun yn had.

2 Eich galw wnaeth o'ch cyflwr trift,
Er clod i'w ras, i gredu 'Nghrift;
Ac nid o waith eich hod yn well,
Na'r lleill o'r byd ſydd etto 'mhell.

3 Addefwch frodyr, o'r un-fryd,
Mai plant digofaint oe'ch i gyd;
Yn myn'd ar ffo, tu ag uffern ffwrdd,
Nes daeth trugaredd Duw i'ch cwrdd.

4 Rhyfeddwch byth neilldnol ras,
Eich galw chwi o'r byd i ma's;
A gadael canoedd, miloedd, myrdd,
I ddilyn eu huffernol ffyrdd.

5 Pwrcaſodd i chwi'n ddrud fil wa'd,
Drag'wyddol etifeddiaeth rad;
Chwi gewch ar fyrder ei mwynhau,
Mae'r amſer hyfryd yn neſau.

6 Plant ydych etto dan eich oed,
Mae'r etifeddiaeth iwch' etioed;
Trag'wyddol gariad Duw yw'r ſail,
Pwy ddichon dorri'r fath *Entail?*

D. 7.

HYMN

HYMN XXXIV.

Ioan xv. 5.

Myfi yw'r Winwydden, a chwithau yw'r Canghenau.

MYFI yw'r gangen, Crift yw'r Pren,
A'r ber Winwydden nefol;
Duw, tymodd fi o'm gwraidd fy hun,
Gael nôdded un yſprydol.

2 Fe ddarfu i'r waedlyd wayw-ffon,
Wneud yn ei fron ef rwygiad;
I allu o hono roi yn hael,
A minnau gael o'i gariad.

3 Ei yſpryd ef a ffydd ynghyd,
Sydd yn ein cyd-gyffyltu;
Fel hyn ymwaſgu law-law'r y'm,
Ac ni all dim ein gwa'nu.

4 Cyd y b'o'r gwreiddyn fyw'n y tir,
Y gangen îr ni chrina;
Tr'o gras a bywyd yn llaw Crift,
Fy enaid trift ni threnga.

5 Fy Mhrynwr cu, ni ddarfu erioed
I'r cang'au a'r coed ymgydio,
Mor agos ac y mynnwn i,
Gael â thydi fy uno.

D. 7.

HYMN

HYMN XXXV.

Buddugoliaeth CRIST ar Satan.

1.

HOSANNA i'n Brenhin, congcwerodd yn lân,
Tywyſog y t'wyllwch, ffy ymaith o'i fla'n,
I lawr bendramwnwgl, i uffern, o'r nef,
Fe ſyrthiodd fel mellten, a'i lu gyd ag ef.

2.

Rhwym yno yw 'r llewod, a rhuo y maent,
Am ddifa ei ddefaid a achubwyd, pe caent;
Ond barrau trag'wyddol, a dwrn y Duw mawr,
A'u ceidw i'r pydew diwaelod i lawr.

3.

Hoſanna i'n Brenhin, congcwerodd ei hun,
Gwnaeth nef yn agored o'i gariad i ddyn;
Caniadau o orfoledd, ddeng mil uwch y nen,
Oedd yn ei roeſawi i goroni ei ben.

4.

Dy angau a'th gongcweſt, O Ieſu, gaiff glod!
Trwy 'r ddaear a'r nefoedd, tra fyddom yn bod;
Ac oeſoedd trag'wyddol, yn canu a fydd,
Yn fawr eu gorfoledd, it' ennill y dydd. *D. J.*

HYMN XXXVI.

CAN. I. 7.

Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy Enaid, pa le yr wyt yn bugeilio, &c.

1 TYDI'r hwn mae fy enaid drud
Yn hoffi, uwchlaw holl bethau 'r byd;
Mynega im' fy Mugail mwyn,
Pa le 'r wyt ti 'n bugeilio 'th wyn.

2 Pa le mae 'r graig (pan fyddo gwres)
Sy 'n cadw 'r defaid rhag y tes?
Ynghyd â'th braidd, mae f' enaid prudd,
Yn chwennych gorphwys hanner dydd.

3 Pa

3 Pa ham, fy Arglwydd, y caf fi
Droi heibio oddi wrth dy ddiadell di?
'D yw f' enaid bach yn rhwennych bod
Yn eiddo neb, ond Crift a'i nod.

4 Dilynaf fi ol traed y praidd,
I 'mofyn am dy ber borfaidd;
Gwledd wych i'm henaid yno caf,
O bob danteithion breifion braf.

5 Dy anwyl gnawd fydd fwyd yn wir,
A'th werthfawr waed fydd ddiod bur;
A rhai 'n y porthir f' enaid byw,
Nes myned adref at fy Nuw.

D. J.

HYMN XXXVII.

CAN. ii. 1.

Rhofyn Saron a Lili 'r Dyffrynoedd ydwyf.

1 IESU yw Rhofyn Saron mwyn,
A'r Lili mae'r dyffrynau'n ddwyn,
A Phren y Bywyd heb ei ail,
Sy' â iechydwriaeth yn ei ddail.

2 Fel lili 'n tyfu 'mhlith y drain,
Neu bren afalau 'mhlith y rhai 'n;
'R un wedd 'r wy 'n gwel'd fy Mhrynwr dwud,
'Mhlith miloedd o gariadau 'r byd.

3 Tan gyfgod hwn i eiftedd des,
Im' gadw rhag y pocthni a'r gwres,
A'i ffrwyth oedd felus iawn ei flas,
Ac ymborth llon i'm henaid llas.

D. J.

HYMN XXXVIII.

Can. ii. 8, &c.

Dyma Lais fy Anwylyd, wele ef yn dyfod, yn neidio ar y Mynyddoedd, &c.

1 LLAIS hyfryd fy Anwylyd sy'
Yn seinio ar y bryniau fry;
Dros foroedd blin mynyddau o blaau,
Fe 'hed i'm gwared i o'm gwae.

2 Trwy'r llen o gnawd y gwelaf ef
Yn edrych arnai'n fwyn o'r nef;
Ac yn efengyl ddisglair ddrych,
Mae'n dangos gwedd ei wyneb gwych.

3 Fy nghalon mae fe'n ddirgel ddwyn,
A'i degwch mawr a'i dafod mwyn;
Cyfod (medd f' Arglwydd) *bryfia o hyd,*
Gad yna bant deganau 'r byd.

4 *Y gauaf 'ddewig heibio'r aeth,*
Y niwl a ffodd, a'r gwanwyn ddaeth;
Mae'r Durtur nefol ar bob twyn,
Newyddion da 'r Efengyl fwyn.

5 *Mae'r wir Winwydden bithau'n llawn,*
O flodau, ac o nefol rawn;
Wele ni ddewn i brofi'r gwin,
I lonni ein heneidiau blin.

6 A phan lefaro 'r Iesu ein Ffrynd,
F' anwylyd cyfod, bryfia i fyn'd,
Ein henaid fynnai ffoi i'w go'l,
A gado'r byd i gyd ar ol.

D. J.

HYMN

HYMN XXXIX.

Can. vi. 1, 2, 3—12.

I ba le yr aeth dy Anwylyd, y deccaf o'r Gwragedd.

1 PAN glywo pechaduriaid trift
Fi'n dweud, mor hawddgar yw fy Nghrift,
P'le mae d' Anwylyd? yw eu lef,
Fel ceifiom, ac y carom ef.

2 Teyrnafu mae f' Anwylyd cu,
Ar fryniau gwlad goleuni fry;
Ond fe ddaw lawr i'r ddaear las,
I 'mwel'd â gerddi ieuaingc gras.

3 Mewn per winllanoedd blanodd e'
A'i law ei hun, mewn anial le;
Ymborthi mae ar ffrwythau 'i ardd,
Ymhlith y ſpeis a'r lili hardd.

4 Heb wybod f' enaid lawer gwaith,
Fe'm dug i wel'd ei 'goniant maith;
Mewn llewyg ber yn llawer cynt,
Na cherbyd *Aminadab* gynt.

5 O boed i'm henaid i bob dydd,
Ehedeg fynu ar aden ffydd,
Nes delo angau, cennad Duw,
I'm dwyn at f' anwyl Ieſu i fyw.

D. J.

HYMN XL.

Pererindod y CRISTION.

1 FY ngweddi dos i'r nef,
Yn union at fy Nuw,
A dywed wrtho ef yn daer,
" Attolwg, Arglwydd, clyw!
" Cyflawna 'th 'ddewid wych,
" I'm dwyn i'th nefoedd wen;
" Yn *Salem* fry par'to fy lle,
" Mewn llys o fewn i'r llen."

2 Pererin lleſg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
Gan geiſio gwlad ſydd well;
Am ffoi mae f' enaid tlawd,
At f' anwyl Frawd a'm Pen,
Yn *Salem* fry, *&c.*

3 Yng nglyn wylofain driſt,
Lle bu fy Nghriſt 'rwy 'n byw;
Ac wrth ryfela 'm gelyn cas,
Fy nghalon aeth yn friw:
Iacha bob clwyf a brath,
A dail y bywiol Bren;
Yn *Salem* fry, *&c.*

4 Mae'm mrodyr uwch y nen,
Yn canu ar ben eu Taith,
A minnau oedais lawer awr,
Ar ſiwrnai fawr a maith;
Ond bellach tynn fi'n ddwys,
Ar Griſt dod bwys fy mhen:
Yn *Salem* fry, *&c.*

5 Gwna im' fyn'd ym mlaen yn ddewr,
Trwy ddyfroedd mawr a thân,

Heb

Heb ofni ſatan lew na'i lu,
Nes elwy' i Seion lân;
Gan ddiangc ar y byd,
I'm cartref clyd uwch-ben;
Yn *Salem* fry, &c.

6 'R wy'n gwel'd yr oriau'n hir,
I fod o dir fy ngwlad;
'Bryd deuaf at fy mrodyr fry
Sy 'n canu 'n nhŷ fy Nhad?
Gael gorphen ar fy nhaith,
A'm ſiwrnai faith îs nen;
Yn *Salem* fry par'to fy lle,
Mewn llys o ſewn i'r llen.

W. W.

HYMN XLI.

Hiraeth y CRISTION am ſyned i ben ei Daith.

1 PERERIN wyf i'r *Gaanan* fry,
I gynnes go'l fy Ieſu cu,
Lle caf drag'wyddol nyth,
'Mhell uwchlaw ſwn y ddraig a'i ſaeth,
Na gelyn mwy i'm gwneud yn gaeth,
Caf yn dawel orphwys byth.

2 O bell mi wela 'm gartre'n wir,
O ſewn i byrth *Caerſalem* bur,
Pob rhai 'n meddiannu hedd;
O ddinas dêg! o'th ſewn nid oes
Na haul, na lloer, na thywyll nos;
Gwynfyd rhai draw i'r bedd.

3 Pan ddel yr adgyfodiad mawr,
Caf godi 'n lân o'r ddaear lawr,
I entrych awyr fry;
Oddi yno af mewn nefol hedd,
I'r nefoedd wen, mewn newydd wedd,
I blith angylaidd lu.

4 Mi fyddaf fry (O rhyfedd fraint!)
Yn boddi'm ſwn ym mhlith y ſaint,
Mewn peraidd hyfryd dôn;
Cymdeithion hŷ, mewn nefol hwyl,
Heb 'mado byth, ond cadw gwyl
I'r tirion anwyl O'n.

W. W.

HYMN XLII.

Gobaith cryf o weled ein Gelynion dan draed.

1 PERERIN wyf tu a *Salem* bur,
ddiangodd 'maes o'r *Aiphtaidd* dir;
Rho nerth fy Nuw, i deithio 'mlaen,
Nes d'od i mewn i'r *Ganaan* lân.

2 Gelynion taer fydd o bob tu,
Fel Câd am rwyſtro'm henaid cu,
Wel'd dy wyneb gwych fy Ieſu gwiw,
A theimlo o'th nefol hedd, fy Nuw.

3 Mi wn y cyll bob gelyn call;
Caf rwygo dyrus rwydau'r fall;
Caiff pechod drwg ac uffern driſt,
I wel'd mai'm Ffrynd yw Ieſu Griſt.

4 Er maint yw llid fy mhechod llym,
Ei erchyll rwyſg, a'i ryfedd rym;
Fy Mhriod mae'n dywyſog mawr,
Fy meiau'n llu, fe'u mynn i'r llawr.

5 Mewn hyder ffydd mi af ym mlaen,
Trwy rwyſtrau mawr o ddw'r a thân;
O ddydd i ddydd, trwy rin y gwaed,
Caf ſathru pechod dan fy nhraed.

6 Mi ddof yn hŷ i ben fy nhaith,
Gorphenna'n wir fy llafur-waith;
Congcwero wnaf fyn'd at fy Nuw,
Feddiannu'r wiſg a'r goron wiw.

W. W.

HYMN

HYMN XLIII.

Yn ymgadarnhau wrth gofio'r Cyſuron gynt.

1 O ARGLWYDD! gwel fi 'n lleſg a gwan,
Yn ffaelu dringo o'r byd i'r lan;
Am fyn'd yn lew i'r *Ganaan* lân,
Heb allu ſymmud fawr ym mla'n.

2 Gynt credais c'ai fy enaid cu,
Fod yn frau yn gongcwerwr fry;
Ond etto heb feddiannu'r wlad,
Bwrcaſodd Ieſu im' â'i wa'd.

3 Fy meiau 'n gryf ſydd o bob gradd,
Yn fawr eu llid am gael fy lladd;
Gan ddadleu 'n rhwydd, nad oes dim rhan
Yn Ieſu gwiw, gan f' enaid gwan.

4 Yn f' erbyn mae gelynion Gâd,
A'm henaid triſt bron dan eu tra'd;
Och! Och! p'le mae fy Mrenhin mawr?
I ſathru llu o rhai 'n i'r llawr.

W. W.

HYMN XLIV.

Myfyrdod ar Ddedwyddwch y NEFOEDD.

1 O FUGAIL *Iſrael*, dwg fi 'mla'n
I'r dawel lân orphwyſfa;
I'th nefol lys, o'm poen a'm pla,
I ganu Haleluia.

2 Myfyrio fod fy hyfryd le
O fewn i'r ne' yn barod,
Sy'n gwneud i'm henaid cu bob cam
Hiraethu am ymddattod.

3 Yn angau caf nefolaidd gor,
Angylion o'r diſgleiria',
I'm dwyn o'm briw at deulu braf,
Sy 'n canu Haleluia.

4 Ond myn'd wrth lys *Caerſalem* lonn,
Caf gwrdd â'm ffyddlon Frenhin,
Yn agor drws y nefoedd draw,
Ac yn ei law ſe'm derbyn.

5 Cael cwrdd a wnaf o fewn i'r ne'
A'r ſanctaidd bererinion;
Ac yn eu plith caf foli 'm Ner,
A pher ganiadau *Seion*.

6 Y wiſg a'r goron caf i'm rhann,
Sy' nghadw gan y Ieſu;
A'r hyfryd balmwydd yn fy llaw,
Cai 'n *Seion* draw deyrnaſu.

W. W.

HYMN XLV.

Golwg FF Y DD.

1 I *BISGA* o'r diwedd f' enaid daeth,
Wel'd gwlad yn llifo o fel a llaeth;
Y *Ganaan* wiw, Paradwys well,
Gorphwysfa 'r pererinion pell.

2 *Caerſalem* dêg, a chartre'm Duw;
Mae'r Ieſu a laddwyd yno'n fyw:
Yn awr y gwn fod yno gaingc,
Gan ſeintiau fil o ddautu 'r faingc.

3 Mi wela'm lle o fewn i'r llen,
A'm henw fry ar Garreg-wen;
Y Goron bur a ga'w'd trwy boen,
A gwaed y croeſhoeliedig Oen.

4 Pa bryd troi 'n ol *Iorddonen* ddu,
Gael myn'd yn frau i'r *Ganaan* fry;
Dan hyfryd wlith y nefol wlad,
Ga's Abram hŷ a'i ſanctaidd had.

5 Mi rof fy mhwys ar f' anwyl Griſt,
Nes paſſio glynn wyloſain driſt;
O nerth i nerth, mi ddof i'r wlédd
Sydd gan y ſaint, tu draw i'r bedd.

W. W.

HYMN XLVI.

Pererindod y CRISTION.

1 TRafaelwyr y'm i'r *Ganaan* glyd,
Lleſg Bererinion yn y byd;
Ni glywſom lais y'n gwawdd i'r nef,
I gael teyrnaſu gyd ag ef.

2 Yno mae 'n Ieſu ni a'n Tad,
A'n brodyr gwiw bwrcaſodd gwa'd;
Mae 'n henwau newydd yno oll,
Ar fynwes Criſt, nid awn ar goll.

3 Pa beth all mwyach ddwyn ein bryd,
Na 'n denu i aros yn y byd?
Ein hiraeth ni a'n ſyched yw
Cael myn'd i'r lan at deulu Duw.

4 'Rhyd anial ffordd rhaid myn'd ym mlaen,
O'r dywyll *Aipht* i'r *Ganaan* lân;
Er rhwyſtrau mawr, cawn fyn'd yn wir,
Ar fyrr, feddiannu 'r hyfryd dir.

5 Ymdrechu wnawn trwy nerth ein Duw,
Nes cael y wiſg a'r goron wiw;
O law 'n gelynion fyn'd yn rhydd,
A chatel yr uchel-gamp a'r dydd.

W. W.

HYMN

HYMN XLVII.

Esa. xxxv. 8.

Yna y bydd prif Ffordd, &c.

1 I'R nefoedd fry'r aeth Iesu gwiw,
Ynddo gobeithiodd *Israel* Dduw,
Ac fe balmentodd ffordd ddi-gryn,
O'r ddaear i fynu atto ei hun.

2 Y ffordd yr aeth Prophwydi 'mla'n,
A'r mil myrddiynau fu 'n y tân;
Swn torf aneirif eilwaith cawn
Ni glywed arni 'n beraidd iawn.

3 Ffordd sanctaidd bur heb ochna gwae,
Na's teithia neb annuwiol rai;
Gormesol ddyn 'rhyd hon ni ddaw,
A llew ni 's dring i'r nefoedd draw.

4 Crediniol ryw a gafodd ras,
O'r cystudd mawr i dd'od i ma's,
Yw'r gwaredigion mwynion cu,
Sy'n ffoi 'rhyd ffordd *Caersalem* fry.

5 A phe ynfydion fyddent hwy,
Ni chant ddim cyfeiliorni mwy;
Hwy ant ym mlaen trwy rin y gwa'd,
Nes d'od dan wlith i'r hyfryd wlad.

6 Fy Nghrist yw'r drws i'r nefoedd draw,
A'm Seren dêg i'm harwain daw;
Ysgol fy Nuw o'r ddaear i'r nen,
I ddringo o'r llawr tu fewn i'r llen.

W. W

HYMN XLVII.

Esaia xi. 6, 7, 8, 9.

ADDEWIDION.

1 DAW amſer braf, can's gwawrio bron
Mae haf-ddydd yr efengyl lon;
I'r 'nyſoedd pell, daw 'r tryſor drud,
A'i ſwn ar hyd eithafoedd byd.

2 Cair gwel'd y blaidd a'r oen ynghyd,
Y mynn a'r llewpard o'r un-fryd;
Y llo a'r llew, a'r 'nifail bras,
Mewn heddwch mawr heb gwympo ma's.

3 Bachgennyn bychan yn ei law,
A'u trin, a'u harwain yma a thraw;
Llid yn y rhai'n byth mwy ni bydd,
Yr anian newydd garia 'r dydd.

4 Y fuwch ynghyd â'r arth a bawr,
A'u llydnod fydd mewn heddwch mawr;
Anghofia 'r llew greulondeb cas,
Fel ych ſe bora wellt y ma's.

5 Y plentyn ſugno chwery 'n frath
Wrth dwll yr aſp, heb ofni brath;
'R hwn a ddiddyfnwyd heb ddim braw
Ar ffau y wiber rhydd ei law.

6 Diniwaid fyddant o bob rhyw,
Ar hyd holl fynydd ſanctaidd Duw;
Yn wirion iawn cyfnewid gras,
Y rhai fu gynt yn gyndyn cas.

7 Llamma fel hydd tros fryniau pell,
Cyflawna 'r addewidion gwell;
O galw d' etholedig had,
I brofi rhagorfreintiau 'th wa'd! *W. W.*

HYMN

HYMN XLIX.

Dymuniad y SAINT.

1 PE cawn ond teimlo 'r awel gref,
Aeth ag *Elias* gynt i'r nef;
Gadewn yn ol fy ngwisg o gnawd,
Ag *Eliseus* f' anwylaf frawd.

2 Pe meddwn arch hen *Noa* ddewr,
Nofio a wnawn 'rhyd diluw mawr;
Tu a phen *Ararat*, lle mae 'r fraint,
Y mynydd sy 'n orphwysfa i'r saint.

3 *Y nos pe cawn golofn dân,*
A niwl i'm harwain dydd ym mlaen;
O'r 'nialwch mawr mi ddown i ma's,
Nes landio trwy 'r *Iorddonen* las.

4 Pe cawn fel *Iago*, ysgol gref,
Gyrrhaeddai o'r ddaear i entrych nef;
Dringo a wnawn o'r byd i ma's,
Heb orphwys liw ar garreg las.

5 Gwynfyd gaf rodio gyd â Duw,
Fel *Enoc* ffyddlon, tra f'wyf byw;
Ehedeg wnawn o'r byd i ma's,
Heb ofni briw yr angau glâs.

6 Yn Penuel 'rwyt, fy enaid clyw,
Ymdrecha 'n dêg ag Angel Duw;
Pwy wyr na's caf cyn codi'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr.

W. W

HYMN L.

Salm cvii. 1, 2.

Clodforwch yr ARGLWYDD.

1 CLODFORWCH bawb ein Harglwydd Dduw,
Doed dynol-ryw i'w ganmol;
Ei hedd fel afon fawr ddidrai
Gaiff ddwfrhau ei boboł.

2 Ei air a'i ammod cadw wna,
Byth y parha ei ffyddlondeb,
Nes dwyn ei braidd, o'u poen, a'u plâ,
I hyfryd drag'wyddoldeb.

3 Ni altra ddim er gweled bai,
O fewn i'w rai anwyla';
Byth cofia waed Tywyſog nen,
A'i boen ar ben *Calfaria*.

4 Pan pallo ffafr pawb a'u hedd,
Duw o'i drugaredd odiaeth;
Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd a fydd
Ar gyfyng ddydd marwolaeth.

5 Gwaredigion ga'dd eu ryddhau,
O'u carchar a'u cadwynau;
Dadſeiniant gân trwy 'r nef a'r llawr,
Am ei fawr ryfeddodau. *W. W.*

HYMN LI.

Salm cvii. 3, 4, 5, 6, 7.

Ac a gaſglodd efe o'r Tiroedd.

1 YRhai a gaſglodd Duw ynghyd,
O eitha-'r byd a'i gyrrau;
O dir y Dwyrain mewn mawr hedd,
Gorllewin, Gogledd, Dehau.

2 Rhai o bob man, rhai o bob iaith,
Cenhedloedd maith ac achau;
Yn ddoeth, yn ffol, fe ddygodd Duw,
'Nghyd o bob rhyw gyflyrau.

3 Di-gyffur iawn flynyddau hir,
Mewn craf-dir anghynnefin;
Bob pryd mewn ofn mawr, a braw,
Rhag cwympo'n llaw eu gelyn.

4 Yn 'mofyn am yr hyfryd wlad,
Tir *Gilead*, yr hen *Eden*;
A'u tyb o hyd eu bod gerllaw,
I'r cchor draw'r *Iorddonen*.

5 Yn hyfed dyfroedd llwyd o'r llynn,
Yng ngwrefog ddyffryn *Baca*;
Yn gorfod yfed (nid o'u bodd)
O chwerwon ddyfroedd *Mara*.

6 Gofdegodd d'rannau *Sinai* draw,
Yr yfpryd braw, a'r ofnau;
Daeth â hwy i *Seion* dêg i fyw,
At Iefu gwiw a'i glwyfau.

7 *Iorddonen* wyllt fe drodd yn ol,
Gwnai'r gro fel dol-dir *Canaan*;
Nes daeth pob gwann, a llefg a llaith,
Trwy 'r dyfroedd maith eu huna'n.

8 Eu poen, a'u gwae yn felus trodd,
Oedd megis dyfroedd *Mara*;
'Nawr, bwyta maent foreu a nhawn,
O fyppiau'r grawn a'r *Manna*.

W. W.

HYMN

HYMN. LII.

DAT. XXI. 11, 16, 19, 20, 22, 23, &c.

CAERSALEM NEWYDD.

1 C'OD f' enaid gwann, yn ſuan gwel
Y wlad ſy'n lliſo o laeth a mel;
Gorphwysfa 'r rhai a ddaeth trwy ras,
O gyſtudd mawr y byd i ma's.

2 *Caerſalem* newydd, dinas Ner,
Bar'tow'd i'r ſaint uwchlaw y ſer;
Adeilad pur o aur di-goll,
Fel gwydr gloyw 'n ddiſglair oll.

3 Ei thêg rodfeydd, a'i ph'laſau fry,
A'i thyrau ſound yn hyfryd ſy';
Pob rhan o honi cyflawn yw
O ſanctaidd breſennoldeb Duw.

4 Ei huchel furiau wnawd i gyd,
O feini Jaſpis hardd a drud;
A deuddeg ſylfaen iddi cawn,
A rhai 'n o gerreg gwerthfawr iawn.

5 Ei phyrth o berl o ryfedd waith,
Aur yn palmento ei heolydd maith;
Ei llawr hi gwydr gloyw yw,
Yn ddiſglair lân o hyfryd liw.

6 Haul, lloer, a ſer, yma ni's cawn,
Gogoniant Duw ſydd ynthi 'n llawn;
Yr Oen fu â'i waed yn llu i'r llawr,
Sydd yn diſgleirio 'r ddinas fawr.

7 Y gwaredigion oll o'u bron,
Sy 'n rhodio yng ngoleuni hon;
Tywyſogion a brenhinoedd byd,
Ddwg eu hanrhydedd iddi gyd.

W. W.

HYMN LIII.

Yr Ail RAN.

1 O FLAEN y faingc mil miloedd mae,
Pwrcas ei waed, ei chwys, a'i wae;
Y dyrfa fawr fu gynt ar goll,
Yn awr yn gorfoleddu oll.

2 Mae yno hen Brophwydi hŷ,
Gynt wedi dringo i'r nefoedd fry;
Yn hardd eu lliw mewn gynau lla's,
Yn ddiſglair fel y gwydr glas.

3 'R hen Wiliedyddion yno y'nt,
'Nghyd â'r Offeiriaid ſanctaidd gynt;
Y Patriarchiaid oll i gyd,
Fu'n Bererinion yn y byd.

4 Rhai gwaredigion *Iſrael* ſy',
O bob rhyw lwyth yn moli fry;
Caethion o'r *Aipht*, o *Babel* fawr,
Ac o *Aſſyria*, ſ'yno 'nawr. *W. W.*

HYMN LIV.

Y Drydydd RAN.

1 YNO mae'r Apoſtolion mawr,
A'u gwiſgoedd llaes hyd at y llawr
Yn canu'n beraidd i Fab Mair,
Am dorf a gredodd yn eu gair.

2 Myrddiynau o Ferthyron hŷ,
A wna'w'd trwy dân yn ulw du;
Yſgubion byd ddioddefodd bo'n
Dros air Duw, ac efengyl Ion.

3 Babanod bychain yno ſy',
Fu ſeirw'n ddiſtaw yn y bru;

A rhai

A rhai ddifethodd cleddau glas,
Yn newydd dd'od o'r groth y ma's.

4 O flaen y faingc mae tyrfa faith,
O bob rhyw bobloedd, llwyth a iaith;
Yn awr yn cael heb boen na briw,
Wyneb yn wyneb weled Duw.

W. W.

HYMN LV.

Y Bedwarydd RAN.

1 WEL dyma hwy'r gadwedig hil,
A gadwodd ar y llwybyr cul;
Trwy fôr o wae, trwy 'ſtorm o wynt,
Y buont hwy yn teithio gynt.

2 Hwynt-hwy ga's heddwch gan y Tad,
Hwynt-hwy a gannwyd yn y gwa'd;
Hwynt-hwy yw'r llu ſy' o ddeutu'r faingc
Yn canu'r waredigol gaingc.

3 Eu dagrau oll a ſychwyd ffwrdd,
Galar a thriſtwch byth ni's cwrdd;
Ni ddaw marwolaeth mwy, na phoen,
I ŵydd y croeſhoelledig Oen.

4 Coronau ar eu pennau gair,
Ac yn eu dwylaw d'lynau aur,
Yn canu Haleluia'n hŷ,
Nes dadſain yr holl nefoedd fry.

5 Gwyn fyd ſ'ai 'mhlith y miloedd myrdd,
Sy'n awr yn gwiſgo 'u palmwydd gwyrdd;
O Arglwydd da! dywed a ga'i,
I fod yn un o'r diſglair rai.

W. W.

HYMN LVI.

RHYDD-DID.

1 DY lwybrau di y'nt hyfryd iawn,
Dy ffyrdd y'nt lawn hyfrydwch;
Nac amlder ŷd, neu win fy Nuw,
Meluſach yw dy heddwch.

2 I ni oedd gaeth, rhoiſt rydd-did bra',
Daeth Jubil gwaredigion;
Rhwygaſom len trwy rinwedd gwaed,
Mae 'n dwylo a'n traed yn rhyddion.

3 Mae'n traed yn awr ar wddf y ddraig,
Trwy had y wraig ſy'n eiriol;
Awn gan fod Ieſu ar ein rhan,
I'r lan, i'r lan yn wrol.

4 Ymlaen heb ffoi trwy gyflawn ffydd,
Tra fyddo 'r dydd yn para;
Pob un ac ſydd â ſicr ſail,
Yn haeddiant yr ail *Adda*.

W. 'W.

HYMN LVII.

CAN. VIII. 5, 6, 7, 13, 14.

Y Briod-ferch yn pwyſo ar ei HANWYLYD.

O'r Dr. *WATTS*.

1 OPWY yw hon ſy'n lleſg a gwann,
O'r anial fyd yn d'od i'r lân?
Gan faint ei bai blinedig yw,
Yn pwyſo ar ei hanwylyd gwiw.

2 Hon

2 Hon yw priod-ferch Criſt ein Duw,
Gwerth gwaed ei galon dyner yw;
Mae'n pledio ag ef, braf yw ei braint,
A'i phle ſy'n un â phawb o'r ſaint.

3 " 'Sgrifenna'm henw'n ddiſglair iawn,
" Rhwng dy ddwyfron mewn geiriau llawn,
" Er mwyn fy nghadw'n lân rhag braw,
" 'Sgrifenna fe eilwaith ar dy law.

4 " Sel fi ar dy fraich yn nod dilyth,
" Fy mod yn briod i ti byth;
" Gwiſg fi yno'n arwydd iddynt hwy,
" Na's galli fy anghofio i mwy.

5 " Cryfach nac angau, trech na'r bedd,
" Yw nerth dy gariad, a dy hedd;
" Digofaint Duw fel afon gref,
" A ffaelodd a'i ddiffoddi ef.

6 " O! tyr'd f' Anwylyd, bryſia, bydd
" Yn awr fel iwrch, neu lwdn hydd;
" Nac oeda, ond tyred i maes o law,
" Dros fynydd y per-lyſiau draw."

W. W.

HYMN LVIII.

2 Sam. vii. 14.

Mi a fyddaf iddo ef yn Dad, &c.

1 PAROD yw'n Duw i faddeu bai,
Sydd yn ei rai anwyla';
Fel ffyddlon Ffrynd, neu dirion Dad,
Yn waſtad fe a'u cara.

2 Canfod y mae ef ym mhob man,
Ein bai, a'n hannoethineb;
Ei feibion y'm, ei ras barha
I eitha' trag'wyddoldeb.

3 Fe'n

3 Fe'n c'rydda am ein beiau ar g'oedd,
Cawn yfed dyfroedd *Mara*;
Cyſtuddiau o newydd ddaw bob cam,
I'n cwrddid am y cynta'.

4 Ond ficr yw y peri byth,
Ei ddilyth addewidion;
Nid nef nac uffern, newid farn,
Creawdwr cadarn cyfion.

5 Nid yw ei gerydd e'n parhau,
I ddyddiau trag'wyddoldeb:
Gyd â'i ffonnodiau gwnn y ca',
Drugaredd a thiriondeb.

W. W.

HYMN LIX.

2 Cor. iv. 17.

Canys ein byrr yſgafn Gyſtudd, &c.

1 OS yw'n gofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd;
O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troi 'r triſtwch yn orfoledd.

2 Pwy fwya gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn yn lle'n cyſtudd byrr a'n crwys
Drag'wyddol bwys gogoniant.

3 Fe orfu in' deithio, nid o'n bodd,
Trwy filoedd o flinderau;
Gan-waith bu'n tyb na ddoi'n uweh nen,
Byth, byth i ben ein ſiwrnai.

4 Ni orphwyſwn mwy, nes dringo'n llawn
I'r man y cawn breſwylio;
I'r lan i ben y tawel frynn,
Mae miloedd yn diſgleirio.

5 Aneirif

5 Aneirif dorf, a chyſſon gor,
Angylion o'r diſgleiria';
Seraphiaid pur, a'r Saint yng nghyd,
Sy'n ſeinio eu gyd *Hoſanna.*

6 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
Holl chwerwon ddyfroedd *Mara*;
Pryd hyn y try pob chwerw nant
Yn win i blant Jehofa.

W. W.

HYMN LX.

SALM XIV. 10, 11.

Priodas-ferch y BRENHIN.

1 CLYW hyn, O ferch! a hefyd gwel,
Ac â chluſt iſel gwrando;
Mae 'n rhaid it' ollwng pawb o'th wlad,
A thŷ dy Dad yn ango'.

2 'Ry's am dy gael dros foroedd pell,
I wlad ſydd well i drigo;
Lle mae dy Brynwr gwridog, gwyn,
Anwylaf yn preſwylio.

3 Gad yna'r byd, ynghyd â'i dda,
Ei wagedd a'i deganau;
Pechod, a phleſer o bob math,
D' eilunod a'th gariadau.

4 Rho'th ſerch a'th gariad, rho ſe 'n rhwydd,
Ar Arglwydd yr arglwyddi;
Y Tywyſog brafa' o bob rhai,
Ar ddeng-mil mae 'n rhagori.

5 Yna bydd gan y Brenhin gwych,
Gael edrych ar dy burdeb;
Fe 'th gar o ddyfnder calon, gwna
Hyd eitha' trag'wyddoldeb.

W. W.

HYMN

HYMN LXI.

SALM LXXXIV. 1, 2.
Mor hawddgar yw dy BABELL.

1 DY Babell di mor hyfryd yw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd!
Mynych chwennychais weled hon,
Rhag mor dra thirion ydoedd.

2 Y man b'oft di, boed frynn, neu fro,
Sydd gyflawn o ddiddanwch;
Yn dy gynteddau 'n wastad mae,
Rhyw for didrai o heddwch.

3 Sawl deig i'th dŷ gaiff yn ddi-dra,
Dy gariad a dy ffafar;
Cant hwy ymborthi ar fath ffar,
Sy 'n nefoedd ar y ddaear.

4 Fy enaid, flyfia im' fyn'd ar frys,
I'th gyflegr-lys yn hylwydd;
Mae'm calon fach, a'm cnawd bob cam
Yn gwaeddi am yr Arglwydd.

5 Am ddoed i'th wydd 'rwy' nos a dydd,
Fel hydd lluddiedig gwirion;
A red dan fresu 'mlaen bob cam,
I 'mofyn am yr afon. *W. W.*

HYMN LXII.

ADNOD 6. *Y rhai yn myned trwy Ddyffryn BACA, &c.*

1 PE b'ai yn gorfod ar y rhai 'n,
'Rhyd glynn wylofain dramwy;
Gofodir ffynnon iddynt hwy,
A'r gwlaw a'i lleinw fwy-fwy.

2 Mewn

2 Mewn dyrys dir, ac anial daith,
Yng nghanol maith anialwch;
Cant fanna'r nef, cant ddyfroedd pur,
Sef ffrydiau o wir ddiddanwch.

3 Pan f'o'r annuwiol fyd o'i fron,
Mewn dyfnion gyfyngderau;
Fe weryd Duw hwynt-hwythau gwna,
O'u trallod, a'u cyftuddiau.

4 Pa fwyaf b'o eu cyfyngder hwy,
Bydd fwy-fwy eu cyffuron;
Eu hedd melufach na'r dil-mel,
A lifa fel yr afon.

5 Er gorfod teithio yng ngwres y dydd,
Tros greigydd o'r diffeitha';
Ni chaiff bod fyched ar un gwr,
Cant ganddo ddw'r eu gwala.

W. W.

HYMN LXIII.

ADNOD 7. *Ant o Nerth i Nerth*, &c.

1 ANT rhagddynt bawb o nerth i nerth,
Nes cael yn brydferth ddyfod,
I 'ddangos i Dduw ger ei fron,
Yn *Scion* ei breſwylfod.

2 Trwy 'fonydd mawrion, dyfnion, du,
Ym mlaen heb ofni gronyn,
Gan ddringo creigydd mawrion ſerth
I'r lan trwy nerth eu brenhin.

3 Rhyfelant â gelynion gad,
Trwy rinwedd gwa'd eu Cadpen;
Concwerant, lladdant ar bob llaw,
Nes myn'd tu draw'r *Iorddonen*.

4 Lle derfydd byth eu poen, a'u gwae,
Eu trallod, a'u cyſtuddiau;
Cant ganu yn y nefoedd wen,
Yn iach ar ben eu ſiwrnai. *W. W.*

HYMN LXIV.

Rhyfeddu rhad Ras.

1 WRTH feddwl am dy ryfedd waith,
A dyfnder maith dy gariad;
I eigion môr â'm henaid gwann,
Nes ffaelwy'r lan a dringad.

2 Pa'm ceraiſt fi, d'wed un o fil
O ganol hil 'lygredig?
Wrth natur f' aeth fy ngwell heb lai,
I blith y rhai damnedig.

3 Glyned fy nghalon bellach byth,
Duw, wrth dy ddilyth eiriau;
Fel teithwy 'n hoyw 'mlaen o hyd,
Yn union 'rhyd dy lwybrau.

4 Fy enaid yn dy glwyfau boed,
Mi 'th garaf doed a ddelo,
Nes delwy' mewn i'th nefoedd glyd,
O gwyn ei fyd f'ai yno!
W. W.

HYMN LXV.

PERERINDOD.

1 MAE'r manna gwedi ei gael,
Mewn dyrys anial dir;
Ymborthi caf ond myn'd ym mlaen,
Ar ſfrwythau'r *Ganaan* bur.

Mae

Mae yno fyppiau grawn,
Yn llawn o fewn i'r lle;
O Ffrynd trofeddwyr! moes dy law,
A thynn fi draw i dre'.

2 Mi fentra' 'mlaen yn hŷ,
Gan gyrchu at y nôd;
Mi gefais, do im' ffyddlon Dyſt,
Fe erchodd Criſt im' dd'od:
Fy mhechod ymaith tynn,
Mae'n eiriol yn y ne';
O Frynd trofeddwyr! *&c.*

3 Fy hyfrydwch yw dy waith,
A'm pleſer yn y byd;
Mae hiraeth llwyr yn f' enaid llaith,
Am wel'd dy wyneb-pryd,
Cael hefyd roi fy mhwys,
A gorphwys ar dy dde';
O Ffrynd trofeddwyr! *&c.*

4 Wrth feddwl am y wlad
A rag-bar'tow'd i'r plant,
A chyflawn degwch fy Nhad;
Mae ar fy nghalon chwant
I landio uwch y nen
Tu draw'r *Iorddonen* gre';
O Ffrynd trofeddwyr! *&c.*

5 'Rwy'n gweled trwy fy Nuw,
Congcweraf fyd a chnawd;
Oddi tan ei aden gwnaf fy nyth,
Ni fyddaf fyth yn dlawd:
Mae'm hetifeddiaeth wych
O fewn i entrych ne';
O Ffrynd trofeddwyr! moes dy law,
A thynn fi draw i dre'.

W. W.

HYMN LXVI.

Byw i mi yw CRIST, &c.

1 GOFIDUS ddyddiau 'm pererindod,
Sydd ar ddarfod yn ddilai;
Ffarwel yfed dyfroedd *Mara*,
I ddinas arall 'rwy 'n neſau:
Teimlo f' enaid 'rwy 'n ymadael,
A'r creaduriaid ar y llawr;
Fy hiraeth beunydd f' am fyn'd adre',
I'r dedwydd drag'wyddoldeb mawr.

2 Wyneb ſiriol fy Anwylyd
Yw fy mywyd yn y byd;
Ffarwel bellach bob eilunod,
Ieſu Mhriod aeth â'm mryd:
Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
Ffrynd mewn môr o ofid yw;
Ni chais f' enaid archolledig
Neb yn feddyg, ond fy Nuw.

Morgan Rhys.

HYMN LXVII.

Ymdaith o'r AIPHT i GANAAN.

1.

I'R *Aipht* daeth Ieſu'm gwared o dir caethiwed du,
Yſpeiliodd yr holl *Aiphtiaid*, rh'odd dlyſau têg i mi;
Des â llaw uchel allan, dihangais rhag y pla,
Yn y cyfyngder mwyaf, mi brofais Dduw yn dda.

2.

Pan oedd hên *Pharao* greulon, ar f'ol yn gyrru'n hŷ,
A minnau mewn cyfyngder heb obaith o un tu;
Fe chwariodd rhagluniaethau yr Hollalluog Dduw,
Fe dreſnodd ffordd i'm cadw er gwaetha *Pharao*'n fyw.

3 Ce';

3.

Ce's ddw'r o'r graig i yfed i dorri'm fyched mawr,
Ce's beunydd fara i fwyta o'r nef y daeth i lawr;
Ce's delyn tu yma i angau (fy holl elynion ffodd)
I ganu i'r Oen fu farw, mae 'n Briod wrth fy modd.

4.

Goftegodd d'ranau *Sinai* ni chlywaf mwy o'u 'ftŵr,
Cyfiawnder g'as ei dalu gan Iefu, canol Wr;
Gwir heddwch wy'n feddiannu ynghlwyfau'r Oen heb fraw,
Daeth Iefu o'r bedd i fynu a'm pardwn yn ei law.

5.

Trwy waed a chlwyfau Mrenhin ce's berffaith wir iachad,
Fe glydodd *Amalecioid* fyrddiynau tan fy nhra'd;
Hên *Og* a chewri *Bafan*, gwympafant oll gan fraw;
Holl frenhiniaethau *Canaan* r'odd Iefu dan fy llaw.

6.

'Nol treuliwyf yn y bywyd flynyddau rif y gwlith,
Ym mhlith y dorf na fedr un tafod rifo fyth,
Yn gwel'd yr Oen fu farw, i'm cadw cyn fy mod,
Bydd cân mor felus i mi, a'r funud gynta' 'rio'd.

M. Rh.

HYMN LXVIII.

Am y FARN.

1.

CAned y genedl gyfiawn ddaeth Iefu i'w rhyddhau,
Mi wela'r dydd yn dyfod, y derfydd galar rhai;
Mae f' enaid gwann yn credu caf fod yr ochor draw,
Ym mhlith y dorf aneirif caf delyn yn fy llaw.

2.

Pan droir yr haul yn d'wyllwch a'r lleuad wen yn waed;
Y ddaear fawr gwympafog i grynu dan fy nhraed;
A ffer y nef i fyrthio o eitha 'r nen i lawr,
Pob llygad wel fy Mhriod yn dyfod fel y wawr.

3.

Arch-angel gân pryd hynny, nes crynu'r ddaear ddu,
Y floedd a glyw y meirw sy'n gorwedd yn ei bru,
Eu llwch er maned ydyw rhaid codi a d'od ynghyd,
Gwyn fyd a welai Mhriod ar fyrr yn barnu'r byd.

4.

Y beddau tywyll egyr oll ar y foreu wawr,
Y seintiau'n anllygredig gyfodant fach a mawr,
Ar wedd Tywysog heddwch, heb un dan glwyf na phoen,
'Does tafod all synegi rhagorfraint gwraig yr Oen.

5.

Y cariad 'rwyf fi'n deimlo at Silo Brenhin hedd,
Sy'n peri'm cnawd a'm hesgyrn, hiraethu am y bedd;
Perffeithrwydd glân dibechod, feddiannai draw ynhre',
Gwyn fyd a welai Mhriod fry ar gymmylau 'r ne'.

6.

Hâd *Jacob* ddaw pryd hynny o eitha' cyrrau'r byd,
Gorllewin, Gogledd, Deau a'r Dwyrain oll ynghyd,
A'u t'lynau yn eu dwylo, mewn disglair ynau gwynn,
I ganu i'r Oen fu farw ar ben *Calfaria* frynn.

7.

Bydd torf aneirif yno, o bob rhyw lwyth ac iaith,
Na feder tafod rifo i drag'wyddoldeb maith;
Rhif tywod mân y moroedd, neu 'r aml sêr sydd fry,
Gwynfyd a welai Mhriod yn dyfod gyd â'i lu.

M. Rh.

HYMN LXIX.

Gwynn fyd y Meirw yng NGHRIST.

1.

OGwynfyd *Abra'm* hyfryd sy'n nhir y bywyd draw,
Dafydd frenhinol Brophwyd, sy' â thelyn yn ei law;
A'r dorf fawr o ferthyron mewn gynau gwynion hardd,
Can mil yn swy dedwyddol, nac *Adda* yn yr ardd.

2 *Job*

2.

Job fu gyſtuddiol ſ' yno, tu draw i ddinas gwae,
Fe ddarfu dyddiau ei alar, mae'n awr yn llawenhau,
Ym mhlith y dorf ddigyfrif, rifedi gwlith y ma's.
Sy 'n canu i'r Oen (a laddwyd) am waredigol ras.

3.

Mae 'r hên *Fanaſſe* yno yn canu 'r ſunud hon,
I'r Tri yn Un trag'wyddol, bob amſer ger ei fron;
Jerem oedd fawr ei alar ſy'n canu'n llafar glod,
A *Ioan* ſy'n canmol cariad ddechreuodd cyn ei fod.

4.

Mae *Moeſen* fwyn ac *Eli* fry yn rhyfeddu Duw,
Hên *Enoc* ac *Elias* ſy'n gwel'd ei wyneb gwiw;
Paul mawr y gwych Apoſtol, O wynfydedig ſaint!
Gwyn fyd f'ai yn y bywyd yn cyd-feddiannu'r fraint.

5.

Gwyn fyd y rhai ddiangodd o gyſtudd mawr y byd,
F' enaid ſydd yn griddfan, wrth wel'd y dyddiau cyd;
Caf gyflawn ſuddugoliaeth ar bechod, a phob pla,
Dros fyth yn un â'r teulu ſy 'n moli 'm Ieſu da.

M. Rh.

HYMN LXX.

Diogelwch yng NGHRIST.

1 ARGLWYDD graſol dyro gymmorth,
I gyhoeddi etto i ma's,
Ddyfnder calon dyn truenus,
Ac anfeidrol olud gras:
Fel b'o dyfnder, fel b'o dyfnder,
Fyth am ddyfnder, yn cael ſôn.

2 O's trwy filoedd o gyſtuddiau,
Rhaid im' etto fentro 'mlaen;
Yn dy allu af trwy'r dyfroedd,
Yn dy allu af trwy'r tân:
Noddfa i mi, *&c.*
Bydd dy hunan, Arglwydd mawr.

3 Tan dy gyſgod, Craig yr oeſoedd,
Yn gyſſurus gallaf fyw;
Fy unig gyſſur tan y neſoedd
Yw dy fod i mi'n Dduw:
Digon i mi, &c.
Yw dy wyneb gwridog gwynn.

4 Dal fy yſpryd yn y rhyfel,
Dal fy llygaid arnat ti;
Tan dy aden gallaf ganu,
A gorchfygu'r llewaidd lu:
Mi anturia, &c.
Etto i'r frwydyr yn dy law.

5 Noddfa i mi yn y 'ſtorom,
Buoſt Arglwydd, hyd yn hyn;
Amddiffynfa yn y frwydyr,
Maeddaiſt droſwyf ar y brynn:
Tan dy gyſgod, &c.
Ffoaf rhag y llid a fydd.

M. Rb.

HYMN LXXI.

Creaduriaid o bob Iaith yn griddfan ar yr ARGLWYDD.

1 CREAWDWR y gre'digaeth faith,
Clyw dy gre'duriaid o bob iaith,
Yn griddfan arnat, Arglwydd Dduw;
Agor dy Hollalluog law,
Diwalla d' eiddo yma a thraw,
Ac yn dy gyfraith gwna i ni fyw.

2 Datguddia'r iachawdwriaeth rad,
O ddydd i ddydd, i werth dy wa'd,
Ei bwrcas maith anfeidrol drud;
Eheded yr efengyl bur
Dros holl derfynau môr a thir,
Dy brynedigion galw 'nghyd.

Fe welir *Seion* fel y wawr,
Er tlotted yw ei gwedd hi'n awr,
Yn d'od o'r cyſtudd mawr i'r lann
Heb glaf na chlwyfus yn ei phlith,
Yn y cyſiawnder dwyfol byth,
Saif yn y diwedd ar ei rhann.

4 Pan loſgo'r dda'ar, a threulio'r nef,
Fe ſaif ei eiriau ffyddlon ef,
Yr un i drag'wyddoldeb ddydd;
Pan d'wyllo'r haul a gwridio'r llo'r
A ſyrthio'r ſêr a ſychu'r môr,
Fy Nuw i drag'wyddoldeb fydd.

M. Rh.

HYMN LXXII.

1 Cor. ix. 24.

Rhedwch fel y caffoch Afael.

I'R ddaear a'i gwagedd ni ganwn yn iach,
Awn dros yr *Iorddonen* oll 'mhen gronyn bach;
Ni redwn yr yrfa trwy ddyfroedd a thân,
Mae'r goron a'r palmwydd a'n Priod o'n bla'n.

2 Ffarwel dai a thiroedd ac arian ac aur,
Tryſorau ſy'n darfod ni gawſom Fab *Mair*;
Mae pob awdurdod trwy'r nefoedd a'r llawr,
Yn llaw ein Hanwyliyd ardderchog yn awr.

3 O ddydd i ddydd yma mae drain yn ein nyth,
I'n gyrru i'r deyrnas bar'tow'd i ni byth;
Meluſach croes Ieſu na choron y byd,
Ei wyneb yw'r nefoedd bereiddlon i gyd.

4 Mae miloedd yn d'rogan yr â *Seion* yn ddim,
Mae hithau'n gorchfygu yn 'chwaneg ei grym;
Mae'r môr a'r *Iorddonen* a'r haul yn ddi-boen
Yn chwarae o ochor priodas-ferch yr Oen.

5 Ffarwel

5 Ffarwel i anrhydedd i eſmwythder y byd,
Pleſerau ſy'n darfod ffarwel i chwi gyd;
Gwenhieithwyr a thwyllwyr, trigolion y llwch,
Ni gawſom y Cyfaill a'ch maeddodd o'r trwch.

M. Rh.

HYMN LXXIII.

Digonolrwydd Aberth CRIST.

1 FY enaid a lewygai, ni allwn godi mhen,
Oni bai 'r un a dalodd fy nyled ar y pren;
'Does dim a gliria 'ogrwydd pechod dynol-ryw,
Ond gwaed y Cyfiawn hwnnw fu farw i ni gael byw.

2 Ei 'nabod ef yw'r bywyd, trag'wyddol fywyd yw,
Gwir iechyd a happuſrwydd, gogoniant dynol-ryw;
Yng ngwedd ei wyneb firiol tangnefedd i mi'n awr
Na allaf ddatgan allan i drag'wyddoldeb mawr.

3 Y Cyfaill goreu welodd fy enaid yw e'n wir,
Fe 'm prynodd ar *Galfaria* tan eitha' poen a chur;
Fe fethodd da'ar ac uffern, a'r nefoedd faith ei hun,
Ddifetha dim o'r cariad ynghalon Duw at dyn.

4 Y dafnau gwaed a chwyſodd ef droſom ar y llawr,
Sy'n cael eu dadleu'n uchel o flaen y faingc yn awr;
O'r groth i ben *Calfaria* ei ddioddefaint ef,
Sy'n cael ei bledio droſwyf ynghanol nef y nef.

5 Er gwaetha'r maen a'r gwilwyr cyfododd Ieſu'n fyw,
Daeth yn ei law alluog â phardwn dynol-ryw;
Gwnaeth' etifeddion uffern, yn etifeddion nef,
Fy enaid byth na thawed a chanu iddo ef.

6 Fe 'i gwelir ar y cwmmwl yn dyfod cyn b'o hir,
A'i ddedwydd waredigion, ffrwyth ei ddioddefaint pur;
Bydd Gogledd, De' a Dwyrain, Gorllewin faith yn un,
Oll yn eu gynau gwynion yn moli Mab y dyn.

HYMN LXXIV.

CYFAILL ſydd well na BRAWD.

1 MI gefais Gyfaill ffyddlon, ni byddaf byth yn dlawd,
Sef Cyfaill yn y 'ſtorom, pan metho chwaer a brawd;
Gwnaeth ſegcr oedd garcharor, â gwaed ei groes yn rhydd,
Mi lechaf tan ei gyſgod ef yn y tanllyd ddydd.

2 Mae arnaf rwymau i'w ganmol, pe byddai pawb yn fud,
Boed iddo'r holl ogoniant, Iachawdwr mawr y byd;
O ddugn ddamnedigaeth gwaredodd f' enaid triſt,
Rho'ed holl hiliogaeth *Adda* y clod i Ieſu Griſt.

3 Ffarwel ſy hên gariadau o'r Dwyrain faith i'r De',
Ni feddaf gâr na chyfaill yn ffyddlon fel efe;
Mae'n medru cyd-ymdeimlo â'r gwaelaf o lwch y llawr,
A charu heb gyfnewid i drag'wyddoldeb mawr.

4 Fy Nuw o drag'wyddoldeb i drag'wyddoldeb maith,
Yr unig un a'm carodd, ddechreuodd ynof waith;
A bery pan ddarfyddo'r greadigaeth fawr ynghyd,
Efe yw'r un ſy'n maddeu fy anwireddau i gyd.

5 Yr Oen ar ben *Calfaria* ogwyddodd droſwy'i ben,
Fy Mhrynwr anwyl talodd fy nyled ar y pren;
Griddfannau *Gethſemane*, och'neidiau *Calfari*,
Fydd cân y gwaredigion i drag'wyddoldeb ſry.

M. Rh.

HYMN

HYMN LXXV.

CRIST yn Frynd i mi, pan oedd pob peth yn pallu.

1 FY Nuw, a'm Tad trugarog, ſydd deilwng o bob clod,
Rhyfeddol fu dy ofal am danaf fi erio'd;
Mewn myrdd o gyfyngderau ti fuoſt im' yn Ffrynd,
Pan oedd pob peth yn pallu, o'm golwg wedi myn'd.

2 'Rwyt ti yn llawn toſturi at bechaduriaid gwael,
Toſturiaiſt wrth *Manaſſe*, toſturiaiſt ti wrth *Saul*;
Magdalen falch gythreulig, y bechadures fawr,
Toſturia wrthyf finnau, y gwaetha' o lwch y llawr.

3 'R wy'n coſio *Bartimeus*, yn llefain ar dy ol,
Yn gwaeddu am ei olwg, ynnillodd hwnnw'r gol,
Rho'eſt iddo ei ddymuniad a hefyd lawer mwy,
O maddeu! maddeu i minnau, a chuddia fi yn dy glwy'.

4 Cyfaddef 'r ydwyf Arglwydd, y goſp yn llai nâ'm, bai,
A'th fod di mewn cyfyngder yn arfer trugarhau;
Trugaredd rho im' etto, bechadur gwael ei lun,
A chymmer y gogoniant i gyd i ti dy hun.

5 O gwel fi yn fy nghyſtudd! dy wael anufudd was,
Yn griddfan am drugaredd, yn brefu am dy ras,
A hollol waredigaeth o'm holl drueni triſt,
A chalon rydd i garu a chanmol Ieſu Griſt.

6 Mae hiraeth yn fy nghalon am wel'd y ſaint i gyd,
'Rwy'n profi mwy o hiraeth am wel'd fy Mhrynwr drud;
Rho wel'd dy wyneb gwridog a phrofi'th nefod hedd,
Cyn i mi orwedd obry yn nhywyll byrth y bedd.

7 Gwaſgara'r

7 Gwaſgara'r tew gymmylau oddi yma i dŷ fy Nhâd,
Datguddia i mi beunydd y iechydwriaeth râd;
O dywed wrth fy enaid mai ti byth yw fy rhann,
Y caf fynediad helaeth i'r bywyd yn y man.

8 O Dduw! 'rwyf am gael gwybod a alwyd fi erio'd,
O's wyf yn un o'th ddefaid, datguddia im' dy nôd;
O dywed âit dy hunan wrth f'enaid clwyfus trift,
Dy fod yn maddeu'm beiau yng nghlwyfau Ieſu Grift.

M. Rh.

HYMN LXXVI.

Efe yw fy MRENHIN a'm PROPHWYD.

1 FY Mrenhin, a fy Mhrophwyd, a'm 'Ffeiriad mawr ei ddawn,
O dyſg fi rodio 'r llwybr ſydd gûl a dyrys iawn;
A chadw ngolwg beunydd at gamrau'r ſaint o'r bla'n,
A rhoi ffarwel drag'wyddol i'r byd ſ'ar ſyn'd yn dân.

2 O's gwelir f' enaid eiddil ar fryniau *Seion* fry,
Bydd gennyf faith ryfeddu ym mhlith nefolaidd lu,
Yn holl-iach gyd â'r teulu ſy'n canu'r nefol gaingc,
I'r Oen i drag'wyddoldeb, o flaen yr orſeddfaingc.

3 Mae *Abr'am* ffyddlon yno, ac *Iſaac* ufûdd iawn,
A rhif y ſêr o ſeintiau yn yr orphwyſfa lawn;
Yn canu ar delynau, ſoniarus nefol dôn,
Pob ergyd fel eu gilydd mai teilwng ydyw'r O'n.

4 Mae 'r hên *Fanaſſe* yno a'i goron ar ei ben,
Ym mhlith y llu ſy' â'u palmwydd yn llawen uwch y llen;
Mae *Paul* yn canu'r anthem, 'does un o'r teulu'n fûd,
Ond moli am yr uwchaf Iachawdwr mawr y byd.

5 Gwynfyd

5 Gwyn fyd y llu ddihangodd o'r cyſtudd mawr a'r poen,
Fry yn eu gynau gwynion ſy'n moli'r anwyl Oen;
Pe meddwn innau aden, ehedwn i i'w plith,
Gorphwyſwn tan ei gyſgod, ſef Pren y Bywyd byth.

M. Rh.

HYMN LXXVII.

Ymffroſt y PERERINION.

1 WEL, dyma 'r Pererinion dewr,
Achubwyd yn y 'ſtormydd mawr;
Dan *Sinai* fe 'i cynhaliwyd hwy,
Pwy elyn a'u gorchfyga mwy?

2 Dyma 'r rhai garodd Duw cyn byd,
Ac yn eu caru mae o hyd;
Yn rhâd maddeuodd beiau 'r rhai 'n,
A'i gwiſgodd oll â lliain main.

3 A gwaed yr Oen eu prynu wna'w'd,
Eu henwau ym mhlith y ſaint a ga'w'd,
Hwy a gyfrifwyd yn ddilai,
O rif y bendigedig rai.

4 Ieſu yw eu Eryrd, a'u Prynwr drud,
Eu Tŵr a'u Tryſor yn y byd;
Eu harch ſe'u caria maes o law,
Yn ddiogel trwy farwolaeth draw.

6 Pwy ſatter yw i rhai 'n i gyd,
Gael eu dirmygu gan y byd;
Eu henwau da, a'u pareh, a'u bri,
Sy' 'nghadw yn y nefoedd fry.

W. W.

HYMN

HYMN LXXVIII.

Ioan xii. 21.

Syre, ni a ewyllysiem weled yr IESU.

1 IESU, difyrrwch fy enaid drud
Yw edrych ar dy wedd,
Ac mae llyth'rennau, ac mae llyth'rennau,
Ac mae llyth'rennau dy enw pur,
Yn fywyd ac yn hedd.

2 O cae fy llygaid rhag im' wel'd
Pleserau gwâg y byd,
Ac i mi wyro byth oddiar
Dy lwybrau gwerthfawr drud.

3 'Does gennyf ond dy allu mawr,
I'm nerthu i fyn'd ym mla'n;
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy nghongcwest a fy nghân.

4 Meluſach nac yw y diliau mêl,
Yw munud o'th fwynhau,
Ac nid oes gennyf bleſer fydd,
Ond hynny yn parhau.

W. W.

HYMN LXXIX.

Ymofyn am yr IESU.

1 RWY'n edrych dros y bryniau pell,
Am danat bob yr awr;
Tyr'd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.

2 Trodd fy nghariadau i oll eu gyd,
'Nawr yn anffyddlon im' ;
Ond yr wyf finnau'n hyfryd glaf
O gariad mwy ei rym.

3 Cariad na 'nabu plant y llawr,
Mo'i rinwedd nag o'i ras,
Ac ſydd yn ſugno'm ſerch a'm bryd,
O'r creadur oll i ma's.

W. W.

HYMN LXXX.

Na chynſigennwch wrth weled yr Annuwiol yn cael ei bleſer.

1 NI chenſigenna' i y rhai ſy'n cael
Eu holl bleſerau i ben ;
Y mae ſy Mhriod a ſy Nuw
A'm pleſer uwch y nen.

2 Fe aeth teganau'r ddaear hon,
Yn ſy ngoleuni 'n ddim ;
Ond 'rwy'n cael pleſer yn ei wedd,
Sydd lawer mwy ei rym.

3 Fy ymffroſt gaiff fod am ei ras,
A'm nefoedd fydd ei hedd ;
Ac mi orweddaf gyd ag ef,
Yn ſoddlon yn y bedd.

4 Gadawodd y llieiniau'n ol,
Yn arwydd i myſi ;
Na raid wrth wiſgoedd o un-rhyw,
Yn y baradwys ſry.

W. W.

HYMN

HYMN LXXXI.

Can. ii. 1, &c.

RHOSYN SARON.

1 F' Anwylyd ſydd fel lili hardd,
Hyfryda' erioed ei liw;
Ag ſydd yn maeddu, ag ſydd yn maeddu,
Ag ſydd yn maeddu blodau'r byd,
Poſiau penna' eu rhyw.

2 Ym myſg gwyryſon *Seion* fry,
Fel lili ym myſg y drain,
Efe yw'r Gwrthddrych goreu ei wedd,
A Chariad pur y rhai 'n.

3 Eiſteddais tan ei gyſgod ef,
A'i ffrwyth oedd felus iawn;
Ac yma treuliwn ddyddiau f' oes,
Fyth fyth yn ddedwydd iawn.

4 Darfyddwn ſôn am bleſer mwy
Yn agos ac ym mhell,
Tra cawn i yfed dyfroedd pur
O ffynnon lawer gwell.

5 Darfydded nos darfydded dydd
Fel munud fechan awr,
Tra fawn yn caru a rhoi mhwys
Ar fynwes f' Arglwydd mawr.

W. W.

HYMN LXXXII.

CAN. ii. 11, 12.

HAUL CYFIAWNDER yn neſâu.

1 AETH heibio'r gauaf chwerw dû,
Y 'ſtorom oer a'r gwlaw;
Ac ſe neſaodd, ac ſe neſaodd,
Ac ſe neſaodd hyfryd haul,
Cyfiawnder pur gerllaw.

2 Fe wnaeth ei babell yn ein plith,
A'i breſennoldeb ſy'
Yn troi pob cyſtudd chwerw loes
Yn hyfryd hedd i ni.

3 Fe welwyd blodau ar y ddaear,
Graſuſau pur y nef;
Oll yn aroglu'n beraidd iawn,
Oddi wrth ei wiſgoedd ef.

4 Mae turtur yr eſengyl ſwyn,
Yn llanw bro a brynn;
O dewch a dringwn fynu fry,
'Nawr gyd â'r awel hyn.

W. W.

HYMN LXXXIII.

ESAIA LXI. 2.

Diſgwyliad am y Flwyddyn gymmeradwy.

1 TAN fy maich yr wyf yn griddfan,
Diſgwyl amſer i ryddhau;
Diſgwyl fy mherchodau i dreulio,
Eto mherchod fy'n parhau;
Diſgwyl caf gafineb hollol,
Cariaf fy addunedau i'r dydd;
Eto ſnuan yn y gadwyn,
Ac yn methu myn'd yn rhydd.

2 O na

2 O na chlywn yr udgorn arian,
Ryw bryd yn rhoi bloedd i ma's,
Ac yn cyhoeddi i f' enaid llwythog,
Heddwch a maddeuol ras:
O na ddeuai nerth i wared,
Fel llifeiriant mawr ei rym!
Fel na allai 'm nwydau pennaf,
Bellach i'w wrth-ſefyll ddim.

3 Mi ro'wn ſydoedd maith pe meddwn
Am gael gweled torri lawr,
Bethau ac ſy'n myn'd â meddwl
Fil o weithiau yn yr awr:
Trais a gorcheſt ſydd ar fy yſpryd,
Cryf yw'm gelyn, minnau'n wann,
Addfwyn Oen, yn fuan bryſia,
Help ſi o'r pydew hyn i'r lann.

W. W.

HYMN LXXXIV.

Addewidion o'r NEFOEDD.

1 MAE addewidion nef o'm hochor,
Fod fy Ieſu yn Ffrynd i'r gwann;
O'r pydewau dwg ei hunan
Garcharorion lleſg i'r lann:
Torr y bolltau pres yn gandryll,
Tynn y barrau heiyrn yn ol;
Gad fy enaid o'r dyſnderoedd
'Hedeg yna i dy gol.

2 Nid wy'n haeddu dim trugaredd,
Tro'is fy nghefen ar y nef;
A chofleidiais fy eilunod,
'Nol meddiannu ei gariad ef:
Gwerthais dryſor mwy nâ'r ddaear
Am bleſerau munud awr,
Ac 'rwyf bron a thorri nghalon,
Am ei heddwch ef yn awr.

3 Etto un-waith mi ddyrchafaf,
Un ochenaid tu â'r nef;
Ac a wylaf ddagrau 'n hidil,
Am ei bresennoldeb ef:
Pwy a ŵyr na wrendy clustiau
Yr hwn a greodd daear a nen,
Ac y daw fy nymuniadau
Trist hiraethlon oll i ben.

W. W.

HYMN LXXXV.

Credu yng NGHRIST.

1 MAE holl gariadau 'r ddaear hon,
Fy ngado i yn gyttun;
Ond mae fy Anwylyd innau'n well,
Fyrddiynau maith nac un.

2 Ac er fod mil a lawenha,
Gael fangi ar fy mhen;
Mae fy ngriddfannau innau'n rhes,
Yn dringo tu â'r nen.

3 Er ofni beiau fy neheulaw,
Ryw awr i dorri ma's;
Etto 'rwy'n credu geiriau 'r nef,
Mai trech yw dwyfol ras.

4 Mi gredaf er mor hwyred yw,
Caf gongcweft ar fy mai;
Ac, am fod Iefu yn gadarn un,
Mi beidiaf llwfrhâu.

5 Tan gredu mi anturia 'mlaen,
Crediniaeth yw fy ngrym;
A than awelon cadarn gred,
N' all fy mhechodau i ddim.

W. W.

HYMN

HYMN LXXXVI.

Pobl ISRAEL yn ymadael â PHARAO.

1 ARGLWYDD, gwel dy bererinion,
Edrych ar eu cyſtudd mawr,
Wrth bridd-feini *Pharao* greulon,
Wedi eu curo yn doſt i lawr;
'Mofyn am y tiroedd hyfryd,
Mewn addewid ro'w'd tan ſêl,
Sydd a'u pur afonydd tirion
Fyth yn llifo o laeth a mêl.

2 Rho i ni nerth i dreiddio troſodd,
Pob rhyw afon, pob rhyw frynn;
Ac na b'o in' ddigalonni
Y cyſtudd draw, na'r cyſtudd hyn;
Rho i ni ffydd, a rho amynedd,
Rho oleuni, rho i ni rym,
Ac na's gallo nerth gelynion
Wneuthur niwed i ni ddim.

W. W.

HYMN LXXXVII.

Hiraeth am fod tan arweiniad yr YSPRYD.

1 PERERIN wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw;
Ac yr wy'n diſgwyl bob yr awr,
Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

2 Ac mi debygaf clywaf ſŵn
Nefolaidd rai o'm blaen,
Wedi congcwero a myn'd trwy
Dymheſtloedd dŵr a thân.

3 Tyr'd Yſpryd ſanctaidd ledia'r ffordd,
Bydded i mi'n niwl a thân;
Ni cherddai'n gywir hanner cam,
Nes eloſt o fy mlaen.

4 Mi wyra weithiau ar y dde',
Ac ar yr aſſwy law,
Am hynny arwain (gam a cham)
Fi i'r baradwys draw.

5 Mae hiraeth arnaf am y wlad
Lle mae 'r torfeydd di-ri';
Yn canu 'r anthem ddyddiau eu hoes,
Am angau *Calfari*.

W. W.

HYMN LXXXVIII.

DAT. XXII. 17.

Ac y mae yr Yſpryd a'r Briodas-ferch yn dywedyd, Tyred.

1 TYR'D Arglwydd, â'th addewid râd,
Pur eiriau 'r nef i ben;
Dyddiau fy rhydd-did ro'w'd tan ſêl
Yn llyfr mawr y nen.

2 Mae dyddiau griddfan i mi'n hir,
Caethiwed *Babel* fawr;
O na chawn deimlo'r Jubil fwyn,
Yn agor dorau'r wawr!

3 Ar Ol na throi y harrau pres,
A'r bollydd heiyrn yn ol,
Fel caw'n ni gadw cariad pur,
A heddwch yn fy nghol.

4 Mi wn tu â *Seion* ar y wawr,
Lle bues gynt yn byw;
Ac ni chyammerwn gwmp'ni im'
Yn unig ond fy Nuw.

5

5 Tebygwn pe b'ai'm troed yn rhydd
Maes o'r caethiwed hyn,
Ni wna'wn ond canu fyth tra f'wyf,
Am ras *Calfaria* frynn.

W. W.

HYMN LXXXIX.

Esaia lv. 1.

Ob deuwch i'r Dyfroedd.

1 EWN bechaduriaid at y dwfr
A darddodd ar y brynn,
Ac ni gawn drachdio fyth heb drai,
O'r afon loyw hyn.

2 Mae yma drugareddau rhâd
Tr dawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn 'fhor,
Sydd fythol yn parhâu.

3 Does yma eiſiau fyth yn bod;
Tryſorau gras yn llawn;
Er maint yr yfed a'r glanhâu,
Sydd o foreu hyd brydnhawn.

W. W.

HYMN XC.

CRIST yw fy MHRYNWR.

1 FE ſinodd f' enaid bach ynghri,
A dwndwr oer y byd;
Ond mae difyrrwch lawer nuwy,
Yma, hollol gan mryd.

2 Na'r tryſorau'r *India* bell,
Na chyfoeth maith *Peru*;
Na rhyw ddi-ſyſwedd ſorod gwael,
Mwyſo â fy Nuw.

3 Mae

3 Mae yn ei heddwch bethau mwy
Na fedd y byd yn un;
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint
Oruchaf gafodd dyn.

W. W.

HYMN XCI.

Am Adgyfodiad CRIST a'i Eſgyniad.

1 MAWR iawn ſu'r gorfoledd pan gododd ein Nêr,
Fe chwarddodd yr haul-wen, ſe ddawnſiodd y ſêr;
Fe neidiodd mynyddau a bryniau fel ŵyn,
Gorfoledd i'r Ieſu i godi er ein mwyn.

2 'Doedd neb yn y nefoedd, na neb ar y llawr
All'ſai ofyn dim dyled i'n Harglwydd yn awr:
Pan dalodd y cwbwl, pan groeſwyd y ſwm,
P'odd gall'ſai ei ofynwyr ei gadw ef yng nghlwm?

3 Y gwragedd godaſant i edrych y bedd,
I wel'd a gyfododd eu Harglwydd mewn hedd;
Wrth edrych ofnaſant, nid oeddent ond gwann,
Ni welſant eu Harglwydd, ond gwelſant y fan.

4 Fe grynodd y ceidwaid, cwympaſant i lawr;
P'odd gall'ſent hwy edrych diſgleirdeb mor fawr?
Y weithred oedd ynfyd roi dynion mor wann
I rwyſtro Creawdwr y ddaear i'r lann.

5 Wel ſaint gorfoleddwch ſe gafodd y dydd;
Fe rwymwyd ei Ddyn-dod, 'roedd ei Dduw-dod e'n rhydd:
Mae ei ſaint ef yn dyſtion (gwirionedd mawr yw)
I'n Harglwydd adg'odi o farw i fyw.

6 Fe

6 Fe ganodd hên ſeintiau ddihangodd o'r byd,
Yn diſgwyl cael gweled eu Harglwydd o hyd,
Ynghyd â'r ſeraphiaid a'r angylion fath glod,
Mewn newydd ganiadau na chlywyd erio'd.

7 Cawn ninnau adg'odi ar dorriad y dydd ;
Lladd ceidwad y carchar, a'n gollwng yn rhydd,
A'n cymm'ryd i fynu o'r ddaear i'r nef,
Yng ngolwg angylion fel ac y cas ef.

W. W.

HYMN XCII.

Esaia ix. 6.

Canys BACHGEN a aned i ni, &c.

1 BACHGEN a aned Mab ro'w'd in',
Ei enw ſy 'n ryfeddol ;
Ar ei yſgwydd ef llywodraeth ga'w'd,
Duw cadarn, Tad trag'wyddol.

2 Chwilio ei Berſon hardd a'i waith
Sy'n orchwyl maith anfeidrol ;
Gelwir yma ac yn y nef
Ei enw ef rhyfeddol.

3 Dihonglwch hyn ddyſgedig rai,
Rhyfeddu mae 'r cenhedloedd
P'odd gall'ſai *Mair* ei gynnwys ef,
Na chynnwys nef y nefoedd.

4 Duw mawr, Creawdwr dwfr a thir
I gael ei wir genhedlu
Gan Forwyn wnaethpwyd ganddo ei hun,
Fy enaid ſy'n rhyfeddu.

5 Mae holl ddaethineb Duw ynghyd
Yn cwrddyd yn ei Berſon ;
Nid rhyfedd bod myrddiynau'r nef
Yn ei foli ef yn gyſſon.

W. W.

HYMN

HYMN XCIII.

Marwolaeth CRIST.

1 'RHaul guddiodd ei wyneb pan grymmodd ei
Agorodd y beddau, fe dduodd y nen; (ben,
Fe ofnodd y ddaear, hi grynodd yn wir,
Wrth wel'd ei Chreawdwr tan hoelion o ddûr.

2 Fe gododd y meirw, fe rwygwyd y llen,
Yn dangos bod heddwch trwy'r nefoedd uwchben;
Duw guddiodd ei wyneb (ond chwerw y loes)
A'r Mâb yn diodde' ei hoelio ar y groes.

3 Fel *Joseph* i Garchar, neu *Jonah* i'r môr
Y rhoddwyd Etifedd y nefoedd a'i 'ſtôr
I wared i'r ddaear, ond Duw oedd efe,
Fe gododd i fynu i ganol y ne'.

W. W.

HYMN XCIV.

Ymaflyd yng ngodre GWR o Iuddew.

1 PERL *India* bell, aur o *Beru*,
Gwell tryſor yw ei gariad;
Y rhai dihangol yma a fry,
Efe yw eu dymuniad.

2 Gorllewin bell ddaw ar ei ol
I'w ganmol a'i ryſeddu,
Ym mrig yr hwyr am brofi blas
Y gwin ſy'n nheyrnas Ieſu.

3 Myrddiynau maith o eneidiau ſy'
Ie torf aneirif heddy',
Yn canu'n braf o fewn y nef
A ddenodd ef i'w garu.

4 Morwynion

4 Morwynion ſaith â'u bara a'u dw'r
Ddaw at y Gwr o Iudde',
I weled gwedd ei wyneb gwynn
A 'mafly'd yn ei odre.

5 Ni welaf neb mewn lle na man
Y filfed rann yn haeddu,
O'r ddaear fawr i'r neſoedd fry
I'm Harglwydd i gydmaru.

W.W.

HYMN XCV.

DUW a Digon.

1 O Am nerth i dreulio'm dyddiau,
Yng nghynteddeodd tŷ fy Nhâd;
Byw yng nghanol y goleuni,
Tywyllwch obry tan fy nhra'd:
Byw heb fachlud haul un amſer,
Byw heb gwmmwl, byw heb boen,
Byw ar gariad anorchfygol
Pur y croeſhoeliedig Oen.

2 Dyro olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas râd,
Brynwyd i mi ac a ſeliwyd,
Seliwyd i mi â dy wa'd:
Rho im' gyrchu tu ac atti,
Peidio fyth a llwfrhâu;
Ar fy nhaith ni cheiſiaf gennyt
Ond yn unig dy fwynhâu.

3 Gyd â thi mi âf trwy'r fyddin,
Gyd â thi mi âf trwy'r tân;
Ni ofnaf ymchwydd yr *Iorddonen*,
Ond i ti fyned o fy mla'n:

Ti yw'm Hamddiffynfa gadarn,
Ti yw Mrenhin a fy Nhad;
Ti dy hunan oll yn unig,
Yw fy Iechydwriaeth rad.

W. W.

HYMN XCVI.

Gweddi am bresennoldeb DUW.

1 PAM y caiff bwyſtfilod rheipus
Dorri egin mân i lawr?
Pa'm caiff blodau peraidd ieuainge
Fethu gan y ſychder mawr?
Dere â'r cafodydd hyfryd,
Sy'n cynhyddu'r egin grawn;
Cafod hyfryd yn y boreu,
Ac un arall y prydnhawn.

2 Goſod Babell yng ngwlad *Goſen*,
Dere Arglwydd, yno 'th hun;
Goſtwng o'r uchelder goleu,
Gwna dy drigfan gyd â dyn:
Trig yn *Seion* aros yno,
Lle mae'r llwythau'n d'od yngkyd;
Byth na 'mâd oddi wrth dy bobol,
Nes yn ulw'r elo'r byd.

3 Blinais ar afonydd *Babel*,
Nid oes yno ond wylo i gyd;
Llais telynau hyfryd *Seion*,
Sydd yn gyſſon dynnu 'mryd:
Tyr'd â ni yn dorf gariadus,
O gaethiwed *Babel* fawr,
Ac nes b'om ar fynydd *Seion*,
Nad ni oſod troed i lawr.

W. W.

HYMN

HYMN XCVII.

DUW yn Angeu yn unig.

1 O Iachawdwr pechaduriaid,
Sydd â'r gallu yn dy law;
Rho oleuni, hwylia 'm henaid,
Tros y ce'n-fôr garw draw:
Gad y wawr fod o fy wyneb,
Rho fy enaid lieſg yn rhydd,
Nes i'r haul-wen ddiſglair godi,
Tywys fi wrth y ſeren ddydd.

2 A oes neb o'm holl gyſeillion,
A ddaw 'n ddi-ddig gyd â mi,
Ac a orwedd wrth fy ochor
Obry yn y ddaear ddu?
A ydyw cyfaill ddim ond hynny?
Taflu dagrau, newid gwedd,
Pan b'o'r pridd a'r clai a'r cerrig
Arnai 'n cwympo yn y bedd.

3 O ynfydrwydd! O ffolineb!
I mi erioed i roddi mryd
Ar un tegan ar un pleſer
Welais etto yn y byd;
Y mae'r byd yn myned heibio
A'i deganau o bob rhyw,
Tan y nef ni thâl ei garu
Wrthddrych arall ond fy Nuw.

W. W.

HYMN XCVIII.

Gweddi am Nerth i fyned trwy Anialwch y Byd.

1 ARGLWYDD, arwain trwy'r anialwch,
Fi bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynnof nerth na bywyd,
Fel yn gorwedd yn y bedd;
Hollalluog, Hollalluog, *&c.*
Ydyw'r un a'm cwyd i'r lann.

2 Myfi a grwydrais hir-flynyddau,
Ac heb weled codi'r wawr;
Anobeithiais heb dy allu
Dd'od o'r anial dir yn awr;
Dere 'th hunan, *&c.*
Dyna'r pryd y dof i maes.

3 Rho'r golofn dân y nos i'm harwain,
A'r golofn niwl y dydd;
Dal fi pan b'wy'n teithio'r mannau
Geirwon yn fy ffordd y ſydd:
Rho i mi fanna, *&c.*
Fel na b'wyf i lwfrhâu.

4 Agor y ffynhonnau melus,
Sydd yn tarddu o'r graig i maes,
'Rhyd yr anial mawr canlyned
Afon iechydwriaeth gras:
Rho i mi hynny, *&c.*
Dim i mi ond dy fwynhâu.

5 Pan b'wy'n myned trwy'r *Iorddonen*,
Angeu creulon yn ei rym,
Ti eſt trwyddi gynt dy hunan,
Pa'm yr ofnaf bellach ddim?
Buddugoliaeth, *&c.*
Gwna im' waeddi yn y llif.

6 Mi ymddiriedaf yn dy allu,
Mawr yw'r gwaith a wneſt erioed,
Ti geſt angeu, ti geſt uffern,
Ti geſt ſatan tan dy droed;
Pen *Calfaria*, &c.
Nac aed hwnnw byth o'm côf.

W. W.

HYMN XCIX.

DUW ei hun yn Angeu.

1 MAE'r anialwch wedi mlino,
Chwant ſydd arnaf wel'd y tir
A roddwyd i mi gan fy Arglwydd
Cadarn mewn addewid wir;
Gwlad o oleuni heb dywyllwch,
Gwlad o gariad heb ddim trai;
Gwlad heb hawddfyd na phleſerau,
Ond yn unig ei fwynhâu.

2 P'odd yr âf fi trwy'r *Iorddonen*,
Oni ddeui di dy hun
Yno i dorri grym y tonnau,
Ac i ſeſyll wrth fy nglŷn?
Dal fy mhen i'r lann yn gadarn,
Pan b'o angeu yn fawr ei rym,
Pledia 'n eon yn ei wyneb,
Pan na b'wy 'n gallu d'wedyd dim.

3 Nad fy mhechod i'm congcwero,
Tra f'wyf ar y ddaear yn byw;
Nad e'm rhwyſtro i gymdeithaſu
Yn fynych mynych â fy Duw:
Nad ei fod yn awr marwolaeth,
Megis mynydd mawr o blwm,
Pan b'wyf am ddihengi fynu,
I fy ngwaſgu lawr yn drwm.

W. W.

HYMN C.

Grym CARIAD.

1 MAE fy nghalon am ehedeg,
Unwaith etto fynu fry,
I gael profi 'r hên gymdeithas
Gynt fu rhyngof â thydi:
Mi a grwydrais anial garw,
Heb un grâdd o oleu 'r dydd,
Un gwreichionyn o dy gariad
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

2 Ni raid i mi guddio 'th gariad,
Fel cariadau gwâg y byd,
Mi gyhoeddaf o flaen y werin
Dy fod wedi dwyn fy mryd:
Mae dy enw mawr mor werthfawr,
Ni chywilyddiaf honno mwy;
Mae dy gariad pur mor gryfed,
Anorchfygol yw ei glwy',

3 Pe b'ai 'r holl gyſtuddiau mwyaf
Yn gwaſgu ar fy enaid gwann,
A'r gelynion oll yn rhwyſtro
Y nefol dân i godi i'r lann;
Pan dechreuo, nid oes terfyn,
Cadarn natur cariad yw,
Sydd yn diſtaw fyn'd â'r enaid
O hono ei hun i fynwes Duw.

4 Mae fy nghalon yn 'ſgrifennu,
Ac yn adrodd wrthi ei hun
Enw hyfryd a rhinweddol,
Duw yn gwiſgo natur dyn:
Iechydwriaeth, Iechydwriaeth,
Iechydwriaeth werthfawr lawn
Ydyw enw fy Ngwaredwr
Gennyf foreu a phrydnhawn. W. W.

HYMN CI.

Golwg ar y WLAD.

1 DYN dieithr ydwyf yma,
Draw mae 'm genedigol wlâd,
Draw i'r moroedd mawr tymheſtlog
Ac o fewn i'r *Ganaan* râd:
'Storom fawr a ge's yn *Eden*,
Honno'm chwythodd i mor bell,
Yn ol yn awr mi droes fy wyneb
At yr hên *Baradwys* well.

2 Ac er gwaethaf grym y tonnau
Sydd yn curo o bob tu,
Dof trwy'r 'ſtorom, dof trwy'r gwyntoedd
Ryw bryd i'r *Baradwys* fry:
Gair fy Nuw ſy'n drech nâ'r moroedd,
Gair fy Nuw ſy'n drech nâ'r donn,
Ac mi anturiaf oll a feddwyf
Bythoedd ar addewid hon.

5 Ac ni fyddai'n hir cyn gorphen,
Ddim yn hir cyn landio fry;
Pob gorchymyn, pob bygythiad,
Pob addewid ſydd o'm tu:
Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan,
Gwnn y deuaf yn y man,
('Nol fy ngolchi gan y tonnau)
Yn ddihangol iawn i'r lann.

4 'Rwyf fi'n dechreu teimlo eifioes,
Bêr aroglau'r gwledydd draw,
Gyd â'r awel bur yn hedeg,
Diau fod y wlad gerllaw:
Dere 'r tir dymunol hyfryd,
Dere 'r ardal ſydd heb drai,
Dy bleſerau o bob rhywiau,
Gad im' bellach eu mwynhâu.

W. W.

HYMN CII.

Y Gwahaniaeth rhwng Daear a Nef.

1 FY ffiol yma ſydd yn llawn
O ddyfroedd *Mara* chwerwon iawn;
Ond gofid yn y nefol dir
A lyngcir gan lawenydd pur.

2 'Dyw cariad yma yn uwchaf man,
Ond megis rhyw ddymuniad gwann;
Ond y wreichionen leiaf ſy'
Yn wen-fflam yn y nefoedd fry.

3 Llawenydd mwyaf yma gawn,
Sydd fel rhyw ddafnau bychain iawn;
Ond yno'n foroedd mawr didrai,
Yn boddi 'r etholedig rai.

4 Fy ffydd ſy'n ffaelu gwel'd yn glir,
Ond yno try yn olwg pur;
Fy ngobaith am y nefol wlâd
A lyngcir yno mewn mwynhâd.

W. W.

HYMN CIII.

CRIST yn Angeu.

1 COFIA f' enaid cyn it' dreulio
D'oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn ehedeg ſtwrdd oddi yma,
Pa un a ge'ſt y tryſor drud?
Ym mhwy ardal bydd ſy lletty?
Fath pryd hynny ſydd ſy ngwedd?
P'un ai llawen neu gyſtuddiol
Fyddaf fi tu draw i'r bedd?

2 Pan

2 Pan bo'r llygaid yma'n t'wyllu,
Yn eu pyllau'n llechu lawr;
Troi oddi amgylch wrth ymdrechu
A gallu oedd angeu mawr:
P'odd dioddefaf y fath gyſtudd?
Pwy adfera'r colled hyn?
Oni chaf guddio mhen yng nghlwyſau
'R Oen fu ar *Galfaria* frynn?

3 Ieſu hawddgar 'rwy'n dy ddewis,
Nerth i ddilyn ol dy dro'd;
Yna caiff f'enaid 'hedeg
I'r happuſrwydd uwch y rhôd:
Tra f'om pridd yn myn'd i ymgymmyſg
A'r hyn y gwnaethpwyd ef ryw bryd,
Llewyrch wyneb Duw ddiſgleirio
Rannau f'enaid oll eu gyd.

W. W.

HYMN CIV.

CAETHIWED.

1 RWy'n gorwedd yn y carchar dû,
A'm henaid cu'n och'neidio;
A'r gadwyn fawr yn gwaſgu'n dynn,
Heb neb a'm tynn o hono.

2 Fy meiau megis gwlith y wawr,
Anfeidrol fawr eu cyfri',
Sy'n pwyſo'n galed ar fy mron,
A minnau bron llewygu.

3 Och'neidio 'rwyf am dd'od yn rhydd,
A gweled dydd gollyngdod,
I rodio'r bryniau ſanctaidd pur
Nefolaidd dir fy Mhriod.

4 Ti Ieſu mawr, y Meddyg pur,
Sy'n torri 'r dûr caletta';
Torr fy nghadwynau mawr â'th râs,
Fel delwyf ma's oddi yma.

W. W.

HYMN

O Iesu miawr, y meddyg gwell

HYMN CV.

GWEDDI.

1 O IESU miawr, y Meddyg gwell,
Gobaith yr hŭll ynyſoedd pell!
Dyſg fi i ſeinio maes dy glod,
Mai di-gyſnewid wyt erio'd.

2 O hoelia meddwl (ddydd a nos)
Crwydredig wrth dy nefol gro's!
A phlanna'm hyſpryd yn y tir
Sy'n lliſo o lawenydd pur.

3 Fel b'o fy nwydau drwg yn lân,
Yn cael eu diſa â'r nefol dân;
A chariad yn meluſu'r groes,
Trwy olwg ar dy farwol loes.

4 A thuoll marw (rhyfedd yw)
Er mwyn d'elynion i gael byw;
Derbyn i'th go'l a rho rvddhâd
I'r ſawl a brynaiſt â dy wa'd.

5 Doethineb anfeſurol ſy'
A gallu anfeidrol ynot ti,
A phob cyflawnder ſy'n dy rann,
Sydd eiſiau ar fy enaid gwann.

6 Fe gaiff dy enw anwyl glod,
Pan ddarfo i'r ddaear a'r nefoedd fod,
Am achub un mor wael ei lun,
Na all'ſai ei achub ond dy hun.

W. W.

HYMN CVI.

Gweddi am Nerth yn erbyn Pechod.

1 NID oes arnaf faich yn gorphwys
Ddim ond eifiau dy fwynhau,
Nid oes arall dan y nefoedd
All yn hollol fy iachau:
Rho dy gwmp'ni, *&c.*
Cyn im' fyn'd i'r cefnfor glas.

2 Mae fy nyddiau 'n hir i'w rhifo,
Ac nid 'ynt i'w cyfrif ddim;
Maent yn diangc beunydd arnaf
Fel yr awel deneu lym:
Darfod darfod, *&c.*
Mae fy oes bob munud awr.

3 Tynn yr ofon hên o farw
Sydd yn llechu dan fy mron,
Rho im' heddwch, rho orfoledd
Tra f'wyf ar y ddaear hon:
Na therfyfged, *&c.*
F' enaid gwann yng ngrym y dw'r.

4 Doed dy eglwys a galared
Tros fy meiau oll o'r bron,
Nid yw hynny un egwyddor
Ond fy'n aros dan fy mron:
Do mi flinais, *&c.*
Ar fy meiau fawr a mân.

5 Iefu cymmer fy anwireddau
Trymmion ar dy yfgwydd gref;
Nid oes nerth i fefyll tanynt
Onid gallu mawr y nef:
Waed ei hunan, *&c.*
All yn unig dynnu 'm baich. W. W.

HYMN

HYMN CVII.

Coffadwriaeth CALFARI.

1 RWY 'n morio tu a gartre 'm Nêr,
Rhwng tonnau maith yn byw,
A dyn heb neges tan y ſêr
Ond 'mofyn am ei Dduw,
Ond 'mofyn am ei Dduw,
Ond 'mofyn am ei Dduw.

2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro i 'nol,
A finnau 'dwyf ond gwann;
O cymmer Ieſu fi yn dy go'l!
Yn fuan dwg fi'r lann, *&c.*

3 N'ad fi ar aſſwy nac ar dde'
I redeg o dy fla'n,
Ond dilyn llwybrau Brenhin ne',
Trwy ddyfnder dw'r a thân, *&c*

4 A phan b'o yn curo f' enaid gwann
Elynion fel y ſêr,
Derchafa 'm hyſpryd lleſg i'r lann,
I fynwes bur fy Nrê, *&c.*

5 Boed dioddefiadau pur y groes
I laeſu 'm cur a'm gwae;
Griddfannau dwfn angeu 'r groes
I'm rhoddi i lawenhâu, *&c.*

6 Marwolaeth fy Ngwaredwr mawr
Yn fywyd pur i mi,
Fel gallwyf roddi 'm oll i lawr
Yn gôf am *Galfari*,
Yn gôf am *Galfari*,
Yn gôf am *Galfari*.

W. W.

SELECT

SELECT HYMNS.

HYMN I.

Godly Sorrow arising from the Sufferings of CHRIST.

1 ALAS! and did my Saviour bleed?
And did my Sov'reign die?
Would he devote that sacred Head
For such a Worm as I?

2 Was it for Crimes that I had done
He groan'd upon the Tree?
Amazing Pity! Grace unknown!
And Love beyond Degree!

3 Well might the Sun in Darkness hide,
And shut his Glories in,
When God the mighty Maker dy'd
For Man the Creature's Sin.

4 Thus might I hide my blushing Face,
While his dear Cross appears,
Dissolve my Heart in Thankfulness,
And melt my Eyes to Tears.

I. W.

HYMN II.

Christ *is the Substance of the* Levitical *Priesthood.*

1 THE true *Messiah* now appears,
The Types are all withdrawn:

So fly the Shadows and the Stars
Before the rising Dawn.

2 No smoaking Sweets, nor bleeding Lambs,
Nor Kid, nor Bullock slain;
Incense and Spice of costly Names,
Would all be burnt in vain.

3 *Aaron* must lay his Robes away,
His Mitre and his Vest,
When God himself comes down to be
The Off'ring and the Priest.

4 He took our mortal Flesh to show
The Wonders of his Love;
For us he paid his Life below,
And prays for us above.

I. W.

HYMN III.

Backslidings and Returns: Or *the Inconstancy of our Love.*

WHY is my Heart so far from thee,
My God, my chief Delight?
Why are my Thoughts no more by Day,
With thee no more by Night?

[2 Why should my foolish Passions rove?
Where can such sweetness be,
As I have tasted in thy Love,
As I have found in thee?]

[3 Trifles of Nature, or of Art,
With fair deceitful Charms,
Intrude into my thoughtless Heart,
And thrust me from thy Arms.]

4 Then I repent and vex my Soul,
That I should leave thee so;
Where will those wild Affections roll,
That let a Saviour go?

5 Sin's

[5 Sin's promis'd Joys are turn'd to Pain,
And I am drown'd in Grief;
But my dear Lord returns again,
He flies to my Releif;

6 Seizing my Soul with ſweet Surprize,
He draws with loving Bands;
Divine Compaſſion in his Eyes,
And Pardon in his Hands.]

[7 Wretch that I am to wander thus
In chaſe of falſe Delight!
Let me be faſten'd to thy Croſs,
Rather than loſe thy Sight.]

I. W.

HYMN IV.

Moſes *dying in the Embraces of God.*

1 DEATH cannot make our Souls afraid,
If God be with us there;
We may walk thro' our darkeſt Shade,
And never yield to Fear.

2 I could renounce my All below,
If my Creator bid;
And run, if I were call'd to go,
And die as *Moſes* did.

3 Might I but climb to *Piſgah*'s Top,
And view the promis'd Land,
My Fleſh itſelf ſhould long to drop,
And pray for the Command.

4 Claſp'd in my heav'nly Father's Arms,
I would forget my Breath,
And loſe my Life among the Charms
Of ſo divine a Death.

I. W.

HYMN V.

The Examples of Christ *and the Saints.*

1 GIVE me the Wings of Faith to rise,
Within the Veil, and see
The Saints above, how great their Joys,
How bright their Glories be.

2 Once they were mourning here below,
And wet their Couch with Tears;
They wreſtled hard, as we do now,
With Sins, and Doubts, and Fears.

3 I aſk from whence their Vict'ry came?
They with united Breath
Aſcribe their Conqueſt to the Lamb,
Their Triumph to his Death.

4 They mark'd the Footſteps that he trod
(His Zeal inſpir'd their Breaſt)
And, following their incarnate God,
Poſſeſs the promis'd Reſt.

5 Our glorious Leader claims our Praiſe,
For his own Pattern giv'n,
While the long Crowd of Witneſſes
Shew the ſame Path to Heav'n.

I. W.

HYMN VI.

Sight through a Glaſs, and Face to Face.

1 I Love the Windows of thy Grace,
Thro' which my Lord is ſeen,
And long to meet my Saviour's Face
Without a Glaſs between.

2 Oh,

2 Oh, that the happy Hour were come,
To change my Faith to Sight!
I ſhall behold my Lord at Home
In a diviner Light.

3 Haſte, my Beloved, and remove
Theſe interpoſing Days;
Then ſhall my Paſſions all be Love,
And all my Pow'rs be Praiſe.

I. W.

HYMN VII.

The Deceitfulneſs of Sin.

1 SIN has a thouſand treach'rous Arts
To practiſe on the Mind;
With flatt'ring Looks ſhe tempts our Hearts,
But leaves a Sting behind.

2 With Names of Virtue ſhe deceives
The Aged and the Young;
And while the heedleſs Wretch believes,
She makes his Fetters ſtrong.

3 She pleads for all the Joys ſhe brings,
And gives a fair Pretence;
But cheats the Soul of heav'nly Things,
And chains it down to Senſe.

4 So on a Tree divinely fair
Grew the forbidden Food;
Our Mother took the Poiſon there,
And tainted all her Blood.

I. W.

HYMN VIII.

Salvation.

1 SALVATION! Oh, the joyful Sound;
'Tis Pleasure to our Ears;
A sov'reign Balm for ev'ry Wound,
A Cordial for our Fears.

2 Salvation! Let the Echo fly,
The spacious Earth around,
While all the Armies of the Sky,
Conspire to raise the Sound.

3 Salvation is my happy Rest.
Salvation is my Home,
And let Salvation be engrav'd
Upon my silent Tomb.

I. W.

HYMN IX.

1 WHEN with a Mind devoutly press'd,
Dear Saviour, my revolving Breast,
Would past Offences trace;
Trembling I make the dark Review,
But plead, behold, admiring too
The Power of changing Grace.

2 This Tongue with Blasphemies defil'd
These Feet to erring Paths beguil'd,
In Heavenly League agree;
Who could believe such Lips could praise,
Or that my dark and winding Ways
Should ever lead to thee.

3 These Eyes which once abus'd their Sight,
Now lift to thee their wat'ry Light,
And weep a silent Flood;
These Hands ascend in ceaseless Prayer,
Oh! wash away the Stains they wear
In pure redeeming Blood.

4 These

4 Theſe Ears which once could entertain,
The midnight Oath, the luſtful Strain,
When round the jovial Board;
Now deaf to their enchanting Noice,
Avoid the Throng, deteſt their Joys,
And preſs to hear thy Word.

5 Thus art Thou ſerved in every Part,
Oh! would'ſt Thou but transform my Heart,
That drowſy Thing refine;
That Grace might Nature's Force controul,
And a new Creature, Body, Soul,
Be all for ever thine.

HYMN X.

Praying for Strength.

1 GUIDE me, O thou great Jehovah!
Pilgrim, thro' this barren Land,
I am weak, but thou art mighty,
Hold me with thy pow'rful Hand;
Bread of Heaven,
Feed me 'till I want no more.

2 Open thou the pleaſant Fountains,
Where the living Waters flow;
Let the River of Salvation,
Follow all the Deſart thro';
May thy Preſence
Always lead and comfort me.

3 Lord I truſt thy mighty Power,
Wondrous are thy Works of Old,
Thou deliver'eſt thine from Thraldom,
Who for nought themſelves had ſold;
Thou didſt conquer
Sin, and Satan, and the Grave.

P. W.

HYMN

HYMN XI.

The BRIDE's Requeſt. *Come my Beloved.*

1 JESUS put thy gracious Finger
Kindly into the Key-hole;
Chace away the thieving Slumber,
Which thy Bride's Affection ſtole;
Now perfume the dozing Chamber,
With thy Myrrhe the Lock beſmear,
Call aloud, and cauſe the Sleeper
Thy reviving Voice to hear.

2 Let the precious Box of Spikenard,
Send abroad its fragrant Smell;
Tell the Soul it is thy Pleaſure
With the Sons of Men to dwell:
Grant that we believe the Record,
God hath given of his Son;
That in him is Life eternal,
He the mighty Work hath done.

3 Do thou ſupport the fainting Spirit,
With the Savour of thy Name;
Thou the high Prieſt and the Altar,
Who the Sacrifice became:
Thou, who art the ſtrong Deliv'rer,
Sion's Prophet, and her King;
Let our Souls in thee be joyful,
And of thy Salvation ſing.

4 Lord, lift up thy glorious Standard,
Form the Nations from afar:
The Subjects of thy peaceful Kingdom,
Learn no more the Art of War:
Sinners that diſown thy Scepter,
Neither know themſelves nor thee;
Light and Life of every Living,
Let the World thy Glory ſee.

P. W.

TABLE

TABL i gael allan bob Hymn wrth y llinell gyntaf o honi.

	Tu Dalen
A	
AGOS berthynas ſydd yn bod	22
Ar fôr o wydyr teithio'r wy'	42
Ant rhagddynt bawb o nerth i nerth	95
Arglwydd graſol dyro gymmorth	101
Aeth heibio'r gauaf chwerw du	112
Arglwydd, gwel dy bererinion	115
Arglwydd, arwain trwy'r anialwch	124
B	
Braint braint	4
Bachgen a aned Mab a ro'w'd in'	119
C	
Corph ſanctaidd pur ein Harglwydd ni	40
Criſt ſy' gyfaill pechaduriaid	58
Clodforwn di ein Duw	68
Clodforwch bawb ein Harglwydd Dduw	85
C'od f' enaid gwann, yn fuan gwel	87
Clyw hyn, O ferch! a hefyd gwel	93
Caned y genedl gyfiawn, daeth Ieſu i'w rhyddhau	99
Creawdwr y greadigaeth faith	102
Cofia f' enaid cyn it' dreulio	128
CH	
Chwy-chwi yr etholedig ryw	70
D	
Da iawn, y fyddai gennyf fyw pe cawn	6
Da iawn, y gwnaeth ein Duw bob peth mewn dawn	7
Deffro Seion yn ddi-ddig	28
Dos union lan annerch, at fwyn briodas-ferch	33
Dewch bechaduriaid tlodion	55
Dos ymaith ffwrdd ar ffo	65
Daw amſer braſ, can's gwawrio bron	83
Dy lwybrau di ynt hyfryd iawn	90
Dy babell di mor hyfryd yw	94
Dyn dieithr ydwyf yma	127
E	
Ewn bechaduriaid at y dwfr	117

F — Tu dal.

Fel Rhoſyn Saron coron gardd — 8
Fe dderfydd pob gofidiau maith — 38
Fel Abram dyſg fi adael — 41
Fe welir ryw ddyddiau — 46
Fy enaid tlawd bendithia'r Arglwydd — 59
Fy ngweddi dos i'r nef — 76
Fy enaid a lewygai, ni allwn godi mhen — 104
Fy Nuw a'm Tad trugarog, ſy' deilwng o bob clod — 106
Fy Mrenhin a fy Mhrophwyd am 'Ffeiriad mawr — 107
F' Anwylyd ſydd fel lili hardd — 111
Fe ſinodd f' enaid bach 'nghri — 117
Fy ffiol yma ſydd yn llawn — 128

G

Gwelwn ein braint mor hyfryd yw — 20
Gwynfyd preſwylwyr tŷ ein Duw — 23
Gwyn ei fyd y dyn ſy'n gwybod — 57
Gofidus ddyddiau 'm pererindod — 98

H

Hoſanna i'n Brenhin congcwerodd yn lan — 72

I

I'r Ieſu boed y clod — — — 49
Ieſu yw Rhoſyn Saron mwyn — 73
I Biſga o'r diwedd f' enaid daeth — 80
I'r nefoedd fry'r aeth Ieſu gwiw — 82
I'r Aipht daeth Ieſu i'm gwared o dir caethiwed du — 98
I'r ddaear a'i gwagedd ni ganwn yn iach — 103
Ieſu, dyſyrrwch fy enaid drud — — 109

LL

Llawenydd ſydd i'm henaid prudd — 52
Llais hyfryd fy Anwylyd ſy' — — 74

M

Mae ordinhadau Criſt yn llawn — 11
Mae cariad Criſt yn hyfryd iawn — 13
Mewn meſur da y gauaf du — — 14
Mae ffynnon gras yn dechreu 'n wann — 15
Mae 'r dreſn hon o'r ordinhad — — 17
Mae 'r holl ganghennau blannodd Duw — 18
Mae Yſbryd Duw o fewn ei blant — 19
Mae addewidion Duw yn ei Air — 21
Mae 'r ordinhad o hîr barhad — — 25

Tu dal.

Myfyrio 'n llawen yr y'm am rad 43
Mi ganaf tra f'o anadl — — 50
Mae 'r dydd ar fyrder yn neſau 60
Myfi yw 'r gangen, Criſt yw 'r Pren 71
Mae 'r manna gwedi ei gael — 96
Mi gefais gyfaill ffyddlon ni byddaf byth yn dlawd 105
Mae addewidion nef o'm hochor 113
Mae holl gariadau 'r ddaear hon 114
Mawr iawn fu 'r gorfoledd pan g'ododd ein Ner 118
Mae 'r anialwch wedi 'm mlino 125
Mae fy nghalon am ehedeg — 126

N

Ni welwn ben ein ſiwrnai — 51
Newyddion da y'm yn glywed — 63
Ni chenfigenna' i y rhai ſy 'n cael 110
Nid oes arnaf faich yn gorphwys 131

O

O canwn fawl i'r Arglwydd Dduw 3
O canwn fawl i'r Bugail mwyn ibid
O wraig yr Oen gwel gariad Duw 9
O dewch ymla'n i'r dyfroedd glan — 10
O Frenhin Seion dere i'n plith 16
O deuwn at yr ordinhad — 21
O canwn fawl i'n Harglwydd Ion 24
O canwn fawl i'r Arglwydd ne 27
O's gwelir fi bechadur — 37
O frodyr! ni gawn fyn'd yn rhydd 42
O's rhai bod rhyfel cyn cael hedd 54
O pa mor wynfydedig yw — 56
O enaid athriſt cwyn dy ben — 61
O Ieſu archeſt in' — — 66
O melus yw 'r llawenydd ſydd 69
O Arglwydd gwel fi 'n lleſg a gwann 79
O Fugail Iſrael dwg fi mla'n ibid
O flaen y faingc mil miloedd mae 88
O pwy yw hon ſy 'n lleſg a gwann 90
O's yw 'n gofidiau yn y byd 92
O gwynfyd Abra'm hyfryd ſy'n nhir y bywyd 100
O am nerth i dreulio 'm dyddiau — 121
O lachawdwr pechaduriaid — 123
O Ieſu mawr y Meddyg gwell 130

P — Tu dal.

Pan fyddo'r Priod-Fab trwy ferch — 12
Pa wedd gall dynion gyrraedd dawn — 17
Pwy gyfeillion a'n boddhâ — 26
Palmentir llwybr in' — — 48
Pan oedd y Iesu'n byw yn y cnawd — 62
Pererin wy'n y byd — — 64
Pan glywo pechaduriaid trist — 75
Pererin wyf i'r Ganaan fry — 77
Pererin wyf tu a Salem dir — 78
Pe cawn ond teimlo'r awel gref — 84
Parod yw'n Duw i faddeu bai — 91
Pe b'ai yn gorfod ar y rhai'n — 94
Pererin wyf mewn anial dir — 115
Perl India bell, Aur o Beru — 120
Pa'm y caiff bwyftfilod rheibus — 122

R

Rhad, rhad — 5
'Rwy'n edrych dros y bryniau pell — 109
'R haul guddiodd ei wyneb pan grymmodd ei — 120
'R wy'n gorwedd yn y carchar du — 128
'R wy'n morio tu a gartre'm Ner — 132

T

Tyred Iesu i'r gialwch — — 45
Tydi'r hwn mae fy enaid drud — 72
Trafaelwyr y'm i'r Ganaan glyd — 81
Tan fy maich yr wyf yn griddfan — 112
Tyred Arglwydd â'th addewid rad — 116

W

Wele'r fath fedd bu'n Pennwr mad — 39
Wel dyma hwy'r gadwedig hil — 89
Wrth feddwl am dy ryfedd waith — 96
Wel dyma'r pererinion dewr — 108

Y

Yr Iesu anwyl Fab y Tad — 25
Yn awr 'r wy'n gorphen hyn o waith — 36
Ychydig a drwg ydyw mlynyddoedd yn y byd — 39
Yn iach i bawb o'r byd yn awr — 44
Yn iach bob rhai fy'n pleño'r cnawd — ibid
Y mae Seion yn hiraethlon — 52
Y rhai a gafglodd Duw — 85
Yno mae'r Apoftolion — 88